# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Mawrth 2019

Amser: 13.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

**(Ar 18 Mawrth 2019, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn.)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.15)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.15)

**2.1 Y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (28 Chwefror 2019)**

(Tudalennau 1 - 14)

**2.2 Addasiadau Tai: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (1 Mawrth 2019)**

(Tudalennau 15 - 16)

**2.3 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (5 Mawrth 2019)**

(Tudalennau 17 - 20)

**2.4 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (14 Mawrth 2019)**

(Tudalennau 21 - 22)

**2.5 Rheoli Apwyntiadau Cleifion Allanol ar Draws Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (13 Mawrth 2019)**

(Tudalen 23)

**2.6 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Gwybodaeth ychwanegol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru (18 Mawrth2019)**

(Tudalennau 24 - 45)

## 3 Craffu ar Gyfrifon: Briff gan Lywodraeth Cymru

(13.30 - 14.00)

Gawain Evans - Cyfarwyddwr Cyllid, Lywodraeth Cymru

Chris Munday - Dirprwy Gyfarwyddwr Atebion Busnes, Lywodraeth Cymru

## 4 Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Cymuned: Briff gan Swyddfa Archwilio Cymru

(14.00 - 14.30) (Tudalennau 46 - 171)

Papurau briffio

PAC(5)-09-19 Papur 1 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru - Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru (Ionawr 2019)

PAC(5)-09-19 Papur 2 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru - Rheoli Ariannol a Llywodraethu - Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18 (Ionawr 2019)

PAC(5)-09-19 Papur 3 - Papur Trafod Archwilydd Cyffredinol Cymru: Chwe thema er mwyn helpu i wneud craffu yn 'Barod at y Dyfodol' (Chwefror 2019)

PAC(5)-09-19 Papur 4 - Llythyr gan Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Swyddfa Archwilio Cymru, yn amlinellu newidiadau i weithdrefnau archwilio ar gyfer y sector cyhoeddus (21 Chwefror 2019)

## 5 Caffael Cyhoeddus: Trafod y llythyr drafft

(14.30 - 14.45) (Tudalennau 172 - 177)

PAC(5)-09-19 Papur 5 - Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (13 Mawrth 2019)

PAC(5)-09-19 Papur 6 - Llythyr drafft

## 6 Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Yr Hyn a Ddysgwyd: Trafod y themâu allweddol

(14.45 - 15.15) (Tudalennau 178 - 189)

PAC(5)-09-19 Papur 7 – Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

PAC(5)-09-19 Papur 8 – Llythyr gan Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (14 Mawrth 2019)

## 7 Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ar draws Cymru: Trafod y themâu allweddol

(15.15 - 15.35)

## 8 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod y themâu allweddol

(15.35 - 15.55)

## 9 Blaenraglen waith: Trafod rhaglen waith haf 2019

(15.55 - 16.15) (Tudalennau 190 - 206)

PAC(5)-09-19 Papur 9 – Rhaglen waith ddrafft

PAC(5)-09-19 Papur 10 – Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru: Ymgynghoriad ynghylch rhaglen waith dair-blynedd i'r dyfodol (7 Mawrth 2019)

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

28 Chwefror 2019

Annwyl Mr Ramsay,

**Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif**

Yn eich llythyr yn ddyddiedig 24 Gorffennaf 2018, roeddech yn gofyn am ddiweddariad pellach ym mis Ionawr 2019 ar Fand B y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, gan gynnwys y materion a godwyd gennych yn eich llythyr ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Gofynnoch am ddiweddariad ar sefyllfa Band A yn ogystal.

Rwyf wedi llunio'r papur atodedig gan obeithio y bydd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Rhowch wybod os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu eglurhad pellach.

Yn gywir

**Tracey Burke**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**YMATEB YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS**

**RHAGLEN ADDYSG AC YSGOLION AR GYFER YR 21$^{AIN}$ GANRIF**

**Rhagarweiniad**

Fel y gofynnwyd yn y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 24 Gorffennaf 2018, mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad pellach yn dilyn fy llythyr dyddiedig 21 Awst. Mae'n cwmpasu Band B y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, gan gynnwys y y materion a godwyd yn eich llythyr. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

## 1. Diweddariad ar y Rhaglen

### Band A

Daw Band A y Rhaglen i ben yn swyddogol ym mis Mawrth 2019, wedi i dros £1.4 biliwn gael ei fuddsoddi yn yr ystâd addysg ar draws Cymru ers 2014. Erbyn mis Rhagfyr 2018, bydd Band A wedi cefnogi 170 o brosiectau ailadeiladu neu adnewyddu mewn ysgolion neu golegau. Hyd yn hyn, mae 134 o'r rhain wedi'u cwblhau ac mae 27 pellach ar y gweill. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid cyflenwi ar bum prosiect pellach rydym yn gobeithio eu cefnogi o hyd o dan ymbarél Band A.

Ceir yn Atodiad A ddadansoddiad o'r cynnydd a wnaed ym Mand A yn ôl y partneriaid cyflawni. Fel arfer, defnyddir Achosion Cyfiawnhad Busnes ar gyfer prosiectau bach sy'n werth llai na chyfanswm o £5 miliwn. Mae'r wybodaeth ar fformat gwahanol i'r hyn a gyflwynwyd o'r blaen. Cafodd y tablau a roddwyd yn fy mhapur ym mis Mehefin 2018 eu cyflwyno mewn ffordd unigryw yn benodol at ddibenion y Pwyllgor hwnnw. Y tabl yn Atodiad A yw'r hyn y byddwn yn ei roi'n arferol bob mis i'r Panel Buddsoddi a chaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i wirio. Mae'n dangos bod Band A bron iawn â'i gwblhau. Mae llawer o resymau pam nad yw prosiectau'n cael eu cwblhau neu pam y mae oedi'n eu cylch. Yn yr un modd, mae cyfleoedd am brosiectau ychwanegol neu brosiectau y mae angen amdanynt ar frys yn ymddangos yn aml ac mae angen cymorth arnynt ar fyr rybudd. Yr hyblygrwydd hwn sy'n galluogi i'r rhaglen gyflawni fel y gwnaeth hyd yma.

### Band B

Mae Band B y Rhaglen yn dechrau'n swyddogol ym mis Ebrill a chaiff £2.3 biliwn pellach ei fuddsoddi. Fodd bynnag, rydym eisoes yn gweithio gyda'n partneriaid cyflenwi i roi hwb i brosiectau Band B. O dan Band B, rydym wedi derbyn 21 o achosion busnes hyd yn hyn, ac mae pedwar o'r rhain yn rhai Addysg Bellach (AB).

Mae chwech o achosion busnes, sy'n werth £45.8 miliwn gyda'i gilydd, eisoes wedi'u cymeradwyo'n llawn ac yn y cyfnod adeiladu.

- Sir Gaerfyrddin – Ysgol Pum Heol
- Sir Gaerfyrddin – Ysgol Pembrey
- Conwy – Ysgol Gogarth

- Sir y Fflint – Ysgol Uwchradd Cei Connah
- Abertawe – Uned EOTAS
- Coleg Cambria – Canolfan Dechnoleg Iâl

Mae dau achos busnes arall, sydd â gwerth cyfalaf o £32.4 miliwn gyda'i gilydd, hefyd wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar gan y Panel Buddsoddi ond nid ydynt wedi cael cymeradwyaeth y Gweinidog eto.

Bydd Band B yn adeiladu ar gryfderau'r Band blaenorol:

- Bydd perchnogaeth a llywodraethu'n parhau mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Colegau Cymru a Chyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol;
- Parheir i flaenoriaeth a chyflymder y gwaith cyflenwi gael ei osod gan ein partneriaid cyflenwi yn seiliedig ar flaenoriaethau ac anghenion lleol; a
- Datblygir a phrofir achosion busnes ar gyfer buddsoddi gan ddefnyddio Model 5-Achos y Trysorlys.

Fodd bynnag, rydym hefyd wedi ceisio cryfhau gwaith cyflenwi'r rhaglen yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod gwaith cyflenwi Band A. Felly bydd gwaith cyflenwi Band B yn elwa o:

- Dempledi achosion busnes symlach, i leihau dyblygu ymdrechion diangen;
- Aelodaeth ehangach o Grŵp Craffu ar Achosion Busnes Llywodraeth Cymru, i sicrhau buddion a chanlyniadau traws-bolisi; a
- Meincnodi meintiau a chostau safonol, i sicrhau gall cynifer o ddysgwyr â phosib elwa o amgylchedd dysgu 21ain Ganrif.

Er mwyn lleddfu'r pwysau ar gyllidebau ein partneriaid cyflenwi, tra hefyd yn cadw ein huchelgais uchel ar gyfer y Rhaglen, bydd elfen gyfalaf Band B hefyd yn elwa o gyfraddau uwch o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Gweithredir y cynnydd hwn i roi cymorth ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol a cholegau i sicrhau dichonoldeb ariannol parhaus y Rhaglen:

- Cynnydd o 50% i 65% ar gyfer pob prosiect ysgol a choleg prif ffrwd a ariennir gan gyfalaf; a
- Chynnydd o 50% i 75% ar gyfer ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (*PRU*).

Gyda'n partneriaid cyflenwi rydym hefyd yn bwriadu ailosod natur strategol y Rhaglen cyn i Fand B gychwyn ynghyd ag uchelgais newydd a fydd yn ceisio darparu:

- Cenhedlaeth newydd o ysgolion a cholegau sy'n ganolfannau dysgu ar gyfer eu cymunedau ehangach; a
- Rhagor o hybiau ar gyfer gwasanaethau cymunedol, gan gynnig nid addysg yn unig ond amrywiaeth ehangach o weithgareddau cymunedol trwy gynllunio gwell a chysylltu cyllidebau seilwaith.

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM)**

Ym mis Awst, ysgrifennais at y Pwyllgor mewn ymateb i'w gais am sicrwydd bod y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn rhoi'r gwerth gorau am arian yn gyffredinol. Ers hynny, profwyd cynnydd sylweddol o ran datblygu Rhaglen Addysg y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Cynhaliwyd amserlen ddwys o sesiynau briffio gyda Phrif Weithredwyr awdurdodau lleol, swyddogion Adran 151 a Chyfarwyddwyr Addysg. Hefyd rhoddwyd cyflwyniadau i Gymdeithas Trysoryddion Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru; yn ogystal â thrafodaethau manwl â noddwyr posib ar gyfer prosiectau MIM yn yr awdurdodau lleol a cholegau.

Daeth y cyfnod ymgysylltu i ben trwy ddiwrnod gwybodaeth a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd yn y Gyfnewidfa Lo yng Nghaerdydd. Mynychodd 130 o gynrychiolwyr y digwyddiad hwn i glywed am gynllun Caffael Partneru Strategol Rhaglen Addysg MIM a Phartneriaeth Addysg Cymru (WEP). Ymhlith y mynychwyr ar y diwrnod roedd carfan fawr o gontractwyr, arianwyr a chynghorwyr sector preifat, yn ogystal â chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a cholegau. Daeth sawl un o'r olaf o'r ddau ymlaen i gyflwyno eu prosiectau MIM. Dangosodd y diwrnod y diddordeb sylweddol yn y cynllun caffael Addysg MIM; a'r hyder y mae partneriaid preifat posib yn ei feddu arno o ran gallu cyflenwi'r Rhaglen.

Yn ogystal ag ymgysylltu dwys â rhanddeiliaid, mae Tîm Addysg MIM wedi llunio set gynhwysfawr o ddogfennaeth, gan gynnwys templed Cytundeb Prosiect Addysg MIM, Mecanwaith Talu, y Cytundeb Partneru Strategol a'r Cytundebau cysylltiedig i Randdeiliaid. Lanlwythwyd y dogfennau hyn i wefan Llywodraeth Cymru ar 30 Tachwedd i hel adborth gan yr holl bartïon â diddordeb. Lanlwythwyd dogfennau pellach i'r wefan ar 20 Rhagfyr, gan gynnwys Gofynion Technegol a phapurau strategol yr Awdurdod ar Ynni, Buddion i'r Gymuned a Modelu Gwybodaeth Busnes (BIM).

Hefyd cynhaliwyd ymgysylltu pellach gyda'r Cynulliad ei hun. Rhoddodd swyddogion Trysorlys Cymru sesiynau briffio technegol ar y MIM i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (EIS) ar 3 Hydref ac i'r Pwyllgor Cyllid ar 29 Tachwedd. Cymeradwywyd y sesiynau briffio hyn a lle y ceir galw am sesiynau briffio technegol pellach bydd swyddogion Trysorlys Cymru a swyddogion Addysg yn cydweithio i sicrhau y caiff deunydd ei ddarparu.

Ar ôl ystyried yn ofalus, a chan gymryd i ystyriaeth y cynnydd i'r gyfradd ymyrraeth o ran cyfalaf, argymhellwyd y dylid cynyddu cyfraniad Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau MIM. O ganlyniad, cafodd yr awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach wybod ar 7 Chwefror bod y gyfradd ymyrraeth ar gyfer cynlluniau MIM wedi cynyddu o 75% i 81%, sy'n ymgodiad tebyg i'r hyn a gymhwyswyd i ochr gyfalaf y Rhaglen. Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol a'r sefydliadau addysg bellach ailystyried a oeddent yn dymuno cyfnewid unrhyw un o'u cynlluniau cyfalaf ar gyfer y llwybr MIM.

## 2. Meysydd eraill lle gwnaeth y Pwyllgor ofyn am sicrwydd pellach

Roedd eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf yn gofyn am sicrwydd mewn chwe maes – ethos cydweithrediadol, galw am leoedd, perfformiad ynni, cymorth technegol, buddion i'r gymuned a theithio llesol.

***Ethos cydweithrediadol - lle cafwyd anghysondeb rhwng tystiolaeth CLlLC a thystiolaeth Llywodraeth Cymru. Byddai'n dymuno gweld bod y cydweithio a'r gydberchnogaeth yn parhau ym Mand B.***

Ym mis Awst, soniais fod y trefniadau cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a CLlLC ac awdurdodau lleol yn enghraifft lwyddiannus o gyd-greu a pherthynas ganolog-lleol.

Mae'r Rhaglen yn parhau i fod yn seiliedig ar gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Colegau Cymru a Chyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol, y maent oll wedi'u cynrychioli ar Fwrdd y Rhaglen. Enghraifft dda ddiweddar o hyn yw penderfyniad y Gweinidog ym mis Tachwedd i gynyddu cyfraddau ymyrraeth Llywodraeth Cymru ar gyfer elfen gyfalaf y Rhaglen a wnaethpwyd yn dilyn trafodaethau helaeth gyda'n partneriaid busnes ac ar gyngor gan Fwrdd y Rhaglen.

***Galw am leoedd - nid oeddem yn argyhoeddedig o ran yr ymatebion a dderbyniwyd ynghylch hyblygrwydd y rhaglen i addasu i newidiadau yn y gyfradd genedigaethau. Yn benodol, roeddem yn dymuno gwybod a oedd y rhaglen yn ffactora datrysiadau technegol i wead ysgolion sy'n golygu y gallant adeiladu ar hyblygrwydd - er enghraifft, agor neu gau ystafelloedd dosbarth neu greu pwrpas newydd iddynt - wrth i'r ddemograffeg newid.***

Ym mis Awst, cynghorais fod awdurdodau lleol yn addasu'r ffurfweddiad ac yn defnyddio technegau dylunio amrywiol wrth i'r ddemograffeg newid. Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddatrysiadau technegol i adeiladu hyblygrwydd er mwyn rheoli newidiadau i'r galw am leoedd mewn ysgolion. Enghraifft dda ddiweddar o hyn yw dwy ysgol gyfrwng Cymraeg Band B i'w hadeiladu yn Abertawe cyn hir. Mae'r rhain yn cael eu 'diogelu at y dyfodol' yn nhermau eu meysydd cymunol er mwyn gallu ehangu'r ysgolion yn hawdd yn achos capasiti derbyn uwch trwy ychwanegu ystafelloedd dosbarth ychwanegol pe bai cynnydd yn y galw am leoedd dros amser.

***Perfformiad ynni – nid oeddem yn argyhoeddedig fod Llywodraeth Cymru'n deall y pryderon ynghylch arbedion effeithlonrwydd ynni. Yn ôl eich tystiolaeth nodwyd eich bod yn dda o ran nodi'r arbedion o flaen llaw ond nid yw'r arbedion hynny'n arwain at yr arbedion cost a ddisgwylir. Credwn fod mater ehangach o ran realaeth yr arbedion posib trwy effeithlonrwydd ynni y mae angen ei ffactora i mewn i gynlluniau o flaen llaw. Hoffem weld Llywodraeth Cymru'n cymryd rôl flaenllaw mewn herio'r diwydiant os nad yw manyleb y diwydiant mewn gwirionedd yn cyflenwi'r buddion ariannol ac amgylcheddol yr hoffech eu gweld. Mae CLILC wedi awgrymu y byddai contractau MIM yn ceisio trosglwyddo risgiau sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni yn nyluniad adeiladau i'r sector preifat a byddem hefyd yn croesawu eglurhad o ran sut mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r trosglwyddo risg weithio.***

Ym mis Awst, soniais ein bod wedi comisiynu adroddiad ar sut i osgoi'r bwlch mewn perfformiad, a bod y Canllaw Arfer Da a ddeilliodd ohono wedi'i rannu â phartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid. Mae'r mater o effeithlonrwydd ynni'n parhau'n ystyriaeth ddifrifol yn y Rhaglen. Fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod bod pryderon bod arbedion ar gyfer ysgolion newydd wedi bod yn is na'r disgwyl, nid oes gennym dystiolaeth ddigonol hyd yma i allu asesu ai dyma'r achos.

Nawr bod yr arolwg gwerthuso adeiladau a ddefnyddir wedi'i ddosbarthu i'n partneriaid cyflenwi, byddwn yn disgwyl y caiff ei gwblhau ar gyfer pob prosiect ysgol a ariennir gan y Rhaglen. Cesglir data sylfaenol cyn i'r prosiect gychwyn a chesglir data am y prosiect a gwblhawyd ym mlwyddyn 1, 2 a 5 ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

Mae adran gweithredu Adeiladau'r arolwg gwerthuso adeiladau a ddefnyddir yn casglu gwybodaeth ar filiau cyfleustodau, defnydd ynni, perfformiad a defnyddio technolegau adnewyddadwy a dŵr. Mae'r adran yn casglu gwybodaeth ar y canlynol mewn ysgolion:

- Tystysgrif Ynni i'w Harddangos;
- Defnydd trydan (prif gyflenwad a thechnolegau adnewyddadwy); a
- Defnydd gwres (nwy o'r prif gyflenwad a thechnolegau adnewyddadwy).

Er mai gofyniad ariannu *EPC* yw y dylai prosiectau gyflawni gradd 'A', dylai'r arolwg alluogi awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gydnabod unrhyw fwlch mewn perfformiad ar ôl i'r ysgol agor. Trwy fonitro Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos bydd modd gweld bwriad dyluniad a defnydd ynni go iawn a sut gall hyn wella neu waethygu dros amser.

***Cymorth technegol – roedd gennym dystiolaeth gan Gomisiwn Dylunio Cymru ei fod yn glir nad yw eu gwasanaethau'n cael eu defnyddio fel y dylent i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Rhaglen. Hoffem i Lywodraeth Cymru ailfeddwl am y ffordd orau i ddefnyddio'r Comisiwn Dylunio i gefnogi'r gwaith o gyflenwi Band B yn llwyddiannus wrth ochr yr ystyriaeth a roddir i'r cymorth technegol ehangach y mae ei hangen. Er i chi esbonio bod y cymorth a roddwyd hyd yma gan Wobrau Rhagoriaeth Adeiladu wedi bod ar gyfer tri phrosiect arwahanol, mae aelodau'n parhau i bryderu a fydd cymorth technegol digonol ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Rhaglen yn y don nesaf. Llywodraeth Cymru***

***ddylai penderfynu pwy sy’n rhoi’r gefnogaeth honno. Fodd bynnag, byddem yn croesawu diweddariad ar eich cynlluniau yng nghyd-destun argymhelliad 10 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a chymryd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd gan effaith y cymorth technegol a ddarparwyd yn ystod Band A ac unrhyw gyfyngiadau capasiti/gallu yng nghyfrifoldeb y sefydliad ar gyfer cyflenwi prosiectau.***

Pan ysgrifennais atoch ddiwethaf, soniais ein bod wedi defnyddi’r Comisiwn Dylunio i ddarparu mewnbwn ar ddechrau Band A a’n bod yn bwriadu gwneud yr un peth ar gyfer Band B. Ers mis Awst mae swyddogion wedi cyfarfod â Chomisiwn Dylunio Cymru ddwywaith i drafod eu rôl o ran cefnogi’r Rhaglen. Bydd y sgwrs hon yn parhau a bydd ffocws ar annog ein partneriaid cyflenwi i ymgysylltu â’r Comisiwn ar gyfnod cynharach yn y broses ddylunio nag yw’r achos ar hyn o bryd.

Un o’r buddion allweddol sy’n dod o Fand A y Rhaglen oedd y corff sylweddol o arbenigedd a gwybodaeth am gyflenwi a adeiladwyd gyda’n partneriaid cyflenwi. Mae gweithdy a gynhaliwyd gyda’n partneriaid cyflenwi yn ddiweddar i adolygu’r gwersi a ddysgwyd gan Fand A gan edrych ar baratoi ar gyfer Band B wedi cadarnhau bod y mwyafrif yn hyderus eu bod yn meddu ar y sgiliau a’r wybodaeth i gyflenwi Band B yn effeithiol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gomisiynu, tynnu ar brofiad a darparu arbenigedd a chymorth allanol yn ôl yr angen.

Yn nhermau MIM, mae rhai o’n partneriaid cyflenwi yn meddu ar brofiad o gyflenwi cynlluniau Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad hynny yw’r achos yn gyffredinol a bydd angen tîm amlddisgyblaethol yn y canol er mwyn rhoi cyngor a chymorth. Cytunwyd ar adnoddau ar gyfer hyn gyda’r Gweinidog ac mae’r broses recriwtio ar gyfer rolau allweddol ar waith. Caiff gwead a chapasiti’r swyddogaeth hon eu hadolygu’n gyson i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn effeithiol.

***Buddion i’r Gymuned – rydym yn croesawu’r ymrwymiad i fuddion i’r gymuned. Mae’n glir y ceir cymhlethdodau o ran sicrhau bod cyfleusterau ysgolion ar gael i’r gymuned. Rydym yn cydnabod mai cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw hyn yn bennaf. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru a chynghorau ddylanwad sylweddol trwy’r ariannu a ddarperir trwy’r Rhaglen. Hoffem dderbyn sicrwydd bod Llywodraeth Cymru’n defnyddio’r dylanwad hwnnw i’r effaith fwyaf i sicrhau bod ysgolion a ariennir gan y rhaglen yn gwneud eu cyfleusterau’n agored i ddefnydd cymunedol lle bynnag y bo modd a’i fod yn ddichonadwy.***

Ym mis Awst, soniais ein bod wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried ffyrdd o oresgyn neu ddileu rhwystrau, i annog y gymuned ehangach i ddefnyddio asedau addysgol ac i ledaenu arfer gorau a chyllid.

Fel y nodwyd yn gynharach yn y papur hwn rydym yn mynd i ailosod nodau strategol y rhaglen fel bod yr ail don o fuddsoddi yn ceisio darparu cenhedlaeth newydd o ysgolion a cholegau sy’n ganolfannau dysgu ar gyfer eu cymunedau ehangach. Rydym hefyd yn dymuno i’r Rhaglen edrych ar ddarparu rhagor o hybiau ar gyfer gwasanaethau cymunedol, gan gynnig nid yn unig addysg, ond amrywiaeth

ehangach o weithgareddau i'r gymuned trwy gynllunio gwell a chyfuno cyllidebau seilwaith.

Ym mis Hydref roedd Datganiad Cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cynnwys £15 miliwn o gymorth cyfalaf i ariannu prosiectau arloesol a fydd yn helpu i ddangos yr hyn sy'n bwysig yn nhermau ysgolion yn dod yn hybiau ar gyfer gwasanaethau cymunedol. Estynnwyd gwahoddiad i wneud cais am yr arian hwn i awdurdodau lleol ar 30 Tachwedd.

Bwriadwn i'r prosiectau llwyddiannus gael eu symud yn eu blaen yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Dilynir hyn gan arweiniad ac astudiaethau achos i annog y gwaith o ledu arfer da a goresgyn rhwystrau sy'n atal y gymuned rhag defnyddio cyfleusterau addysgol.

***Teithio llesol – nid ydym yn argyhoeddedig y rhoddir ystyriaeth ddigonol i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Ymddengys bod eich llythyr diweddaraf yn cydnabod angen am lefel uwch o graffu a herio ynghylch hyn a hoffem ofyn am eglurhad o ran yr hyn y bydd hyn yn ei olygu yn ymarferol. Pe bai modd i Lywodraeth Cymru bwysleisio enghreifftiau penodol lle y mae cyfleoedd teithio llesol wedi'u cynyddu i'r eithaf yna byddai gennym ddiddordeb mewn dysgu amdanynt. Yn yr un modd, enghreifftiau o fynd i'r afael ag astudiaethau achos lle y rhoddir ystyriaeth wael i fynediad i deithio llesol.***

Ym mis Awst, soniais ein bod wedi diweddaru ein canllawiau ar achosion busnes er mwyn cynnwys negeseuon allweddol yn ymwneud â theithio llesol. Mae'r lefel uwch o graffu ar achosion busnes yn nhermau cydymffurfio â'r Ddeddf Teithio Llesol yn gweithio'n dda. Dros y misoedd diwethaf cafwyd nifer o enghreifftiau da lle nad oedd gofynion teithio llesol wedi'u manylu'n ddigonol mewn achosion busnes ar gyfer derbyn buddsoddiad a gofynnwyd i awdurdodau lleol am wybodaeth bellach ar sut y byddant yn galluogi disgyblion i deithio'n llesol i'r ysgol; pa lwybrau cerdded, beiciau a sgwteri sydd ar gael; ac ar ddarpariaeth cyfleusterau beicio, megis storio. Rydym yn ymwybodol o bryderon y Pwyllgor yn y maes hwn, a byddwn yn parhau i adolygu hyn yn ystod oes y Rhaglen.

## 3. Cynnydd yn erbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

Roedd y dystiolaeth a roddais i'r Pwyllgor ar 8 Mehefin 2018 yn cynnwys diweddariad ar y camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r argymhellion penodol yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Yr adeg honno, roedd tri o'r deg argymhelliad wedi'u cwblhau. Mae'r wybodaeth isod yn rhoi diweddariad ar yr argymhellion sy'n weddill.

**Argymhelliad Dau**

***Wrth symud ymlaen, mae Llywodraeth Cymru'n debygol o wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y Rhaglen ei hariannu a'i rheoli. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gwblhau'r trefniadau llywodraethu a ddiweddarwyd ar gyfer Band B y Rhaglen sy'n rhoi sylw perthnasol i:***

- ***Gymhlethdodau sy'n gwneud defnydd o ariannu refeniw, dysgu o brofiadau yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig; ac***
- ***Unrhyw newidiadau i gydbwysedd yr ariannu rhwng partneriaid.***

Cwblhawyd

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Band B wedi'u hadolygu a'u hadnewyddu wrth ochr ein partneriaid cyflenwi. Cytunwyd ar aelodaeth a Chylch Gorchwyl Bwrdd y Rhaglen a Phanel Buddsoddi diwygiedig ar gyfer y Rhaglen. Mae'r ddau gorff wedi cynnal cyfarfod. Mae aelodaeth o'r Grŵp Craffu Achosion Busnes hefyd wedi'i hadnewyddu i gynnwys CADW ac eraill.

Mae'r cydbwysedd ariannu ar gyfer cynlluniau a ariennir gan gyllid cyfalaf a refeniw wedi newid yn ddiweddar a chaiff ei adolygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gytbwys yn nhermau fforddiadwyedd ar draws pob partner.

**Argymhelliad Pedwar**

***Helpodd arolwg cyflwr cenedlaethol a gynhaliwyd yn 2010 i roi llinell sylfaen glir ar gyflwr ac addasrwydd ystâd yr ysgol er cafwyd ychydig o adrodd ar ddata na chynnydd y rhaglen yn genedlaethol yn gyhoeddus. Ers hynny, mae cynghorau wedi diweddaru eu data yn flynyddol. Hefyd cynhaliwyd arolwg sampl yn 2016 i asesu cysondeb data. Gan ystyried cyfran yr ysgolion y beirniadwyd eu bod wedi'u categoreiddio'n anghywir, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n:***

a. ***Dosbarthu arweiniad a ddiweddarwyd ar frys ar ddosbarthu ysgolion, gan nodi unrhyw faterion a gwallau cyffredin a adnabuwyd yn yr arolwg sampl;***
b. ***Rhoi gofyniad ar gynghorau i ddiweddaru eu hasesiad ar bob ysgol, yn seiliedig ar yr arweiniad a ddiweddarwyd.***
c. ***Cynnal arolwg arall ar sampl o ddata i wirio bod cynghorau'n cymhwyso'r categorïau'n gywir ac yn gyson; ac yn***

***ch. Adrodd ar gynnydd yn gyhoeddus i wella cyflwr ac addasrwydd ystâd yr ysgol wrth ochr cyflawni buddion ehangach.***

A, B a D wedi'u cwblhau, C yn cael ei adolygu
Dosbarthwyd canllawiau diwygiedig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod ein harolwg sampl i awdurdodau lleol a cholegau yn 2017. Daeth y canllawiau a'r fethodoleg yn orfodol yn 2018/19, sef y flwyddyn gyntaf y mae pob un o'n partneriaid wedi defnyddio'r dull diwygiedig ar gyfer eu harolwg cyflwr. Ar ôl i'r holl ddata gael ei dderbyn a'i ddadansoddi, ystyrir gweithredu pellach gan gynnwys a fyddai arolwg sampl yn angenrheidiol i brofi'r data.

I sicrhau lefel uwch o dryloywder wrth adrodd, rydym yn diweddaru'r wefan Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn barhaus i adrodd ar gynnydd y rhaglen parthed gwella ystâd yr ysgol a buddion ehangach y rhaglen. Ar ddiwedd Band A, byddwn yn cyhoeddi manylion am brosiectau a gwblhawyd ar ein gwefan i ddangos buddsoddi ledled Cymru. Rydym hefyd yn cynllunio ehangu ein portffolio prosiectau ar-lein i gynnwys ffotograffau o brosiectau a gwblhawyd yn ddiweddar.

**Argymhelliad Chwech**
***Nid yw rhai o adeiladau newydd yr ysgolion yn cyrraedd targedau effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chynghorau i:***

a. ***Gysylltu ag arbenigwyr diwydiant i ddeall y bwlch rhwng perfformiad effeithlonrwydd ynni disgwyliedig a'r hyn a gyflawnwyd a sut y gellid ei ddatrys a'i ostwng ym mhrosiectau'r dyfodol.***
b. ***Herio achosion busnes sy'n dibynnu ar arbedion sylweddol trwy dechnoleg effeithlonrwydd ynni yn yr asesiad cost oes gyfan yn gadarn; ac***
c. ***Annog ysgolion i asesu eu defnydd ynni pan gaiff yr adeilad ei feddiannu yn y lle cyntaf ac yna'n flynyddol i sicrhau eu bod yn elwa o'r arbedion disgwyliedig mewn costau ynni dro ar ôl tro.***

Cwblhawyd
Paratowyd Canllaw Arfer Gorau a chafodd ei gyflwyno i bartneriaid busnes yn ystod tri digwyddiad seminar a gynhaliwyd ym mis Mai 2017. Paratowyd y Canllaw gan Ragoriaeth Adeiladu Cymru mewn ymgynghoriaeth â'r diwydiant adeiladu. Mae ein Canllaw i Achosion Busnes wedi'i ddiwygio i gymryd i ystyriaeth y datblygiadau diweddaraf hyn a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2018.

Caiff pob achos busnes a dderbynnir ei graffu gan economegydd yn ystod y broses asesu i sicrhau y caiff gwerth am arian prosiectau ei herio'n gadarn gan gynnwys rhoi ystyriaeth i gostau oes gyfan ac adnabod gostyngiadau posib mewn costau o ganlyniad i'r gwaith adeiladu. Mae ein heconomegwyr wedi cynnal tri digwyddiad Hyfforddiant Achos Economaidd ar gyfer ein partneriaid busnes sydd wedi gwella eu dealltwriaeth o'r gofynion i achosion busnes ddangos gwerth am arian yn glir.

Datblygwyd adolygiad o adeiladau a ddefnyddir sy'n dal ystod o wybodaeth gan gynnwys lefelau disgwyliedig yr ynni a ddefnyddir mewn adeilad newydd neu adeilad a adnewyddwyd a'r defnydd go iawn ar ôl i'r adeilad gael ei ddefnyddio i sicrhau bod yr arbedion yn cael eu gwneud yn unol â'r disgwyliadau. Bydd defnyddio'r adolygiad yn sicrhau y caiff data llinell sylfaen ei gasglu cyn i'r prosiect gychwyn, gan gasglu data dilynol ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau ym mlwyddyn 1, 2 a 5 ar ôl iddo gael ei gwblhau.

**Argymhelliad Saith**

***Mae dadansoddiad o'r costau o brosiectau Band A a gwblhawyd yn dangos amrywiaeth sylweddol yng nghyfanswm y costau yn ogystal â chostau TGCh a gosodiadau a chyfarpar. Mae ysgolion newydd wedi mynd y tu hwnt i uchafswm safonau ardaloedd diwydiant gan 7-10%. Mae rhai prosiectau'n defnyddio dull o'r enw Modelu Gwybodaeth am Adeiladau yn ystod y cyfnodau dylunio ac adeiladu a dangosir bod hyn yn cynnig arbedion o ran amser a chostau yn ogystal â gwella ansawdd. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd eisoes i:***

a. ***Gyrraedd cytundeb gyda chynghorau, partneriaid eraill a chynrychiolwyr diwydiant ar yr opsiynau i gynnig lefelau uwch o safoni i'r prosiectau gan gynnwys ardal y llawr ac elfennau o'r gwaith adeiladu;***
b. ***Sicrhau gofyniad i ddefnyddio'r Modelu Gwybodaeth am Adeiladu mewn prosiectau sy'n rhan o'r rhaglen; a***
c. ***Rhoi arweiniad mwy manwl ynghylch lefel y TG a gosodiadau a chyfarpar y gellir ei ariannu trwy'r rhaglen i sicrhau cysondeb rhwng prosiectau.***

Cwblhawyd

Mae safonau costau a meintiau meincnodi ar gyfer gwaith adeiladu ac ar gyfer TG a gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd y Rhaglen a'r Panel Buddsoddi. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u profi yn ystod y broses craffu ar achosion busnes ar gyfer Band B.

Caiff Modelu Gwybodaeth am Adeiladau ei gymhwyso i'r Rhaglen ar ôl cytuno ar ddull Llywodraeth Cymru gyfan a'i gymeradwyo. Nid oes gennym ddyddiad eto ar gyfer hyn. Caiff cynnydd ar hyn ei fonitro gan Dîm y Rhaglen a'i adrodd i Fwrdd y Rhaglen.

**Argymhelliad Wyth**

***Ceir tystiolaeth nad yw'r fframweithiau caffael rhanbarthol yn gweithredu yn ôl y disgwyl gan brofi ychydig o ddyblygu a rhai cynghorau'n peidio â mabwysiadu arfer da ar gyfer dulliau caffael. Dylai Llywodraeth Cymru:***

a. ***Sicrhau bod cynghorau yn mabwysiadu arfer da a dderbynnir o ran y dull a ddefnyddir ar gyfer adeiladu gan gynnwys rhagdybiaeth o blaid dyluniad ac adeiladu (ac eithrio prosiectau a ariennir trwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol);***
b. ***Gwella dulliau cyfathrebu â diwydiant ar yr amseru a'r raddfa waith debygol o dan y fframweithiau;***
c. ***Deall a mynd i'r afael â'r rhesymau pam bod rhai cynghorau'n cynnal ymarferiadau cyn tendro er bod contractwyr eisoes wedi profi'r un broses i gael eu cynnwys ar y fframweithiau; ac***

***ch. Ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorau a'r diwydiant adeiladu wrth ddatblygu a chwblhau'r fframwaith caffael yn sgil y newidiadau ar gyfer Band B.***

Cwblhawyd

Yn ogystal â'r diweddariad a roddwyd ym mis Mehefin ar 8a ac 8c, caiff fframweithiau caffael eu hadolygu a'u hail-dendro yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn

unol ag arfer da. Mae gan bob Fframwaith awdurdod lleol ‘arweiniol’ sy’n gyfrifol am reoli’r broses hon ynghyd â chyfathrebu â’r diwydiant. Mae aelodau’r Fframwaith yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion ac i rannu arfer da.

Caiff prosesau caffael a gwerth am arian eu profi gan gydweithwyr Gwerth Cymru yn ystod pob cyfnod o’r broses craffu ar achosion busnes. Trwy ymgysylltu diweddar ymddengys bod nifer o resymau pam bod rhai awdurdodau’n dymuno cynnal ymarferiadau cyn tendro. Mae’n digwydd yn fwyaf cyffredin pan fo sypynnu cynlluniau’n ddymunol. Mae’r ymarferiad hwn yn sicrhau nad oes unrhyw heriau caffael pe dilynir y llwybr hwn.

Cynhaliwyd digwyddiadau diwrnod y farchnad a chynadleddau gyda’r diwydiant adeiladu ac eraill i’w paratoi ar gyfer Band B a MIM. Yn ddiweddarach, mynychodd 130 o gynrychiolwyr ddiwrnod gwybodaeth a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd i glywed am Raglen Addysg MIM. Ymhlith y mynychwyr roedd contractwyr, arianwyr a chynghorwyr o’r sector preifat yn ogystal â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a cholegau.

Bydd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a’r diwydiant adeiladu, yn parhau drwy gydol y broses o gyflawni Band B.

**Argymhelliad Naw**

***Erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu’n fwy clir nag yn y gorffennol pa fuddion y mae’n dymuno eu cyflawni trwy’r rhaglen. Mae wedi sefydlu set o dargedau arwahanol ar gyfer y gadwyn gyflenwi leol, prentisiaethau a hyfforddiant ac ymgysylltu STEM gydag ysgolion.***

***Mae hefyd yn glir mai blaenoriaeth yn y dyfodol fydd cynyddu defnydd y gymuned o adeiladau ysgolion. I gynyddu’r buddion ehangach o ganlyniad i fuddsoddi yn y rhaglen dylai Llywodraeth Cymru:***

- ***a. Sicrhau bod ei thargedau ar gyfer prosiectau’n parhau’n heriol dros amser;***
- ***b. Hyrwyddo arfer da o ran cyflawni buddion cymunedol, er enghraifft trwy ddiweddaru gwefan Ysgolion ar Gyfer yr 21ain Ganrif yn gyson, rhwydweithiau rhanbarthol a digwyddiadau diwydiant; ac***
- ***c. Adolygu sut gellid mynd i’r afael â’r rhwystrau a adnabuwyd rhag cynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion yn ystod Band B y rhaglen.***

Cwblhawyd

Caiff buddion a thargedau’r rhaglen eu hadolygu’n rheolaidd gan Fwrdd y Rhaglen a Phanel Buddsoddi’r Rhaglen wrth ochr cydweithwyr polisi megis Gwerth Cymru. Cynhaliwyd tri seminar Buddion Cymunedol gyda phartneriaid yn ystod yr haf 2018. Mae astudiaethau achos arfer da wedi’u comisiynu er mwyn rhannu’r rhain ar y wefan.

Caiff y rhaglen ei hail-lansio gyda phartneriaid cyn hir gan roi pwyslais penodol ar ddefnydd ehangach gan y gymuned. Mae’n debygol y caiff y Rhaglen ei hail-enwi fel

y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif gan gynnwys yr is-bennawd 'Ardaloedd Cymunedol er mwyn Dysgu'.

Caiff targedau buddion i'r gymuned a defnydd o asedau gan y gymuned eu profi gan gydweithwyr polisi yn ystod y broses craffu ar achosion busnes. Caiff targedau buddion i'r gymuned eu cynnwys yn ein llythyron dyfarnu grantiau. Ni chaiff ernes ariannu ei thalu os nad yw targedau'n cael eu cyrraedd. Yn ogystal rydym yn gweithio gyda meysydd portffolio eraill i adeiladu defnydd ehangach o asedau ysgolion gan y gymuned i'r telerau ariannu ar gyfer prosiectau.

**<u>Argymhelliad Deg</u>**

***Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer cymorth technegol i'r rhaglen. Mae wedi cryfhau capasiti ei thîm ei hun trwy recriwtio arbenigwyr ym maes cyllid cyhoeddus-preifat. Mae hefyd yn sefydlu contractau fframwaith i roi cymorth technegol i gynghorau. Gan ystyried y newidiadau technegol i'r rhaglen o dan Fand B dylai Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd 2018, gynnal adolygiad llawn ynghylch a yw'r trefniadau'n gweithio i:***

- ***a. Ddarparu'r arbenigedd technegol i Lywodraeth Cymru y mae ei angen arni i reoli ac i oruchwylio'r rhaglen; a***
- ***b. Darparu'r cymorth technegol i gynghorau y mae ei angen arnynt i gynllunio ac i gyflenwi'r rhaglen yn lleol.***

<u>Cwblhawyd</u>

Cytunwyd ar adnoddau ar gyfer arbenigedd technegol mewnol gan y Gweinidog ac eir ati i recriwtio Tîm Rhaglen *MIM* estynedig. Bydd y tîm yn rhoi cymorth uniongyrchol i bartneriaid cyflenwi. Bydd y tîm hefyd yn gweithio gyda phartneriaid posib eraill, megis Comisiwn Dylunio Cymru, i sicrhau bod cyngor a chymorth arbenigol ar gael yn ôl yr angen.

Caiff capasiti a gwead y tîm ei adolygu'n rheolaidd gan Fwrdd y Rhaglen a Phanel Buddsoddi'r Rhaglen i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion bob un sy'n rhan o'r Rhaglen.

## Atodiad A

| Cynnydd ym Mand A yn ôl awdurdod lleol – Chwefror 2019 | Nifer y prosiectau | Achos Busnes llawn wedi'i dderbyn | Achos Cyfiawnhau Busnes wedi'i dderbyn | Wedi'i gymeradwyo gan FBC/BJC | Yn cael ei adeiladu | Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 9 | 5 | 4 | 9 | 1 | 7 |
| Blaenau Gwent | 4 | 2 | 2 | 4 | 1 | 3 |
| Bro Morgannwg | 8 | 1 | 7 | 8 | | 8 |
| Caerdydd | 24 | 10 | 14 | 24 | 1 | 23 |
| Caerffili | 6 | 3 | 2 | 6 | 1 | 3 |
| Casnewydd | 6 | 2 | 4 | 6 | 2 | 4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 | 6 | | 6 | | 6 |
| Ceredigion | 4 | 2 | 2 | 4 | 2 | 2 |
| Conwy | 4 | 1 | 3 | 4 | 1 | 3 |
| Gwynedd | 7 | 5 | 2 | 7 | 1 | 6 |
| Merthyr Tudful | 2 | 2 | | 2 | | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 4 | 2 | 6 | | 6 |
| Powys | 7 | 4 | 2 | 6 | 3 | 2 |
| Rhondda Cynon Taf | 11 | 11 | | 11 | 1 | 10 |
| Sir Benfro | 10 | 7 | 2 | 9 | 2 | 8 |
| Sir Ddinbych | 8 | 5 | 3 | 8 | 1 | 5 |
| Sir Fôn | 4 | 3 | | 3 | 1 | 2 |
| Sir Fynwy | 3 | 2 | 1 | 3 | | 3 |
| Sir Gaerfyrddin | 15 | 7 | 7 | 13 | 2 | 9 |
| Sir y Fflint | 4 | 4 | | 4 | 1 | 3 |
| Torfaen | 9 | 6 | 3 | 9 | 2 | 7 |
| Wrecsam | 9 | 3 | 6 | 9 | 2 | 6 |
| Addysg Bellach | 9 | 5 | 4 | 9 | 3 | 6 |
| | **175** | **100** | **70** | **170** | **27** | **134** |

Eitem 2.2

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol • Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

01 Mawrth 2019

Annwyl Mr Ramsay,

**Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS – Y DIWEDDARAF AR ADDASIADAU I DAI, CHWEFROR 2019**

Rwy'n falch iawn i gael rhoi gwybod yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt gwaith rhoi eich argymhellion ar waith a oedd i fod wedi'i rhoi ar waith erbyn diwedd Rhagfyr 2018. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn anfon yr wybodaeth ddiweddaraf hon atoch a oedd i fod wedi'i hanfon atoch erbyn diwedd mis Ionawr.

Gwnaeth y Pwyllgor chwe argymhelliad. Un argymhelliad oedd i gyflawni'r gwaith erbyn mis Rhagfyr 2018. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhelliad hwn wedi'i hatodi.

Roedd tri argymhelliad yn ymwneud â chyflawni gwaith erbyn mis Gorffennaf 2019 a dau arall ynghylch cyflawni gwaith erbyn mis Rhagfyr 2019. Byddaf yn rhoi gwybod y diweddaraf ichi ynghylch argymhellion Gorffennaf a Rhagfyr ar adegau priodol.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan • website: www.cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 1** - *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r data perfformiad y mae wedi'u casglu fel rhan o adolygiad HWYLUSO erbyn Tachwedd 2018. Wrth gyhoeddi'r wybodaeth hon, dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw ddiffygion yng nghylch cyntaf yr wybodaeth ar berfformiad y mae'n ei chasglu – er enghraifft, sefydliadau nad ydynt wedi darparu ffurflenni blynyddol – a sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â bylchau hynny.*

**Y diweddaraf –** Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gyflawni. Cafodd Adolygiad HWYLUSO o'r data ei gyhoeddi ar 29 Tachwedd, ac roedd hwnnw wedi rhoi sylw i nifer o feysydd lle y gellir gwella'r gwaith casglu data. Roedd hefyd wedi nodi nifer o wersi a ddysgwyd sy'n cael eu hadlewyrchu yn y templed electronig a'r canllawiau newydd sydd wedi'u hanfon at ddarparwyr gwasanaethau.

Mae dolen at y cyhoeddiad i'w gweld isod:

https://gov.wales/docs/desh/publications/181129-enable-analysis-report-en.pdf

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Nick Ramsay AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

5 Mawrth 2019

Annwyl Mr Ramsay,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Chwefror yn gofyn am eglurhad ynghylch ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am gostau a gwerth am arian y gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.

Rwy'n ymateb ar ran ein Swyddog Cyfrifyddu, Andrew Goodall, y Cyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe fyddaf yn rhoi sylw i bob un o'ch pwyntiau yn eu tro.

**Argymhelliad 1**
Ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gychwyn ym mis Ebrill 2016, mae'r data yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal wedi newid. Er mwyn sicrhau bod y data a gesglir gennym ar gyfer plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn gynhwysfawr, yn addas i'r diben ac yn gadarn, datblygwyd y Fframwaith Perfformiad a Gwelliant ar gyfer Plant gydag awdurdodau lleol a phartneriaid, i'w gyflwyno o fis Ebrill 2020.

Bydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar ddata a gweithgarwch gwasanaethau plant awdurdodau lleol. Mae cwmpas y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant yn llawer ehangach; yn cynnwys yr ystod lawn o bortffolios polisi, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus, sy'n effeithio ar fywydau plant sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r dangosyddion perfformiad a ddatblygwyd gan y Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn ceisio nodi gweithgarwch a gwelliannau i'r canlyniadau ar draws y meysydd ychwanegol hyn, fel addysg, iechyd a thai, er mwyn helpu i ddarparu set ddata ehangach o'r canlyniadau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.

Ystyriwyd barn pobl ifanc wrth ffurfio'r ddau ddull gweithredu hwn. Roedd swyddfa'r Comisiynydd Plant yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith. Roedd nifer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynrychioli llais y plentyn, fel Voices from Care, Plant yng Nghymru, y Rhwydwaith Maethu a'r NSPCC yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r dangosyddion perfformiad fel aelodau o Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

**Argymhelliad 2**
Fel y noda'r Pwyllgor, bydd trefniadau newydd y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn dod i rym o fis Ebrill eleni ymlaen. Roedd y gwerthusiad annibynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn canolbwyntio ar ein trefniadau presennol, ac fe ddefnyddiwyd y canfyddiadau wrth ddatblygu'r dull gweithredu newydd. Fel sy'n wir am bob elfen o'r Grant Datblygu Disgyblion, mae systemau yn eu lle i fonitro'r ffordd y mae'r Grant hwn yn cael ei





Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Department for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

weithredu. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd bob hanner tymor rhwng swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg, Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru a'r arweinwyr perthnasol yn y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol. Bydd y cyfarfodydd hyn yn rhan o'r gwaith parhaus i fonitro gweithrediad trefniadau newydd y Grant.

**Argymhelliad 3**
Ers ein hymateb i'r Pwyllgor, mae fy nhîm wedi bod yn ystyried beth yw'r ffordd orau o roi cyhoeddusrwydd i waith y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant a Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor. Fel y dywedwyd yn flaenorol, fe fyddwn yn diweddaru'r wybodaeth ar ein tudalennau ar wefan Llywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at aelodaeth a gweithrediad y rhaglen. Er mwyn sicrhau digon o dryloywder ac atebolrwydd o ran cyfarfodydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog, fe fyddwn yn ymrwymo i gyhoeddi crynodebau o gyfarfodydd yn y dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ers ein hymateb, rydym yn teimlo bod llawer mwy o wybodaeth y gellid ei chynnwys am y rhaglen er mwyn ysgogi a llunio arferion da o ran gwaith cymdeithasol ar draws gwasanaethau plant. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cytuno i ddatblygu porth dysgu a datblygu penodol ar ei wefan er mwyn tynnu sylw at weithgarwch y rhaglen a'r arfer da sydd wedi ymddangos er mwyn helpu i lunio datblygiad proffesiynol parhaus y rhai sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi bod mewn gofal.

**Argymhelliad 4**
Bydd y gwaith o ddatblygu dull cenedlaethol o gomisiynu yn cael ei oruchwylio gan weithgor prosiect o rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ofal Preswyl i Blant. Bydd costau'r lleoliadau a'r cysylltiad â chanlyniadau yn cael eu cynnwys yn y comisiynu hwn. Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn i'w weld isod mewn ymateb i Argymhelliad 6.

**Argymhelliad 5**
Mae'n bwysig pwysleisio unwaith eto, pan fo plentyn yn cael ei symud neu leoliad yn methu, dylid cychwyn ar adolygiad o gynllun gofal a chymorth y plentyn fel mater o drefn. Yn dilyn y dystiolaeth a ddaeth i law, mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cadarnhau y bydd yn ystyried yn benodol effeithiolrwydd ac amlder adolygiadau diwedd lleoliad mewn archwiliadau yn y dyfodol. Mae gan AGC raglen dreigl o archwiliadau yn ei lle gydag awdurdodau lleol lle gellir profi'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor. Bydd unrhyw newidiadau i Ran 6 o'r Cod Ymarfer yn digwydd fel rhan o waith ehangach i ddiwygio'r Cod, yn arbennig yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Department for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Argymhelliad 6**
Credwn fod ein hamserlen ar gyfer datblygu dull cenedlaethol o gomisiynu lleoliadau yn uchelgeisiol ac yn realistig. Fe fyddwn yn sefydlu gweithgor prosiect ym mis Mawrth i'n helpu i lunio manyleb a chomisiynu astudiaeth gwmpasu. Bydd Rhan 1 (Medi - Rhagfyr 2019) yn casglu tystiolaeth am batrymau lleoliadau o fewn awdurdodau lleol, pwysau o ran y lleoliadau sydd ar gael a'r costau, yr elfennau sy'n achosi costau uchel y lleoliadau a gwerth am arian, ac effaith penderfyniadau comisiynu ar ganlyniadau i blant. Bydd Rhan 2 (Ionawr - Mawrth 2020) yn defnyddio canlyniadau'r gwaith ymchwil i lunio argymhellion ar gyfer dull cenedlaethol o gomisiynu. Bydd yn ystyried y trefniadau amrywiol sydd yn eu lle ar hyn o bryd, a chyfraniad gwirioneddol a phosib amrywiol bartneriaid gan gynnwys y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Bydd yr amserlen ar gyfer rhoi'r dull gweithredu newydd ar waith yn dibynnu ar argymhellion yr astudiaeth gwmpasu, i ba raddau y mae'r dull gweithredu newydd yn defnyddio systemau presennol neu'n datblygu rhai newydd, ac a yw'n briodol mabwysiadu dull gweithredu graddol neu anelu am ddyddiad pendant i'w roi ar waith. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl dechrau ei roi ar waith yn 2020-21.

**Argymhelliad 7**
Er nad oes modd gweld yn glir beth yn union yw'r gwariant ar draws yr holl amrywiol wasanaethau sy'n gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal drwy olrhain cyllid a neilltuwyd drwy'r Grant Cynnal Refeniw, rydym wedi ymrwymo i edrych ar gostau lleoliadau. Fe fyddwn yn edrych i weld a oes modd comisiynu ymchwil ar draws y sector cyhoeddus, i edrych ar gostau iechyd, tai ac addysg. Er mwyn i'r canfyddiadau fod yn berthnasol ar gyfer y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal, byddai angen i unrhyw ymchwil gael sampl mawr yn sgil natur unigolyddol gofal a chymorth. Byddai hefyd angen ystyried y ffaith bod byrddau iechyd yn darparu gwasanaethau yn ôl angen yn hytrach nag yn ôl grwpiau o'r boblogaeth, felly nid ydynt yn dadgyfuno gwariant yn benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Argymhelliad 8**
Bydd y trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso'r dull cenedlaethol o gomisiynu lleoliadau yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r dull newydd.

**Argymhelliad 9**
Gallaf sicrhau'r Pwyllgor ein bod ni wedi ymrwymo i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwario'r £5m a neilltuwyd yn unol â'r bwriad gwreiddiol. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi dweud yn glir mai bwriad y dyraniad rheolaidd o £5m yw darparu gwasanaethau ar ffiniau gofal gan awdurdodau lleol i gefnogi teuluoedd agored i niwed, a helpu i leihau'r angen i blant gael eu cymryd i ofal. Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant yn parhau i ddarparu goruchwyliaeth yn y maes hwn. Er mwyn

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

**Albert Heaney**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio**
**Director of Social Services and Integration**
**Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Department for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

darparu sicrwydd ychwanegol, byddaf yn ysgrifennu at awdurdodau lleol yn gofyn iddynt roi cyfrif am y cyllid ym mlwyddyn ariannol 2018/19.

**Argymhelliad 10**
Rwy'n falch eich bod yn croesawu'r £15m ychwanegol sydd wedi'i neilltuo i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn helpu i leihau'r angen i blant gael eu cymryd i ofal. Fe fyddwn wrth gwrs yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r buddsoddiad hwn ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y bwriedir eu helpu.

Yn gywir

**ALBERT HEANEY**
**CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC INTEGREIDDIO**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 0300 025 6377
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

14 March 2019

Dear Chair

**PINEWOOD STUDIOS**

Following my attendance at Public Accounts Committee on 5 November, I wrote to you on 22 November to provide costs incurred to date for maintaining the Grade II listed property on the site – Penpil farmhouse. I also confirmed that a full assessment of the property would be carried out to gauge costs and timescales of works for the proposed renovation of the building, and that I would share the outcome of the assessment with the PAC.

Consultants were appointed and undertook a survey of the property in December to advise on the current condition and on the costs of renovating the property. The cost of fully refurbishing the property was estimated to be in the region of £550,000-£600,000 excluding VAT.

The surveyor's report included the following details on the current condition of the property. The property was first listed in 1975 as a good example of a small Glamorganshire farmhouse mainly retaining historic fabric. Documented historic features included a timber partition, angled principle rafters and broach stop beams all consistent with construction dating back to the 1700s. The survey provided evidence that the property was subject to renovation works during the 1980s or 90s which included replacement of the roof, doors, windows and cross beams, together with removal of the timber partition. There was a subsequent fire during the 2000s which damaged a significant part of the property, including to the floors and a significant part of the roof.

A combination of the earlier renovation works and the subsequent fire has been responsible for the extensive loss of much of the historic fabric which formed the original basis of listing. In light of the findings of the surveyor's report, Cadw were asked to consider the current status of the property. Cadw considered the surveyor's report and additional photographic evidence.

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ


Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Their assessment is that the building retains limited historic fabric which formed the basis of the original decision to list. They have also considered the fact that, although Penpil was previously a good example of a small Glamorganshire farmhouse, the property's historic features were by no means unique and there are other surviving examples which better demonstrate the historic regional building traditions. This has led to a conclusion that the building no longer meets the criteria for listing and Cadw commenced the consultation process on the matter of delisting the property on 8 March. The consultation period runs for a period of 28 days.

Once the consultation has concluded, Welsh Government will make a final decision on the future of the property. I have asked Jason Thomas, Director Culture, Sport and Tourism, to write to you once the outcome is known.

Yours sincerely



**ANDREW SLADE**
Director General
Economy, Skills and Natural Resources

**Public Accounts Committee**

**PAC(5)-09-19 PTN5 25 March 2019**

**Management of follow up outpatients across Wales**


**Additional Information from Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB)**

During the evidence session held on 11 March, ABUHB agreed to confirm the length of time the teledermatological system had been operational and have stated that telederm scheme was introduced in April 2013.

ABUHB 15.03.19

# Strategaeth Pobl
# Llyfrgell Genedlaethol Cymru





Tachwedd 2018

## 1.1 Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth Bobl a Chynllun Datblygu'r Gweithlu wedi'u datblygu i gefnogi cenhadaeth ac amcanion strategol y Llyfrgell fel y nodwyd yng Nghynllun Strategol presennol y Llyfrgell (2017-2021). Mae'r Cynllun Strategol yn datgan yn glir y ffordd y mae'r Llyfrgell yn gwerthfawrogi ac yn trin y gweithlu, a'r diwylliant y mae am feithrin i alluogi pawb i gyflawni a chynnal rhagoriaeth ym mhob maes gweithgaredd. Mae'r Strategaeth hon yn cefnogi amcanion allweddol y Llyfrgell o sicrhau bod hanes a diwylliant Cymru yn cael eu diogelu er mwyn addysg a mwynhad y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, ac yn parhau i ddarparu cyfoeth o wybodaeth am y byd mawr o'n cwmpas. Mae'n ceisio sicrhau bod y Llyfrgell yn gyflogwr o ddewis, yn meddu ar ddiwylliant, polisïau a gweithdrefnau sy'n gosod disgwyliadau uchel, ac yn darparu amgylchedd ysgogol a gwerth chweil i'w bobl a lle y gallent fyw eu bywyd gwaith yn y naill neu'r llall o ieithoedd swyddogol Cymru.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod y Llyfrgell yn wynebu cyfnod heriol a nodweddir gan lefelau staff sydd wedi gostwng o 30% dros y 5 mlynedd ddiwethaf oherwydd y lefel gostyngol o arian a dderbynnir oddi wrth y llywodraeth. Mae hyn wedi golygu colled ddifrifol o arbenigedd a phrofiad wrth i aelodau unigol o staff ymddeol neu symud i gyflogaeth arall. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth hon yn darparu fframwaith sy'n canolbwyntio ar unigolion i arwain y dewisiadau y bydd y Llyfrgell a'i staff yn wynebu wrth iddynt geisio llywio cwrs llwyddiannus drwy dirlun anwadal.



Ein Gweledigaeth

Denu, galluogi a chynnwys ein pobl, a meithrin arweinyddiaeth ysbrydoledig i wireddu ein hamcanion



Ein Cenhadaeth

Darparu gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid sydd wedi'i alinio gyda'n themâu strategol sy'n rhoi gwerth ar ein pobl a'u galluogi i wireddu eu potensial llawn

# 1.2 Strategaeth Pobl – Ein 10 Nod

1. Ymrwymiad i sicrhau llwyddiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru drwy gyflawni gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel ar gyfer pobl Cymru.

2. Sefydlu'r Llyfrgell i fod yn gyflogwr model, gan osod esiampl i eraill i'w dilyn.

3. Denu a chadw'r bobl gorau drwy gynnig amgylchedd gwaith lle y mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel ased mwyaf y Llyfrgell.

4. Recriwtio pobl gan ddefnyddio dulliau trwyadl, teg a phroffesiynol.

5. Darparu hyfforddiant sefydlu a chefnogaeth gyrfa er mwyn rhoi'r dechrau gorau posib i bawb.

6. Datblygu sgiliau personol a phroffesiynol a gwybodaeth pobl drwy gydol eu gyrfaoedd er mwyn eu helpu i gyflawni eu potensial llawn yn amgylchedd y Llyfrgell.

7. Gwobrwyo pobl mewn ffordd deg o fewn fframweithiau cydnabyddiaeth ariannol dryloyw ac addas, ac aros yn gystadleuol pan fydd lefelau cyllid yn caniatáu hynny.

8. Ymwreiddio diwylliant cefnogol sydd yn gynhwysol, cadarnhaol a theg, sydd yn sicrhau bod cyfleoedd yn agored i bawb, lle y rheolir newid, lle y gall pobl arwain, a chael eu harwain, mewn modd effeithiol.

9. Darparu amgylchedd sydd yn gwerthfawrogi amrywiaeth, ac sydd wir yn cynnig cyfleoedd cyfartal.

10. Darparu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a lles yn weithredol, ac yn gwneud pobl i deimlo eu bod yn perthyn.

## Cyd-destun Strategol

Mae'r Llyfrgell am anelu at ddenu, recriwtio a chadw'r staff mwyaf abl ar draws holl feysydd ein gwaith. 'Rydym hefyd am geisio i sicrhau mynediad parhaol at gasgliadau a chanolbwyntio ar ddatblygu ystorfa ddigidol y gellir ymddiried ynddi.

Bydd ein gwasanaethau a digwyddiadau yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl Cymru ei angen gennym, ac yn sicrhau bod y Llyfrgell yn gwneud cyfraniad positif i lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Oherwydd hynny, bydd ein gwaith yn ychwanegu gwerth at amcanion a deilliannau cyffredin.

## 1.3 Cefnogi Strategaethau, Polisïau a Phrosesau

O dan ambarél trosfwaol y Strategaeth Bobl mae Cynllun Datblygu'r Gweithlu a luniwyd yn dilyn yr archwiliad sgiliau, yn diffinio'r amcanion datblygu staff. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cynnwys Strategaeth Sgiliau Partneriaeth Cymru Hanesyddol.




Mae'r cynllun gwerthuso blynyddol yn cynnig ffordd ffurfiol o adnabod anghenion datblygu personol, ac wedi'i gysylltu'n agos â'n System JEGS (Gwerthuso Swyddi a Graddio Cefnogaeth) sy'n darparu fframwaith a gytunwyd arni i werthuso swyddi. Mae'r Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywedd ynghyd ag ystod o bolisïau eraill megis Galluogrwydd a Pherfformiad, Iechyd a Diogelwch, y Côd Ymddygiad, Urddas yr Unigolyn, Rheoli Straen a'r Strategaeth Cyfathrebu Mewnol yn sicrhau cynwysoldeb ac yn darparu gweithleoedd priodol ac arferion teg a hygyrch sy'n cael eu hadolygu'n gyson gan y Tîm Gweithredol, yr Uned Adnoddau Dynol a'r Undebau.

Mae'r Strategaeth Bobl hefyd yn cael ei chefnogi gan y Strategaeth Ystadau sy'n ymrwymo'r Llyfrgell i ddarparu ar gyfer y staff amgylchedd diogel a chyfforddus lle y gallant ffynnu ynddi.



## 1.4 Y Gwaith a Wnaethpwyd Hyd yn Hyn



Yn 2018, aeth Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell ati, fel rhan o'r Strategaeth Bobl gyfannol, i gomisiynu Cynllun Datblygu'r Gweithlu cyntaf y Llyfrgell. Cydnabuwyd y byddai'n cymryd amser i gyflawni'r Cynllun, gyda nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys datblygu Strategaeth Cynllunio Olyniaeth ac archwiliad sgiliau cynhwysfawr yn cael eu cychwyn. Yn ychwanegol i hyn mae'r Llyfrgell yn chwarae rôl ragweithiol o fewn ffrwd waith y bartneriaeth Cymru Hanesyddol sydd wedi datblygu'r '*Strategaeth Sgiliau ar gyfer Sefydliadau Treftadaeth Cenedlaethol yng Nghymru, 2019 - 24*'. Bydd y gwaith hwn o fudd nid yn unig i'r Llyfrgell ond i'r sector cyfan ledled Cymru. Bydd Partneriaeth Cymru Hanesyddol hefyd yn comisiynu datblygiad Strategaeth Gynllunio Olyniaeth ar draws y sector yn ystod 2019-2020.

## 1.5 Nodau

Y pedair nod benodol sydd wedi eu hadnabod a fydd yn fframwaith i Gynllun Datblygu'r Gweithlu ac a fydd yn ein galluogi i ffocysu ein gweithgareddau er mwyn medru cyrraedd ein hamcanion strategol.

| | |
|---|---|
| Nod 1 | Denu, Penodi a Chadw Staff |
| Nod 2 | Cyfleoedd Datblygu |
| Nod 3 | Strwythur Cyflog |
| Nod 4 | Gwerthoedd Wedi'u Hymwreiddio yn Ymddygiadau Corfforaethol |

## 1.6 Y Camau Nesaf

I gyflawni'n nodau, yn y lle cyntaf byddwn yn adolygu'n polisïau a'n gweithdrefnau gweithio. Byddwn yn archwilio ffyrdd newydd o weithio, ac yn cynyddu'n defnydd o feincnodi ac ymchwilio arferion gorau yn y sector a thu hwnt drwy ddefnyddio dull o weithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. 'Rydym eisoes yn rhannu'n arferion gorau a chynlluniau gyda'n partneriaid strategol yn Cymru Hanesyddol ac ymysg aelodau Penaethiaid Adnoddau Dynol Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, grŵp y mae ein Pennaeth Adnoddau Dynol yn aelod ohono, ac a gadeirir gan ein Cyfarwyddwr a Dirprwy Prif Weithredwr a Llyfrgellydd.

Byddwn yn diogelu a datblygu'r sgiliau arbenigol a neilltuol hynny sydd wedi'u caffael drwy hyfforddiant, profiad a chynllunio olyniaeth lwyddiannus, a sefydlu rhaglen sgiliau effeithiol, gan gynnwys sgiliau proffesiynol arbenigol, gwasanaethau i gwsmeriaid, gwasanaethau cadwraeth a chadwedigaeth a datblygiadau digido. Byddwn hefyd yn darparu cymorth ymarferol i'n staff i'w hannog nhw i berchnogi eu datblygiad proffesiynol hwy eu hunain.

Bydd adolygiad o'n systemau rheoli gwybodaeth AD yn allweddol os am wella cyflenwi gwasanaethau, effeithlonrwydd ein prosesau gweinyddu a'n gallu i adrodd yn ôl.

Bydd llwyddiant y Strategaeth yn dibynnu ar gyfathrebu effeithiol gyda'r staff ynghylch materion AD. Bydd rhannu gwybodaeth rheoli gywir ac amserol drwy gyfarfodydd Grŵp Cyflawni'r Llyfrgell, y weithdrefn friffio graidd fisol, bwletin newyddion cyson y Prif Weithredwr a chyfarfodydd staff bob chwarter yn hysbysu'r staff o unrhyw ddatblygiadau perthnasol sy'n effeithio ar y gweithlu. Mae cynnal deialog parhaol gyda'r undebau llafur yn elfen hanfodol o lunio'r cynlluniau gweithredu er mwyn cyflawni deilliannau credadwy. Wrth ddarparu gwasanaeth proffesiynol i gefnogi'r Strategaeth, bydd y Tîm Gweithredol, gyda chefnogaeth yr Uned Adnoddau Dynol, yn mabwysiadu model o welliant parhaus i sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei sefydlu a'i gynnal.



PAC(5)-09-19 PTN7

# Cynllun Datblygu'r Gweithlu

# Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Tachwedd 2018

# 1.1 Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu hwn yn ffurfio rhan o Strategaeth Pobl gyfannol ac yn gosod y cyfeiriad strategol o ran datblygu'r gweithlu yn y cyfnod 2018 i 2021. Mae'r Cynllun wedi'i datblygu er mwyn cefnogi cenhadaeth a Chynllun Strategol y Llyfrgell, ac yn datgan y ffordd y mae'n gwerthfawrogi ac yn trin ei bobl er mwyn meithrin rhagoriaeth ymhob maes cyfrifoldeb a chyflenwi gwasanaeth yn y Llyfrgell.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn wynebu cynnydd yn y galw am ei wasanaethau, wrth weithio mewn amgylchedd sy'n gyfyngedig o ran capasiti a dylid pwysleisio y byddwn yn gweithredu'r cynllun hwn yn ôl yr adnoddau sydd ar gael i ni allu gwneud hynny. Mae angen sicrhau ein Hymddiriedolwyr – ynghyd â Llywodraeth Cymru – bod triongliant effeithiol rhwng yr elfennau allweddol o'n cynllunio busnes – y gweithlu, gweithgaredd a chyllid digonol – a'n bod yn derbyn yr adnoddau i gwrdd â thargedau perfformiad y Llyfrgell ac amcanion ein Siartr Frenhinol hyd gorau ein gallu.

Mae'r Strategaeth Pobl yn cael ei llywio gan Amcanion Strategol cyfredol y Llyfrgell: gweithredu fel ceidwaid ardderchog o'n casgliadau, cyfrannu at les cenedlaethau'r dyfodol, sicrhau mynediad hirdymor i gasgliadau cenedlaethol, bod yn ganolog o ran bywyd diwylliannol cenedlaethol a sicrhau cydnerthedd ar gyfer yr hirdymor. Mae'n anelu at sicrhau bod y Llyfrgell yn gyflogwr o ddewis, yn meddu ar ddiwylliant, polisïau a gweithdrefnau sy'n gosod disgwyliadau uchel o gyflog cystadleuol wrth ddarparu amgylchedd ysgogol a chynhwysol i'w bobl ac yn cynnal ei enw da fel mudiad diwylliannol cenedlaethol pwysig.

Mae'r Strategaeth Pobl yn cydnabod bod y Llyfrgell yn wynebu cyfnod heriol a nodweddir gan lefel gostyngol o staff, lefel sydd wedi gostwng o 30% dros y 5 mlynedd ddiwethaf oherwydd y cwtogi ar yr arian a dderbynnir oddi wrth y Llywodraeth. Mae hyn wedi golygu colled ddifrifol o arbenigedd a phrofiad wrth i aelodau unigol o staff ymddeol a gadael ein cyflogaeth. Mae'r Strategaeth ynghyd â'r cynllun hwn yn darparu fframwaith sy'n canolbwyntio ar unigolion i arwain y dewisiadau y bydd y Llyfrgell a'i staff yn wynebu wrth iddynt geisio llywio cwrs llwyddiannus drwy dirlun anwadal wrth ddatblygu gweithlu cadarn.

Mae'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu'n rhestru'r gweithgaredd penodol sydd angen eu gweithredu i ffocysu gweithgaredd AD ar gyrraedd pob nod. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn bydd yr Uned AD, gyda chefnogaeth y Tîm Gweithredol ac mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur, yn ceisio darparu gwasanaeth AD modern, a pharhau i gynnig cefnogaeth, canllawiau a hyfforddiant amserol i arweinyddion, rheolwyr a staff ar draws y Llyfrgell. Bydd Cynllun Gwaith yr Uned Adnoddau Dynol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell ac i'n Cyfarfod Monitro Chwarterol gyda MALD. Bydd diweddariadau cynnydd cyson yn cael ei cyflwyno hefyd.

Tudalen y pecyn 33

## 1.2 Gweithlu'r Llyfrgell – Cynnwys a Throsolwg

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2014/15 roedd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wrthi'n ystyried strategaeth ariannol y Llyfrgell ar gyfer y 3 blynedd nesaf pan ddaeth i'r casgliad anorfod y byddai'n rhaid i'r sefydliad gwtogi ar nifer ei gyflogai mewn ymgais i fynd i'r afael â'r gostyngiad sylweddol yn y Cymorth Grant. Roedd aelodau'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol y gallai methu torri gwariant arwain at ansolfedd y sefydliad. Roedd y Tîm Gweithredol, mewn ymgynghoriad â'r Undebau, eisoes wedi cyflwyno nifer o fesurau lleihau costau; er enghraifft nid oedd nifer o swyddi, gan gynnwys swyddi rheoli uwch, wedi eu llanw wedi iddynt ddod yn wag.

Ym mis Medi 2014 lansiwyd rhaglen ailstrwythuro gorfforaethol, nid yn unig i ymateb i'r gostyngiad yn y Cymorth Grant ond hefyd i ymateb i anghenion cynyddol ein defnyddwyr, defnyddwyr potensial a'n rhanddeiliaid. Roedd yr achos dros newid, a'i gyfeiriad wedi'i drafod mewn nifer o gyfarfodydd y Bwrdd. Roedd cyfnod cyntaf y trawsnewid yn cynnwys rhaglen o ail-strwythuro a ddechreuwyd yn Hydref 2014, tra roedd yr ail gyfnod yn canolbwyntio ar bobl, prosesau, prosiectau a gofod. Y gobaith oedd y byddai'r newid mewn patrymau gwaith a diwylliant sefydliadol a oedd yn dilyn y newidiadau hyn yn galluogi'r Llyfrgell i symud tuag at fod yn sefydliad gwir allblyg a deinamig, yn canolbwyntio ar y cwsmer, ac yn sefydliad sy'n meddu ar egwyddorion craidd megis gweithredu, cyflenwi a chael effaith. Tra byddai strwythurau diwygiedig a'r defnydd o dechnolegau cyfathrebu yn gwella gwasanaeth y Llyfrgell, sylweddolwyd y byddai'n bosibl gwella lefel y gwasanaethau dim ond drwy gyfuniad o sgiliau, ysgogiad ac ymrwymiad proffesiynol staff y Llyfrgell. Byddai buddsoddi yn y staff yn ffurfio elfen allweddol o'r trawsnewid.

Cytunwyd y byddai'r rhaglen ail-strwythuro yn arwain at ostyngiad yn niferoedd y staff, yn bennaf drwy ddileu swyddi'n wirfoddol, ymddeoliad ac ad-leoliad. Yn anffodus, ond yn anorfod, byddai rhaid i nifer o rolau ddod i ben. Tra byddai'r gostyngiadau hyn yn niferoedd y staff yn galluogi'r Llyfrgell i gwrdd â'i heriau ariannol presennol, roedd y Bwrdd yn dal yn ymwybodol bod angen sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau'r unigolion a oedd yn gadael gwasanaeth y Llyfrgell yn cael eu trosglwyddo i'w holynwyr. Er mwyn sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu trosglwyddo, cytunwyd bod y Llyfrgell yn datblygu Cynllun Pobl a Chynllun Datblygu'r Gweithlu.

Er ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn ein gweithlu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae dal gan y sefydliad weithlu ymroddgar a thalentog, ac mae canran uchel o'r staff yn meddu ar sgiliau a chymwyseddau prin ac unigryw. Dylai'r Llyfrgell wneud ei gorau i sicrhau na cholli'r rhagor o sgiliau ac i ddiogelu'r sgiliau a chymwyseddau hyn at y dyfodol drwy fuddsoddi yn ei gweithlu ac, wrth wneud hynny, geisio adennill y rhai a gollwyd eisoes trwy ddatblygu'r gweithlu presennol. Mae datblygu Strategaeth Pobl a Chynllun Datblygu'r Gweithlu yn un ffordd o wneud hyn. Serch hynny, bydd lefel llwyddiant gweithredu'r cynllun hwn

yn dibynnu ar y Cymorth Grant y mae'r Llyfrgell yn derbyn oddi wrth Llywodraeth Cymru.


## Rheolwyr a'r Undebau Llafur

Mae'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu hwn wedi'i ddatblygu gan y Tîm Gweithredol, mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur, ar ran Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell. Mae'r Rheolwyr a'r Undebau yn gytûn taw'r ffordd orau y gall y ddwy ochr fynd ati i wireddu nodau ac amcanion y Llyfrgell yw drwy gydweithio a chydweithredu, gyda'r nod o gyflenwi gweledigaeth a rennir am ddyfodol y Llyfrgell.



## 1.3 Ein Pedwar Blaenoriaeth Uchaf ac Amcanion Strategol

Tudalen y pecyn 35




Denu, recriwtio a chadw'r pobl gorau

Darparu cyfleoedd i ddatblygu

Archwilio cynaliadwyedd y strwythur cyflog a'r termau ac amodau presennol

Bod ein gwerthoedd yn cael ei adlewyrchu yn ein hymddygiad corfforaethol

# 1.4 Cynllun Datblygu a'r Gweithlu 2017–2020: Cynllun Gweithredu

| Deilliant | Gyrrwr Cynradd | Gyrrwr Eilaidd |
|---|---|---|
| Nod Craidd:<br><br>Erbyn 2020 gwneud y gorau o botensial ein pobl er mwyn galluogi'n sefydliad i ddarparu cefnogaeth i gyflawni'n gweledigaeth a'n blaenoriaethau strategol | 1. Denu, recriwtio a chadw'r pobl gorau | Gweler Gyrrwr Eilaidd 1<br>1.5.1 – Strategaeth glir i gefnogi denu, recriwtio a chadw |
| | 2. Darparu cyfleoedd i ddatblygu | Gweler Gyrrwr Eilaidd 2<br>1.5.2 – Datblygu pob aelod staff gan wneud y gorau o'u sgiliau er mwyn mwynhau eu cyfraniad o ran cyflawni'r deilliannau bwriadedig |
| | 3. Archwilio cynaliadwyedd y strwythur cyflog presennol a thermau ac amodau | Gweler Gyrrwr Eilaidd 3<br>1.5.3 – Sicrhau bod y sgiliau, gwybodaeth a'r arbenigedd yn cael ei cydnabod drwy gynnig chyflog teg a chystadleuol |
| | 4. Bod ein gwerthoedd yn cael ei adlewyrchu yn ein hymddygiad corfforaethol | Gweler Gyrrwr Eilaidd 4<br>1.5.4 – Bod gwerthoedd y sefydliad yn adlewyrchu'n gwaith a'r holl wasanaethau a ddarperir gennym |

Tudalen y pecyn 36

# 1.5 Gyrwyr Eilaidd 1 – 4

**(Allwedd: TG (Tîm Gweithredol) / GC (Grŵp Cyflawni)/ Rh. AD (Rheolwr AD))**

| Gyrwyr Eilaidd | Yr hyn fyddwn yn gwneud | Amserlen Blwyddyn 1/2/3 | Canlyniadau a fwriedir | Mesurau | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gyrrwr 1: Denu, recriwtio a chadw'r bobl gorau √** | | | | | |
| 1.5.1 Strategaeth glir i gefnogi denu, recriwtio a chadw. | • Bydd adolygiad o'r Polisi a'r Proses Recriwtio a Dethol yn:<br>- Myfyrio ar y polisi cyfredol o recriwtio yn fewnol yn y lle cyntaf<br>- Cynnwys methodoleg glir i fesur gwerthoedd ac ymddygiad yr ymgeiswyr<br>- Sicrhau bod pwyslais ar gynhwysedd<br>- Adlewyrchu'r angen i ddenu ac ystyried y gronfa ehangaf posibl o ymgeiswyr.<br>• Datblygu a gweithredu dull o recriwtio sy'n ymgorffori ffocws ar werthoedd.<br>• Hyfforddi rheolwyr yn y broses recriwtio ddiwygiedig | Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 1 | • Strategaeth Recriwtio a fydd yn denu'r gronfa ehangaf posibl o ymgeiswyr sydd yn meddu ar gymwysterau priodol<br>• Denu dewis ehangach o ymgeiswyr sydd yn debycach o ddod ar draws hysbysebion swydd ar y cyfryngau cymdeithasol yn hytrach nag mewn ffyrdd mwy traddodiadol o gyfathrebu<br>• Bydd y broses recriwtio a dethol yn cynnwys dulliau wedi eu hymwreiddio o werthoedd ac ymddygiadau'r ymgeiswyr. | • Proses recriwtio ddiwygiedig<br>• Swyddi yn cael eu llenwi'n llwyddiannus gydag ymgeiswyr sydd yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas, a hynny o fewn ffrâm amser priodol<br>• Cynnydd yn nifer y rheolwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y broses ddiwygiedig | TG, GC a Rh. AD |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau eraill i hysbysebu swyddi ac i ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd gwahanol | Blwyddyn 1 | | | |
| | | | | | |
| **Gyrrwr 2: Datblygu cyfleoedd i ddatblygu** √ | | | | | |
| 1.5.2 Datblygu pob aelod staff gan wneud y gorau o'u sgiliau er mwyn mwyhau eu cyfraniad o ran cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. | • Ymgysylltu a chynnwys yr holl staff yn y broses o ddatblygu systemau a phrosesau i'w cefnogi i ddatblygu a gwneud y gorau o'u potensial<br>• Gwella'r dulliau o asesu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad sydd eisoes yn bodoli, ac adnabod anghenion dysgu a datblygu i wneud y gorau o botensial<br>•Adnabod ardaloedd lle o bosib mae angen sgiliau newydd yn y dyfodol a chynnig yr hyfforddiant hwnnw yn ôl yr angen<br>• Sicrhau bod ein staff yn cael cyfleoedd i dyfu'n bersonol ac yn broffesiynol drwy ddysgu a | Blwyddyn 1 – 3<br><br>Blwyddyn 1 – 3<br><br>Blwyddyn 1 - 3<br><br>Blwyddyn 1 – 3 | •Bod gan y staff ei hunan ymwybyddiaeth o'u gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau cyfredol, ac o unrhyw fylchau sydd angen eu llenwi i wneud y gorau o'u potensial yn eu gwaith presennol<br>• Bod gan y staff ymwybyddiaeth o'u gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau cyfredol, a'r ffordd y gall y rhain fod yn berthnasol i rolau eraill yn y Llyfrgell<br>• Bod y staff wedi adnabod y meysydd i'w datblygu yn eu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau er mwyn cefnogi'r camau nesaf<br>• Mae'r rheolwyr yn ymwybodol | • Lefelau ymgysylltu'r staff mewn digwyddiadau/ymgynghori<br>• Bod y trefniadau i asesu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad yn cael eu cytuno mewn partneriaeth gyda'r Undebau Llafur.<br>• Dealltwriaeth glir o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad ar draws y Llyfrgell .<br>• Defnyddio gwybodaeth i lunio cynlluniau datblygu personol<br>• Mwy o drafod ynghylch gyrfaoedd fel rhan o'r broses Adolygu Perfformiad Personol neu weithdrefnau eraill<br>• Rhaglen gadarn yn ei lle i | **TG, GC & Rh. AD** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | datblygiad gweithredol<br>• Drafftio a chytuno ar Gynllun Dysgu a Datblygu gyda phartneriaid strategol Cymru Hanesyddol<br>• Ymchwilio i'r potensial i ddatblygu fframwaith ar y cyd ar gyfer dadansoddi sgiliau strategol gyda phartneriaid strategol Cymru Hanesyddol<br>• Meithrin strategaeth ddatblygu broffesiynol gydlynus sy'n cynnwys arweiniad clir ynghylch natur, maint ac effaith y CPD blynyddol a argymhellir ar gyfer y rolau amrywiol yn y Llyfrgell<br>• Ar y cyd gyda phartneriaid strategol Cymru Hanesyddol, comisiynu Adolygiad Sector o'r cymwysterau proffesiynol cyfredol a'r System Gymwysterau ar gyfer treftadaeth yng Nghymru<br>• Peilota cynllun cyfeillio, mentora, hyfforddi a chysgodi mewn rolau/meysydd dethol o waith gyda chefnogaeth Academi Cymru, darparwyr allanol a rheolwyr cyfredol | Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 1 – 2 | o unrhyw anghenion datblygu ei staff a fydd yn eu cynnal yn eu rolau presennol ac yn eu camau nesaf arfaethedig<br>• Bod mwy o gydbwysedd cymesur rhwng perfformiad cyfredol a nodau datblygu yn ansawdd y sgyrsiau a gynhelir rhwng y rheolwyr a chyflogai<br>• Rheolwyr i ennill cymhwyster ILM | ddatblygu staff ar bob lefel. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu modiwlau Cymraeg yn y Gweithle pwrpasol i'r staff. | Blwyddyn 1 - 3 | | | |
| **Gyrwyr Eilaidd** | **Yr hyn fyddwn yn gwneud** | **Amserlen Blwyddyn 1/2/3** | **Canlyniadau a fwriedir** | **Mesurau** | **Cyfrifoldebau** |
| **Gyrrwr 3: Archwilio cynaliadwyedd y strwythur cyflog presennol a thelerau ac amodau √** | | | | | |
| 1.5.3 Sicrhau bod y sgiliau, gwybodaeth a'r arbenigedd yn cael ei chydnabod drwy gynnig cyflog teg a chystadleuol | • Cynnal sylfaen sefydlog ynghylch ein grant o Lywodraeth Cymru er mwyn cynnig cyflog cystadleuol i'n staff, cyflog a feincnodwyd yn erbyn sefydliadau tebyg a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru ei hun<br>• Parhau i gydweithio gyda phartneriaid strategol Cymru Hanesyddol i eirioli dros well gyflogau yn y sector er mwyn alinio gyda sectorau eraill, ac annog Gweinidogion i ddatblygu canllawiau cenedlaethol a meincnodi cyflogau ar draws y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a Llywodraeth Cymru<br>• Cynnal data meincnodi | Blwyddyn 1 – 3<br><br>Blwyddyn 1 – 3 | • Cynnig cyflog cystadleuol i'n staff<br>• Gwell cyfraddau denu, recriwtio a chadw staff<br>• Codi morâl a chyfraddau cynhyrchiant y staff | • Adroddiadau arolwg staff<br>• Ystadegau denu, recriwtio a chadw staff<br>• Arweinyddion, rheolwyr a'r Undebau yn cofnodi lefelau uwch o foddhad a morâl | TG a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cyfredol, a dynnwyd o'r sector ac oddi wrth sefydliadau tebyg ar draws y DG, er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol<br>• Adolygu'r ddarpariaeth bensiwn a'r ddarpariaeth ehangach er mwyn darparu buddion sydd wir yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl | Blwyddyn 1 – 3<br><br>Blwyddyn 1 - 3 | | | |
| **Gyrrwr 4: Bod ein gwerthoedd yn cael eu hymwreiddio yn ein hymddygiad corfforaethol √** | | | | | |
| 1.5.4 Bod gwerthoedd y sefydliad yn cael eu hadlewyrchu yn ein gwaith a'r holl wasanaethau a ddarperir gennym | • Cytuno ar werthoedd y sefydliad mewn ymgynghoriad a'r Undebau Llafur | Blwyddyn 1 | • Gall pobl ar draws y Llyfrgell ymgysylltu â, a bod yn gefnogol o'n gwerthoedd<br>• Mae ein cyflogeion yn ymgysylltu â, yn arddangos ac yn profi'n gwerthoedd ni | • Adborth ynghylch ymgysylltiad y rhanddeiliad<br>• Ymgysylltiad y tîm/ y Gyfarwyddiaeth wrth adolygu gwerthoedd ac ymddygiadau | TG, GC a Rh. AD |
| 1.5.5 Bod ymddygiadau sefydliadol yn alinio â'n gwerthoedd ni | •Meithrin ymddygiadau sy'n arddangos ein gwerthoedd ac yn adlewyrchu'n gwaith ar draws ein holl wasanaethau<br>•Codi ymwybyddiaeth a rhannu storïau ac esiamplau o'n gwerthoedd ar waith trwy drafod mewn cyfarfodydd tîm / briffio tîm a rhannu ymarferion da. | Blwyddyn 1 – 3<br><br>Blwyddyn 1 - 3 | • Timoedd yn cymryd yr amser i fyfyrio gyda'i gilydd er mwyn rhannu profiadau ac i ddysgu a gwella yn barhaus | • Cyfweld staff, arolygon staff yn dangos y lefelau o ymgysylltu gan staff (e.e. y ffordd y maent yn cael eu trin)<br>• Datblygu ac ehangu ar yr hanesion sy'n darlunio'r ffordd y mae unigolion a thimoedd yn mynegi'n gwerthoedd | TG, GC a Rh. AD |
| 1.5.6 Arweinyddion a rheolwyr tosturiol, cynhwysol ac effeithiol | • Datblygu gwybodaeth am, ac ymarfer, ymddygiad arwain tosturiol, cynhwysol ac | Blwyddyn 1 -3 | **Arweinyddion a Rheolwyr ar bob lefel:**<br>• Arddangos/modelu ymddygiad | • Cyfweliad ac Arolwg Staff ac adroddiadau boddhad PDR<br>• Hanesion | TG, GC a Rh. AD |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ar bob lefel | effeithiol ar bob lefel<br>• Cefnogi arweinyddion ar bob lefel i adeiladu ymddygiadau arwain tosturiol (e.e. Gwrando gydag empathi, canolbwyntio ar adeiladu perthynas effeithiol ac ymddiriedaeth, ffordd o feddwl sy'n ennyn gwelliant, ymwybyddiaeth o straen a ffyrdd o leihau straen, ffyrdd o adeiladu llawenydd yn y gweithle)<br>• Cynyddu dealltwriaeth ymhlith yr holl staff o bwysigrwydd adeiladu perthynas ac ymddiriedaeth<br>• Cefnogi arweinyddion a rheolwyr ar bob lefel i adeiladu sgiliau mewn methodoleg adborth, sgyrsiau hyfforddi a gwelliant<br>• Cefnogi arweinyddion a rheolwyr ar bob lefel i fod yn hyderus wrth iddynt herio ymddygiad anfoesol, ymosodol neu fygythiol | Blwyddyn 1 – 2<br>Blwyddyn 1 – 2<br>Blwyddyn 1 – 2<br>Blwyddyn 1 - 3 | a yrrir gan werthoedd cyson yn eu ffordd o weithio<br>• Deall sut i adeiladu a chynnal ymddiriedaeth yn eu perthynas waith<br>• Herio ymddygiadau nad ydynt yn cefnogi arweinyddiaeth dosturiol, gynhwysol ac effeithiol<br>• Staff yn talu sylw ac yn cynnal perthynas gadarnhaol<br>• Herio ymddygiad anfoesol, ymosodol neu fygythiol gan unrhyw aelod o staff beth bynnag ei lefel. | • Mynychu cyrsiau/ digwyddiadau perthnasol | |
| 1.5.7 Diwylliant meddwl agored lle mae staff yn cael eu gwerthfawrogi, lle y gwrandewir arnynt | • Lle mae'n bosibl sicrhau bod staff yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ar bob lefel.<br>• Gwrando ac ystyried barn y | Blwyddyn 1 - 3 | **Staff ar bob lefel:**<br>• Yn hyderus i ddweud eu barn a chyflwyno syniadau ar gyfer datrys problemau gwaith. | • Lefelau ymgynghori efo'r staff ar bob lefel i sicrhau bod gwneud penderfyniadau yn cael mewnbwn ar bob lefel. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| a'u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau | staff, a gwerthfawrogi hynny.<br>• Cefnogi staff wrth gyflwyno datrysiadau i broblemau gwaith.<br>• Cefnogi staff ar bob lefel i fod yn hyderus wrth iddynt herio ymddygiad anfoesol, ymosodol neu fygythiol. | | •Datrysiadau i faterion gwaith yn cael mewnbwn yr holl staff pa bynnag eu lefel.<br>•Staff yn perchnogi penderfyniadau a wneir am y gwaith<br>• Herio ymddygiad anfoesol, ymosodol neu fygythiol gan unrhyw aelod o staff pa bynnag ei lefel. | • Nifer y penderfyniadau a ddylanwadir gan staff cyffredin | |
| 1.5.8 Diwylliant dysgu sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus | • Hyrwyddo ac annog ymarfer myfyriol<br>• Hyrwyddo cyfleoedd dysgu mewn ystod o fformatau, gan drosglwyddo'r dysgu i waith ymarferol<br>• Cefnogi pobl i adeiladu'r sgiliau, gwybodaeth a'r ymddygiadau a fydd yn gwella cydnerthedd a hyblygrwydd mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym<br>• Cefnogi rheolwyr wrth iddynt annog a grymuso pobl i ddod o hyd i'r amser i ddysgu, myfyrio a rhannu<br>• Hyrwyddo diwylliant lle y mae'r staff yn gallu cymryd y cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain | Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 1 – 2<br><br>Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 1 - 3 | • Staff yn cymryd yr amser i ddysgu a myfyrio<br>• Mae'r staff yn rhannu eu gwybodaeth a dysg<br>• Mae'r staff yn cael mynediad at ystod eang o adnoddau dysgu a datblygiad<br>• Mae'r staff yn cymryd cyfrifoldeb rhagweithiol am eu dysgu<br>• Mae'r staff yn gydnerth ac yn gallu wynebu newid<br>• Rheolwyr yn annog a grymuso eraill i gymryd yr amser i ddysgu, myfyrio a rhannu<br>• Y staff yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain<br>• Mae'r staff yn ymwneud â gwella'n barhaus y ffordd y | • Rhannu storiâu dysgu trwy fyfyrio a rhannu profiadau<br>• Gosod ystod o rwydweithiau, grwpiau ac adnoddau yn eu lle i hyrwyddo rhannu dysgu ar draws y sefydliad<br>• Nifer o bobl sy'n ymwneud â rhwydweithiau / gweithgareddau traws-sefydliadol i rannu gwybodaeth a syniadau<br>• Niferoedd o staff yn ymgysylltu â chyfleoedd dysgu newydd<br>• Adborth oddi wrth y staff ynghylch y cyfleoedd dysgu<br>• Cyfleoedd a rhaglenni dysgu yn ei lle ac ar gael i staff ar bob lefel. | TG, GC a Rh. AD |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Cefnogi ffordd o feddwl sy'n canolbwyntio ar welliant ar draws y sefydliad<br>• Cefnogi datblygiad rhwydweithiau rhannu gwybodaeth/ dysgu/ arloesi ar draws y sefydliad | Blwyddyn 1 – 3<br><br>Blwyddyn 1 - 3 | byddwn yn gwneud pethau | | |

Tudalen y pecyn 44

Tudalen y pecyn 45

## 1.6 Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae gan y Llyfrgell Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Mewnol a fydd o gymorth wrth inni weithredu'r Strategaeth Pobl a'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu. Mae'r Tîm Gweithredol, mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur, wedi mabwysiadu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Mewnol newydd yn 2017. Mae'r Strategaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan ein Grŵp Cyflawni a chomisiynir arolygon boddhad yn ôl y galw. Mae hefyd yn cael ei harolygu'n gyson â chynrychiolwyr yr Undebau Llafur yng nghyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth.

## 1.7 Gweithdrefnau Adolygu ac Adrodd yn ôl

Bydd y Strategaeth Pobl a'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu yn cael eu hadolygu ym mis Tachwedd 2019 er mwyn diweddaru Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Llywodraeth Cymru ar y cynnydd ar ddechrau 2020.

Cynhelir adolygiad canol-blwyddyn ym Mehefin 2019 o'r cynnydd a fu yn cyflenwi'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu, a bydd y canlyniadau yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym Medi 2019.

Bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Rheolwr Adnoddau Dynol yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Tîm Gweithredol. Bydd gwaith yn cael ei wneud i adnabod y wybodaeth angenrheidiol ac i ddatblygu mecanweithiau adrodd yn ôl i gwrdd â'r gofynion hynny.

Byddwn yn ystyried a oes angen risg corfforaethol neu beidio i gipio unrhyw feysydd a allai effeithio'n sylweddol ar y Llyfrgell os nad ydym yn gwireddu'r cynllun hwn.

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ionawr 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Ian Hughes, Emma Woodcock, Anwen Worthy ac Deryck Evans o dan gyfarwyddyd Anthony Barrett.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Cynnwys 3

Adroddiad Cryno 4

Prif Ganfyddiadau 5

1 Ni allem benderfynu a oedd trefniadau archwilio mewnol yn eu lle ar gyfer tua un o bob deg cyngor yn ein sampl 6

2 Nid oes gan un o bob pum cyngor yn ein sampl archwilydd mewnol sy'n ddigon annibynnol 11

3 Mae gan dwy ran o dair o gynghorau yn ein sampl gylch gorchwyl annigonol â'u harchwilydd mewnol 13

4 Roedd casgliadau'r archwiliad mewnol yn anghywir yn un o bob tri chyngor a samplwyd 15

5 Mae yna anghysondebau yn y broses adrodd ar archwilio mewnol yn flynyddol 19

6 Nid oedd y rhan fwyaf o'r cynghorau yn ein sampl yn nodi'n ffurfiol sut maent yn mynd i'r afael ag argymhellion ynghylch archwilio mewnol 22

7 Roedd traean o'r archwilwyr mewnol y cyfwelwyd â hwy yn teimlo y byddai profion ychwanegol ac arweiniad ynglŷn â chodi ffioedd yn fuddiol 24

Atodiadau 28

Atodiad 1 – Ein Dulliau Gweithredu wrth Archwilio 28

Atodiad 2 – Llinell amser ar gyfer Ceisiadau am Wybodaeth yn ystod yr Astudiaeth 32

Atodiad 3 – Arfer Da – Cylch Gorchwyl 33

Atodiad 4 – Arfer Da – Rhaglen Waith 36

Atodiad 5 – Adrfer Da – Cynllun Gweithredu 40

Atodiad 6 – Arfer Da – Adroddiad Archwilio 41

# Adroddiad Cryno

## Am beth mae’r adolygiad hwn yn sôn

1 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gynghorau tref a chymuned gynnal trefniadau digonol ac effeithiol o archwilio mewnol o’u cofnodion cyfrifyddu a’u system o reoli mewnol.

2 Yn y 10 mlynedd diwethaf, cafwyd sawl achos o gynghorau cymuned yn achosi colled i’r pwrs cyhoeddus oherwydd methiannau sylweddol o ran rheolaeth ariannol a llywodraethiant. Mewn rhai achosion, twyll a lladrad oedd yn gyfrifol am hyn. Er bod y symiau dan sylw yn fach o’u cymharu â chyfanswm gwariant cyhoeddus yng Nghymru, maent yn sylweddol i’r cymunedau unigol dan sylw a gellid fod wedi’u hosgoi pe byddai trefniadau archwilio mewnol effeithiol yn eu lle.

3 Yn y rhan fwyaf o’r achosion hyn, mae’r archwilwyr allanol wedi canfod problemau gyda chwmpas a digonolrwydd y gwaith a wnaed gan archwiliad mewnol. Mae archwilwyr allanol yn aml yn nodi bod archwilwyr mewnol yn cael eu penodi gan glerc y cyngor heb fawr o fewnbwn, arolygiaeth neu gysylltiad o’r cyngor ei hun. Mewn nifer fach o achosion a gofnodwyd, mae hyn wedi arwain at glercod yn ffugio bodolaeth archwiliad mewnol.

4 Yn ei adroddiad ar gyfrifon 2015-16 Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru, cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at y casgliadau anghyson a dynnwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol mewn perthynas â materion penodol fel pennu cyllidebau.

5 Mae trefniadau archwilio statudol yr Archwilydd Cyffredinol yn seiliedig ar sicrwydd cyfyngedig sy’n gymesur i faint y sector. Mae’r archwiliad sicrwydd cyfyngedig yn mynd i’r afael â dyletswyddau’r Archwilydd Cyffredinol drwy dair elfen allweddol:

- prawf cydymffurfio yn erbyn gofynion y datganiad blynyddol;
- lefel uchel o adolygiad dadansoddol o’r wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a ddarperir i’r archwilydd; a
- adolygiad o’r datganiad llywodraethu blynyddol deuran a ddarperir gan y corff a’r adroddiad ategol gan ei archwilydd mewnol.

6 Fodd bynnag, wrth bennu’r trefniadau hyn, tybir bod gan gynghorau drefniadau archwilio mewnol digonol ac effeithiol yn eu lle. Mae yna risg i enw da gweithdrefn yr Archwilydd Cyffredinol os gwelir bod problemau sylweddol fel twyll, yn ogystal â pheri i’r cyhoedd golli hyder yn y cynghorau dan sylw.

7 Mae Atodiad 1 yn nodi ein dulliau gweithredu wrth archwilio.

## Prif Ganfyddiadau

8 Mae'r negeseuon yn yr astudiaeth hon yn gyson gyda nifer cynyddol yr achosion o lywodraethiant gwael a welwyd mewn cynghorau cymuned, sydd wedi ysgogi nifer o adroddiadau er budd y cyhoedd argymhellion statudol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae **Rheolaeth Ariannol a Llywodraethiant yng Nghynghorau Tref a Chymuned 2017-18** wedi darparu manylion pellach am yr adroddiadau er budd y cyhoedd a'r argymhellion statudol a gyhoeddwyd yn ystod 2018.

9 Mae ein prif ganfyddiadau, yn seiliedig ar sampl o 113 o 735 cyngor tref a chymuned Cymru, fel a ganlyn:

- ni allem benderfynu a oedd trefniadau archwilio mewnol yn eu lle ar gyfer tua un o bob deg cyngor yn ein sampl;
- nid oes gan un o bob pum cyngor yn ein sampl archwilydd mewnol sy'n ddigon annibynnol;
- mae gan ddwy ran o dair o gynghorau yn ein sampl gylch gorchwyl annigynol â'u harchwilydd mewnol;
- roedd casgliadau'r archwiliad mewnol yn anghywir yn un o bob tri chyngor a samplwyd;
- mae yna anghysondebau yn y broses adrodd ar archwilio mewnol yn flynyddol;
- nid oedd y rhan fwyaf o'r cynghorau yn ein sampl yn nodi'n ffurfiol sut maent yn mynd i'r afael ag argymhellion ynghylch archwilio mewnol; a
- roedd traean o'r archwilwyr mewnol y cyfwelwyd â hwy yn teimlo y byddai profion ychwanegol ac arweiniad ynglŷn â chodi ffioedd yn fuddiol.


10 Fel y nodwyd yn **Rheolaeth Ariannol a Llywodraethiant yng Nghynghorau Tref a Chymuned 2017-18**, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu'r trefniadau archwilio ar gyfer y sector yn ystod 2019-20. Bydd yr adroddiad hwn ar archwilio mewnol yn darparu tystiolaeth i'r adolygiad hwnnw.

# Rhan 1 – Ni allem benderfynu a oedd trefniadau archwilio mewnol yn eu lle ar gyfer tua un o bob deg cyngor yn ein sampl

1.1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pennu trefniadau archwilio statudol sy'n gymesur i faint y sector. Fodd bynnag, wrth bennu'r trefniadau hyn, tybir bod gan holl gynghorau drefniadau archwilio mewnol digonol ac effeithiol yn eu lle.

1.2 Wrth gynnal yr adolygiad, bu inni gysylltu â 113 o 735 cyngor cymuned Cymru gan ofyn iddynt ddarparu manylion cyswllt eu harchwilydd mewnol. Ymatebodd clerc Cyngor Cymuned Draethen, Waterloo a Rhydri ar unwaith gan nodi nad oedd gan y Cyngor archwilydd mewnol. Dyma'r unig gyngor yn ein sampl heb archwilydd mewnol. Mae Arddangosyn 1 yn egluro sefyllfa'r cyngor yn fanylach.

Arddangosyn 1: lleoliad Cyngor Draethen, Waterloo a Rhydri a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y clerc



**Cyngor Cymuned Draethen, Waterloo a Rhydri**

Cysylltodd y clerc â ni wedi iddo dderbyn ein llythyr cychwynnol yn gofyn am dystiolaeth i'r astudiaeth.

Esboniodd y clerc bod y cyngor wedi profi nifer o broblemau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn cynnwys trosiant uchel ymhlith clercod, ymddiswyddiad cynghorwyr a diffyg cworwm mewn nifer o gyfarfodydd.

Nid oedd gan y cyngor archwilydd mewnol ar gyfer 2017-18, na chyllideb ychwaith, ac roedd wedi dwyn praesept y flwyddyn flaenorol ymlaen.

Ffynhonnell: Ymateb a ddarparwyd i holiadur Swyddfa Archwilio Cymru gan Glerc Cyngor Draethen, Waterloo a Rhydri


1.3 O’r 112 cyngor arall a samplwyd, nid oeddem yn gallu cysylltu â deg o’r archwilwyr mewnol. Gellir rhannu’r deg achos o ddiffyg cyswllt fel a ganlyn:

- ni ymatebodd pump chyngor yn ein sampl i’n hastudiaeth, ac ni roddwyd manylion cyswllt eu harchwilwyr mewnol i ni;
- darparodd dri chyngor ymateb i’r astudiaeth, gan gynnwys manylion cyswllt eu harchwilwyr mewnol, yn ystod y broses glirio allanol yn Rhagfyr 2018;
- ni ddarparodd un cyngor fanylion cyswllt digonol ar gyfer eu harchwilydd mewnol; a
- ni ymatebodd un archwilydd mewnol i’n cais am dystiolaeth.

1.4 Ni allem felly gael sicrwydd bod gan y cynghorau hyn unrhyw drefniadau archwilio mewnol yn eu lle.

1.5 Mae Arddangosyn 2 yn dangos cynghorau yn ein sampl nad oedd modd cysylltu â’u harchwilydd mewnol.

Arddangosyn 2: y cynghorau yn ein sampl na allem benderfynu a oedd trefniadau archwilio mewnol yn eu lle




Ffynhonnell: Ymatebion a ddarparwyd i Swyddfa Archwilio Cymru

1.6 Mae Astudiaeth Achos 1 yn darparu manylion pellach sy’n tanlinellu’r anawsterau a wynebwyd gan y tîm archwilio.

**Astudiaeth Achos 1: Cyngor Cymuned Pontfadlen – manylion cyswllt cyfyngedig ar gyfer yr archwilydd mewnol**

Nid oedd archwilydd mewnol arferol y cyngor ar gael ar gyfer 2017-18, felly defnyddiodd y cyngor archwilydd mewnol newydd. Canfuwyd yr archwilydd newydd ar fyr rybudd ond roedd yn meddu ar gymwysterau ariannol. Rhoddwyd manylion cyswllt yr archwilydd i ni; enw a rhif ffôn symudol.

Ar ôl ceisio cysylltu â’r archwilydd sawl tro, gan gynnwys gadael negeseuon, bu inni ofyn i’r clerc am fanylion cyswllt pellach (gan gynnwys cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost). Fodd bynnag, nid yw’r clerc wedi gallu eu darparu, ac nid yw’r archwilydd mewnol wedi ymateb i’n negeseuon.



Ffynhonnell: Ymateb i holiadur Swyddfa Archwilio Cymru

1.7 Mae methiant cynghorau ac archwilwyr mewnol i ymateb (gweler Arddangosyn 2) yn arbennig o siomedig ac yn mynd yn groes i hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 52 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae’r Ddeddf hon yn nodi bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu archwilwyr yn gweithio ar ei ran, hawl mynediad at bob dogfen sy’n berthnasol i gorff sy’n destun archwiliad. Mae’r ddeddfwriaeth hon yn gymwys i gynghorau tref a chymuned, clercod ac archwilwyr mewnol.

1.8 O ystyried diffyg sicrwydd yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch trefniadau archwilio mewnol y cynghorau a ddangosir yn Arddangosyn 2, bydd yn ystyried y cynghorau hynny’n gyrff risg uchel o 2018-19 ymlaen.

1.9 Roedd hefyd achosion lle methodd cynghorau ac archwilwyr mewnol yn ein sampl ddarparu’r wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani. Mae’r rhain wedi’u rhestru yn Arddangosyn 3 isod. Mae’r amserlen ar gyfer cysylltu â’r cynghorau a’r archwilwyr mewnol a oedd yn rhan o’r sampl i’w gweld yn Atodiad 2.

Arddangosyn 3: cynghorau ac archwilwyr mewnol sydd wedi cyflwyno gwybodaeth anghyflawn ar gyfer archwilio.

| Cynghorau sydd heb ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani |
|---|
| • Cyngor Cymuned Coedpoeth<br>• Cyngor Cymuned Maentwrog<br>• Cyngor Cymuned Pontfadlen<br>• Cyngor Cymuned Rhiwabon |
| **Cynghorau yr oeddem wedi cysylltu gyda'u harchwilydd mewnol, ond nad oeddynt wedi ymateb i'n cais am wybodaeth** |
| • Cyngor Cymuned Llanwddyn |
| **Cynghorau yr oedd yr archwilydd mewnol wedi nodi fod ganddynt bapurau gweithio, ond nad oeddynt wedi'u darparu** |
| • Cyngor Cymuned Aberffraw<br>• Cyngor Cymuned Abermiwl a Llandysul<br>• Cyngor Cymuned Bodedern<br>• Cyngor Cymuned Pentraeth |
| **Cynghorau yr oedd y cyngor neu'r archwilydd mewnol wedi darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ystod y broses glirio yn Rhagfyr 2018** |
| • Cyngor Cymuned Honddu Isaf<br>• Cyngor Cymuned Llanllwni |

Ffynhonnell: gwybodaeth a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru

1.10 Mae'r methiant i ddarparu gwybodaeth i'r astudiaeth hon yn gyson gydag anawsterau cyffredinol o ran caffael gwybodaeth gan gynghorau tref a chymuned. Mae **Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Tref a Chymuned 2017-18** hefyd yn tynnu sylw at ddiffygion o ran cyflwyno gwybodaeth ar gyfer archwiliad.

# Rhan 2 – Nid oes gan un o bob pum cyngor yn ein sampl archwilydd mewnol sy'n ddigon annibynnol

2.1 Mae Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru: Canllaw i Ymarferwyr (Canllaw Ymarferwyr) yn nodi pryd na fyddai archwilydd mewnol yn ddigon annibynnol. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys lle mae'r archwilydd mewnol:

- a yn gysylltiedig â rolau rheoli neu weinyddu'r cyngor, er enghraifft, os ydynt hefyd yn gynghorydd;
- b yn cynorthwyo gyda threfniadau cadw cyfrifon neu baratoi'r cyfrifon;
- c yn cynnig cyngor ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol y cyngor

2.2 Byddai'r ffaith bod yr archwilydd mewnol yn gyfaill neu'n berthynas i'r clerc, neu gynghorwyr eraill, yn fygythiad ychwanegol i annibyniaeth yr archwilydd. Byddai hyn yn peryglu annibyniaeth yr archwilydd oherwydd gallent fod yn llai tebygol o godi problemau a ganfuwyd, ac yn fwy tebygol o ymddiried yn yr esboniadau a roddwyd gan y clerc neu'r cyngor heb graffu priodol. Byddai posibiliad hefyd o gydgynllwynio rhwng yr archwilydd a'r clerc.

2.3 Mae Astudiaeth Achos 2 yn rhoi enghraifft o archwilydd nad ydym yn ystyried ei fod yn ddigon annibynnol.

**Astudiaeth Achos 2: Cyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt – diffyg annibyniaeth yr archwilydd mewnol**

| Manylion | Digon annibynnol |
|---|---|
| Mae'r archwilydd mewnol sy'n meddu ar gymhwyster Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu yn gyfaill i glerc y cyngor. |  |
| Mae hi'n cynorthwyo i gwblhau cysoniadau banc misol y cyngor ac yn gwirio llyfrau arian parod y cyngor. |  |
| Mae hi hefyd yn cynorthwyo i baratoi cyfrifon blynyddol y cyngor a ffurflenni TAW, yn ogystal ag ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau swyddfa cyffredinol dan gyfarwyddyd y clerc. |  |

Ffynhonnell: Dogfennau a dderbyniwyd

2.4 Mae archwilwyr allanol yn nodi'n rheolaidd bod archwilwyr mewnol yn darparu gwasanaethau eraill fel rhan o'u gweithdrefnau archwilio arferol. Mae ein gwaith maes yn ategu hyn; canfuwyd bod gan 21% o'r cynghorau yn ein sampl archwilwyr mewnol nad oeddynt yn ddigon annibynnol, yn bennaf oherwydd eu bod yn darparu gwasanaethau ychwanegol. Y gwasanaethau mwyaf cyffredin a wnaed gan archwilwyr mewnol oedd paratoi'r cyfrifon blynyddol, darparu gwasanaethau cyflogres a pharatoi cysoniadau banc i'r Cyngor.

2.5 Wrth ymgymryd â gwasanaethau ychwanegol, nid yw'r archwilydd mewnol yn ymddwyn yn annibynnol, oherwydd eu bod yn asesu eu gwaith eu hunain pan fyddant yn ymgymryd â'r archwiliad mewnol. Mae hyn wedyn yn codi gwrthdaro moesegol a risg na fydd problemau gyda'r cyfrifon yn dod i'r golwg, a thrwy hynny, yn tanseilio cadernid yr archwiliad mewnol terfynol.

# Rhan 3 – Mae gan dwy ran o dair o gynghorau yn ein sampl gylch gorchwyl annigonol â'u harchwilydd mewnol

3.1 Dylai cynghorau gadw golwg agos ar eu trefniadau rheoli mewnol drwy drafod y broses o benodi archwilydd mewnol ac yna drwy benodi'r archwilydd mewnol yn ffurfiol. Mae goruchwyliad o'r fath yn sicrhau bod unigolyn neu gwmni addas yn cael eu penodi i gynnal y gwaith.


3.2 Roeddem yn falch canfod bod 91% o gynghorau yn ein sampl wedi cadw cofnodion ffurfiol wrth benodi eu harchwilydd mewnol. Deallwn nad yw'r broses benodi o reidrwydd yn digwydd o'r naill flwyddyn i'r llall, gyda 74% yn unig o'r rhai a samplwyd wedi'u cofnodi yn 2017-18. Fodd bynnag, o ystyried bod y rhan fwyaf o'r cynghorau yn ein sampl yn dangos agweddau ar lywodraethu da drwy gofnodi'n ffurfiol y gwaith o benodi eu harchwilydd mewnol, roedd yn siomedig gweld nad oedd hynny hefyd yn wir am gylch gorchwyl yr archwilydd mewnol.

3.3 Buom yn cymharu pob cylch gorchwyl a dderbyniwyd gyda'r ffurf awgrymedig fel y nodir yn y Canllaw i Ymarferwyr. Mae'r rhestr isod yn dangos y meysydd y disgwylir i'r cylch gorchwyl eu cynnwys:

- a Rolau a chyfrifoldebau
- b Cynllunio ar gyfer archwilio
- c Gofynion adrodd
- ch Sicrwydd ynghylch annibyniaeth a chymhwysedd
- d Mynediad at wybodaeth, aelodau a swyddogion
- dd Cyfnod yr ymgysylltiad
- e Tâl
- f Unrhyw faterion eraill sy'n ofynnol ar gyfer rheoli'r ymgysylltiad gan y cyngor

3.4 Mae'r gymhariaeth a wnaed yn dangos nad oedd gan dwy ran o dair o gynghorau yn ein sampl gylch gorchwyl, neu nad oedd y cylch gorchwyl yn ddigonol. Mae Arddangosyn 4 yn dangos ein gwerthusiad wrth gwblhau'r gymhariaeth.

Arddangosyn 4: gwerthusiad o gylch gorchwyl yn ôl canran y cynghorau yn ein sampl




Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

3.5 Fel y dangosir yn Arddangosyn 4, 30% yn unig o'r cynghorau yn ein sampl oedd â chylch gorchwyl sy'n nodi'n ddigonol y berthynas gyda'r archwilydd mewnol, a'r trefniadau yn eu lle ar gyfer yr archwiliad mewnol. Yn Atodiad 3, rydym wedi darparu copi o gylch gorchwyl Cyngor Cymuned Goetre Fawr ar gyfer ei archwilydd mewnol. Mae hwn yn ymdrin â'r holl feysydd a argymhellir yn y canllaw, fodd bynnag, rydym hefyd wedi ychwanegu troednodiadau i awgrymu sut y gellid gwella'r ddogfen ymhellach.

3.6 Roedd gan 41% o gynghorau eraill yn ein sampl gylch gorchwyl yn ei le, ond nid oeddynt yn nodi'n ddigonol y trefniadau a'r berthynas. Er enghraifft, nid oedd rhai ohonynt yn nodi cwmpas y gwaith i'w gynnal yn ystod yr archwiliad mewnol neu nid oeddynt yn nodi'n ddigonol rolau a chyfrifoldebau perthnasol y cyngor a'r archwilydd mewnol.

3.7 O'r cynghorau a samplwyd, nid oedd gan 29% gylch gorchwyl ar waith. Mae hyn yn cynyddu'r risg o gamddealltwriaeth rhwng y cyngor a'r archwilydd mewnol. Ymhellach, nid oes gan y cynghorau hynny sicrwydd ynghylch ehangder a digonolrwydd eu trefniadau archwilio mewnol.

# Rhan 4 – Roedd casgliadau'r archwiliad mewnol yn anghywir yn un o bob tri chyngor a samplwyd

4.1 Gofynasom am bapurau gwaith archwilio mewnol, ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol i bob un o'r cynghorau a ddewiswyd er mwyn cymharu casgliadau archwilio. Nid ydym wedi gallu cwblhau'r gymhariaeth i 21% o'n sampl, gan nad yw archwiliadau allanol y cynghorau hynny wedi'u cwblhau hyd yma. Mae hyn yn ganlyniad i dri achos o fethu cyflwyno dogfennau ac 20 cyngor lle mae problemau wedi cael eu canfod.[1]

4.2 Lle rydym wedi gallu cymharu canfyddiadau'r archwilydd mewnol a'r archwilydd allanol, canfuwyd bod yr archwilydd mewnol wedi methu adnabod problemau a adnabuwyd yn ddiweddarach gan yr archwilydd allanol mewn 41 cyngor (46% o'r cynghorau hynny y derbyniasom y datganiad blynyddol archwiliedig). Mae'r canfyddiad hwn yn dangos gwendidau yn y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd, gan fod yr archwilydd wedi methu ag adnabod problemau gyda system rheoli fewnol y cyngor.

4.3 Rydym wedi tynnu sylw at ddwy enghraifft i roi cyd-destun i'r wybodaeth a gyflwynwyd ym mharagraff 4.2. Mae'r enghraifft gyntaf, Astudiaeth Achos 3, yn dangos lle mae casgliadau'r archwilydd mewnol yn gwrthddweud casgliadau'r archwilydd allanol ac mae Astudiaeth Achos 4 (paragraff 4.7) yn dangos lle mae'r archwilydd mewnol wedi adnabod gwendidau ond wedi methu â'u hadrodd.

1 Trafodir manylion pellach am broblemau ynghylch ardystio datganiadau blynyddol yn **Rheolaeth Ariannol a Llywodraethiant mewn Cynghorau Tref a Chymuned 2017-18.**

**Astudiaeth Achos 3: Cyngor Cymuned Bodedern – Archwilydd mewnol wedi methu ag adnabod problemau a godwyd gan yr archwilydd allanol**

Derbyniodd y cyngor farn archwilio amodol gan yr archwilydd allanol a dynnodd sylw at nifer o broblemau gwahanol. Fodd bynnag, nid oedd yr archwilydd mewnol wedi dwyn sylw at unrhyw broblemau yn y datganiad blynyddol. Mae'r gwahaniaethau rhwng canfyddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cynnwys y canlynol:

- Proses Gyllidebol:
  - er bod y cyngor wedi gosod praesept erbyn y dyddiad gofynnol, canfu'r archwilydd allanol nad oedd y cyngor wedi paratoi cyllideb ddigonol i ategu a dangos tystiolaeth ar gyfer y cais am y praesept; canfu hefyd nad yw'r cyngor wedi monitro'r gyllideb gan nad oes cyllideb y gellir cymharu'r ffigurau gwirionedd yn ei herbyn; ac
  - ysgrifennodd yr archwilydd mewnol yn ei adroddiad bod y cyngor wedi mabwysiadu proses gyllidebol briodol, gan nodi beth oedd yn ofynnol a'r gwariant disgwyliedig i bennu lefel y praesept gofynnol. Nododd hefyd bod y gyllideb wedi'i monitro yn ystod y flwyddyn.
- Cofrestr Asedau:
  - canfu'r archwilydd allanol bod cofrestr asedau'r cyngor yn anghyflawn ac nad oedd yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am yr holl asedau; ac
  - ysgrifennodd yr archwilydd mewnol yn ei adroddiad bod tystiolaeth i ddangos bod gan y cyngor gofrestr asedau digonol.

Ffynhonnell: Dogfennau a dderbyniwyd

4.4 Mae Astudiaeth Achos 3 yn bwrw amheuaeth ar ddigonolrwydd y gwaith a wnaethpwyd gan yr archwilydd. Mae hyn yn peri pryder i ni oherwydd. Mae clerc Cyngor Cymuned Bodedern yn anghytuno â hyn.

4.5 Mae ein pryderon pan fydd archwilwyr mewnol yn cyrraedd casgliadau gwahanol i archwilwyr allanol yn cynnwys:

a ni chwblhaodd yr archwilydd mewnol waith digonol i gefnogi'r casgliadau a luniwyd ganddo; neu

b nid oedd yr archwilydd mewnol yn deall proses y gyllideb a'r praesept yn iawn.

4.6 Nid yw hon yn enghraifft unigryw. Yn yr holl achosion a nodwyd ym mharagraff 4.2, byddem wedi disgwyl i'r archwilwyr mewnol adnabod rhai o'r problemau a nodwyd gan yr archwilydd allanol pe byddent wedi cwblhau'r holl waith a nodwyd yn eu papurau gwaith a/neu'r adroddiad archwilio.

4.7 Mae'r broses archwilio allanol bresennol yn dibynnu ar archwilwyr mewnol yn cwblhau gwaith digonol i gefnogi'r datganiadau yn adran Archwilio Mewnol y Datganiad Blynyddol. Os na ellir dibynnu ar y casgliadau a luniwyd gan gyfran sylweddol o archwilwyr mewnol, caiff y broses archwilio mewnol ac archwilio allanol sicrwydd cyfyngedig ei thanseilio.

4.8 Mae Astudiaeth Achos 4 yn tynnu sylw at archwilydd mewnol yn adnabod problemau ond yn methu â'u cynnwys o fewn eu hadroddiad.

**Astudiaeth Achos 4: Cyngor Cymuned Trefeurig – Methu â datgelu canfyddiadau archwilio'n ddigonol**

Bu inni archwilio'r papurau gwaith a'r adroddiad archwilio a gynhyrchwyd gan yr archwilydd mewnol i'r cyngor. Roedd ef wedi adnabod nifer o ddiffygion gyda mesurau rheoli mewnol y cyngor, gan gynnwys y canlynol:

- nid oedd yr holl anfonebau/talebau wedi'u cyflwyno ar gyfer yr archwiliad;
- nid oedd y cyngor wedi cymeradwyo'r holl daliadau a wnaed;
- nodwyd bod taliad dyblyg yn y cyfrifon;
- nid oedd y cyngor wedi cymeradwyo £326.07 o dreuliau a ad-dalwyd i'r clerc;
- roedd talebau wedi'u darparu ar gyfer taliadau treuliau i'r clerc yn hytrach nag anfonebau gwreiddiol;
- nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y cyngor yn monitro incwm a gwariant yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn;
- am ddau fis o'r flwyddyn, gwnaed taliadau cyflog dyblyg i'r clerc; ni ddaeth hyn i'r golwg hyd nes bod y clerc yn paratoi cyfrifon diwedd y flwyddyn; a
- nid oedd y gofrestr asedau'n cynnwys unrhyw werthoedd ariannol.

Roedd y problemau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad archwilio mewnol manwl. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r cyngor.

Er bod y problemau hyn wedi'u hadnabod, roedd y casgliad cyffredinol yn y Datganiad Blynyddol yn nodi bod system rheolaeth fewnol y cyngor yn ddigonol ac yn cyrraedd y safonau gofynnol.

Tynnodd yr archwilydd allanol sylw at y gwahaniaeth hwn rhwng y canfyddiadau a ddatgelwyd yn yr adroddiad archwilio mewnol a'r datganiad blynyddol.

Ffynhonnell: Dogfennau a dderbyniwyd

4.9 Mae Astudiaeth Achos 4 yn dangos bod yr archwilydd wedi cwblhau gwaith digonol ar gyfrifon a systemau rheolaeth fewnol y cyngor. Fodd bynnag, mae casgliad boddhaol yr archwilydd mewnol yn anghyson gyda chanfyddiadau'r gwaith archwilio. Rhoddwyd barn ddiamod ar ddigonolrwydd y rheolaethau mewnol er bod nifer o broblemau wedi dod i'r golwg. Rydym yn ystyried problemau ynghylch adrodd canfyddiadau archwilio mewnol yn fanylach yn adran 5 yr adroddiad hwn.

# Rhan 5 – Mae yna anghysondebau yn y broses adrodd ar archwilio mewnol yn flynyddol

5.1 Mae adran archwilio mewnol y Datganiad Blynyddol yn gofyn bod yr archwilydd mewnol yn cynnwys amlinelliad o'r gwaith a gynhaliwyd, neu'n darparu adroddiad archwilio mewnol manylach, ar wahân i'r Cyngor. Mae hyn yn llywio casgliadau'r cynghorwyr ar gyfer adran chwech o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n gofyn i gynghorwyr gadarnhau:

'Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.'

Wrth lofnodi adran chwech, mae cynghorwyr yn cadarnhau bod rheolaeth fewnol yn bodoli.

5.2 Mae ein canfyddiadau'n nodi bod cynghorau yn ein sampl yn ei chael yn anodd ateb adran chwech am ddau reswm:

- yn gyntaf, nid yw rhai archwilwyr mewnol yn darparu adroddiadau digonol ar y gwaith y maent wedi'u wneud, gweler Arddangosyn 5 am fanylion; a
- yn ail, nid yw rhai clercod yn adrodd canfyddiadau'r archwilydd mewnol i'r cyngor, gweler paragraff 5.8.

5.3 Mae Arddangosyn 5 yn crynhoi'r gyfran yn ein sampl lle gwnaed adroddiadau digonol o waith archwilio mewnol.

Arddangosyn 5: dadansoddiad o adroddiadau archwilio mewnol yn ôl canran y cynghorau yn ein sampl

| Manylion am waith a wnaed ar y datganiad blynyddol a/neu adroddiad archwilio | Dim manylion am waith a wnaed ar y datganiad blynyddol neu adroddiad archwilio | Dim manylion am waith a wnaed ar y datganiad blynyddol a dim archwiliad |
|---|---|---|
| 85% | 7% | 8% |




Ffynhonnell: adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau archwilio a datganiadau blynyddol

5.4 Mae Astudiaeth Achos 5 yn disgrifio un o'r cynghorau lle'r oedd yr archwilydd mewnol wedi nodi ei fod wedi darparu adroddiad archwilio ychwanegol, ond ei fod yn annigonol.

**Astudiaeth Achos 5: Cyngor Cymuned Llandysul – adroddiad archwilio mewnol annigonol**

Roedd yr archwilydd mewnol wedi ticio ie i'r holl ddatganiadau perthnasol ar adran archwilio mewnol y datganiad blynyddol ond nid oedd wedi cynnwys unrhyw sylwadau. Nododd ar y datganiad blynyddol ei fod wedi darparu adroddiad archwilio ar wahân i'r cyngor.

Brawddeg sengl oedd yr adroddiad archwilio ar wahân a ddarparwyd gan yr archwilydd. Roedd yn nodi: 'Rwy'n cadarnhau fy mod wedi archwilio'r cyfrifon fel ag yr oeddynt ar 31 Mawrth 2018 ac ar sail y wybodaeth a roddwyd, fy mod wedi'u cael yn gywir.'

Mae'r adroddiad wedyn wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan yr archwilydd mewnol.



Ffynhonnell: Dogfennau a dderbyniwyd

5.5 Mae Astudiaeth Achos 5 yn dangos y diffyg gwybodaeth yn rhai o'r adroddiadau archwilio mewnol a ddarparwyd i gynghorau yn ein sampl. Nid yw'r lefel hon o wybodaeth yn galluogi'r cyngor i ddeall pa waith a wnaed gan yr archwilydd mewnol ac nid yw'n galluogi'r cyngor i roi ymateb gwybodus i'r datganiad llywodraethu blynyddol.

5.6 Yn Atodiad 6, rydym wedi ail-gynhyrchu adroddiad archwilio mewnol Cyngor Tref Caergybi fel enghraifft o arfer da. Mae'n nodi'n gryno'r gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad mewnol, y casgliadau a luniwyd gan yr archwilydd mewnol ac argymhellion ar gyfer camau i'w cymryd i wella'r system rheolaeth fewnol.

5.7 Mae ein canfyddiadau'n tynnu sylw at y ffaith nad oedd y clerc wedi adrodd canfyddiadau'r archwilydd mewnol i'r cyngor yn 6% o'r cynghorau a samplwyd. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu craffu ar waith yr archwilydd mewnol. O ganlyniad, mae gennym bryderon ynghylch sut y gallant fod â digon o sicrwydd i lofnodi haeriadau positif yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

5.8 Dylai cynghorwyr sicrhau eu bod yn derbyn copi o adroddiad yr archwilydd mewnol i'w galluogi i bennu digonolrwydd y trefniadau archwilio mewnol.

# Part 6 – Nid oedd y rhan fwyaf o’r cynghorau yn ein sampl yn nodi’n ffurfiol sut maent yn mynd i’r afael ag argymhellion ynghylch archwilio mewnol

6.1 Canfu ein hastudiaeth bod 56% o gynghorau yn ein sampl wedi derbyn argymhellion gan eu harchwilydd mewnol yn ystod archwiliad 2017-18. Fodd bynnag, dim ond saith cyngor oedd wedi rhoi trefniadau ffurfiol ar waith i sicrhau eu bod yn mynd i’r afael â’r argymhellion ar ffurf cynllun gweithredu. Roedd archwilydd mewnol pump o’r cynghorau hyn wedi darparu’r cynllun gweithredu.

6.2 Rydym wedi cynnwys enghraifft o arfer da ar ffurf cynllun gweithredu a ddarparwyd i Gyngor Cymuned Llysfaen gan ei archwilydd mewnol yn Atodiad 5. Mewn blynyddoedd i ddod, mae’r camau gweithredu yn parhau ar y cynllun gweithredu, ac mae’r archwilydd mewnol yn cadarnhau a ydynt wedi cael sylw, neu a ydynt yn parhau i aros am sylw.

6.3 Byddem yn argymell y dylai cynghorau ystyried creu cynlluniau gweithredu i nodi argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Os yw’r archwilydd mewnol yn darparu cynllun gweithredu, fel yr enghraifft yn Atodiad 5, gellid ychwanegu colofnau ychwanegol i nodi pwy sy’n gyfrifol am weithredu’r argymhelliad, yr amserlen a sut y caiff ei adrodd, yn ogystal â cholofn i nodi pa gamau gweithredu sydd wedi’u cwblhau. Wrth wneud hyn, byddai cynghorau yn gallu cadw cofnod o’r argymhellion a wnaed a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â hwy i wella eu trefniadau rheolaeth fewnol.

6.4 Ymhellach, canfuom fod y prif waith dilynol a gwblhawyd ar yr argymhellion o’r archwiliad mewnol yn cael ei wneud gan yr archwilydd mewnol yn y flwyddyn ddilynol. Er i 87% o’r archwilwyr mewnol sy’n gwneud argymhellion ddweud wrthym eu bod yn eu dilyn i fyny’r flwyddyn ddilynol, rydym yn teimlo ei bod yn bwysig i gynghorau fonitro eu cynnydd eu hunain o ran mynd i’r afael â’r argymhellion a wnaed.

6.5 O’n hadolygiad o bapurau gwaith, rydym wedi nodi nad yw’n ymddangos bod 9% o gynghorau yn ein sampl yn mynd i’r afael ag argymhellion archwilio o flynyddoedd blaenorol. Roedd gan y cynghorau hyn fanylion am argymhellion archwilio mewnol o 2016-17 a oedd heb gael sylw yn eu hadroddiad archwilio mewnol ar gyfer 2017-18, fel y disgrifir yn Astudiaeth Achos 6.

**Astudiaeth Achos 6: Cyngor Cymuned Carreghofa – Methu â mynd i'r afael ag argymhellion**

Roedd adroddiad archwilio mewnol 2017-18 i'r cyngor yn tynnu sylw at nifer o broblemau, gan gynnwys y canlynol:

- nid oedd y datganiad blynyddol yn adio i fyny'n gywir;
- roedd sieciau heb eu cyflwyno wedi'u cynnwys yn anghywir fel credydwyr;
- nid oedd TAW wedi cael ei hawlio yn ôl ers 2014-15;
- roedd cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn yn uchel iawn, ond heb eu clustnodi ar gyfer dibenion penodol; ac
- roedd problemau gyda'r broses o bennu'r gyllideb.

Roedd yr archwilydd mewnol wedi tynnu sylw at yr holl broblemau hyn ynghynt yn ystod archwiliad 2016-17.

Ffynhonnell: Dogfennau a dderbyniwyd

6.6 Mae'r ffaith bod y problemau yn Astudiaeth Achos 6 wedi ailddigwydd yn 2017-18 ar ôl cael eu hadrodd yn 2016-17 yn awgrymu nad oes gan y cyngor weithdrefnau digonol yn eu lle i ddelio gydag argymhellion. Mae hyn yn dangos pam ei bod yn bwysig i gynghorau sicrhau bod ganddynt drefniadau addas yn eu lle i wneud newidiadau yn dilyn argymhellion archwilio mewnol, ac i fonitro hynt yr argymhellion hynny.

# Part 7 – Roedd traean o'r archwilwyr mewnol y cyfwelwyd â hwy yn teimlo y byddai profion ychwanegol ac arweiniad ynglŷn â chodi ffioedd yn fuddiol

7.1 Roedd pob un ond tri o'r archwilwyr mewnol yn meddu ar gymwysterau ariannol neu brofiad perthnasol ar gyfer eu rôl archwilio mewnol. Fodd bynnag, dywedodd traean o'r 19 y cyfwelwyd â hwy y byddent yn gwerthfawrogi arweiniad pellach i gadarnhau beth a ddisgwylir ganddynt mewn perthynas â rhai rhannau o'r datganiad blynyddol.

7.2 Y rhannau mwyaf cyffredin y gofynnwyd am arweiniad pellach arnynt oedd y datganiadau canlynol yn adran archwilio mewnol blynyddol y datganiad blynyddol:

- 3. asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli; a
- 4. […] cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.

7.3 Wrth adolygu ein sampl, roedd yn amlwg bod profi cronfeydd wrth gefn yn faes gwan i archwilwyr mewnol. Mewn 19 achos, daeth yr archwiliad mewnol i'r casgliad bod cronfeydd wrth gefn yn briodol, fodd bynnag, daeth yr archwiliad allanol i'r casgliad bod cronfeydd wrth gefn naill ai'n rhy uchel neu'n rhy isel.

7.4 Yn ystod ein gwaith maes, gwelsom enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â'r meysydd hyn, gan eu rhannu yma i gynorthwyo aseswyr mewnol eraill (Astudiaethau Achos 7 a 8).

**Astudiaeth Achos 7: Cyngor Cymuned Gwernymynydd – trefniadau asesu risg**

Mae'r archwilydd mewnol yn mynychu cyfarfod o'r cyngor bob mis Hydref i hwyluso trafodaeth ynghylch risgiau.

Allbwn y cyfarfod yw asesiad risg sy'n cynnwys y risgiau y mae'r cyngor yn eu hwynebu, eu canlyniadau a'r camau gweithredu y mae'r cyngor, neu y gallai'r cyngor eu cymryd i'w lliniaru.

Ffynhonnell: Dogfennau a dderbyniwyd

7.5 Mae hwyluso'r cyfarfod risg yn Astudiaeth Achos 7 yn galluogi'r archwilydd mewnol i gael dealltwriaeth o agwedd y cyngor at risgiau, ac a ydynt yn ystyried o ddifrif sut i liniaru'r risgiau a wynebant.

7.6 Rydym yn gwerthfawrogi nad yw holl archwilwyr efallai'n gallu mynychu cyfarfod cyngor llawn i bob cyngor y maent yn eu harchwilio. Fodd bynnag, byddai craffu'n feirniadol ar gynnwys a digonolrwydd asesiadau risg a threfniadau asesu risg yn cynorthwyo archwilwyr i lunio casgliad gwybodus.

**Astudiaeth Achos 8: Cyngor Cymuned Penyrheol, Trecenydd a Energlyn – trefniadau monitro'r gyllideb**



Dywedodd yr archwilydd mewnol wrthym ei fod yn gallu gwirio'n rhwydd a yw'r cyngor yn monitro ei gyllideb drwy'r adroddiadau chwarterol y mae'r clerc yn eu cyflwyno i'r cyngor.

Mae'r clerc yn paratoi adroddiad yn dadansoddi incwm a gwariant y chwarter ac yn cysoni hynny gyda'r cyfrifon banc. Caiff yr adroddiad wedyn ei gyflwyno i'r cyngor, a thrafodir cynnydd yn erbyn y gyllideb. Ystyrir hefyd a oes angen unrhyw newidiadau i'r gyllideb.

Mae'r archwilydd mewnol yn gwirio cofnodion y cyngor a'r adroddiadau ariannol chwarterol i gadarnhau a ydynt yn monitro cynnydd yn erbyn y gyllideb.


Ffynhonnell: Cyfweliad gyda'r archwilydd mewnol

7.7 Mae Astudiaeth Achos 8 yn dangos sut all cynghorau fonitro eu sefyllfa ariannol eu hunain ac yn awgrymu pa fath o ddogfennau y dylai archwilwyr mewnol fod yn chwilio amdanynt i gael sicrwydd ynghylch trefniadau monitro cyllideb y cynghorau.

7.8 Rydym hefyd wedi cynnwys rhaglen waith monitro mewnol a ddefnyddir gan Gyngor Tref Llanfair-ym-muallt yn Atodiad 4, sy'n enghraifft o arfer da o ran profi yn ystod archwiliad mewnol.

7.9 Dywedodd rhai archwilwyr mewnol wrthym nad oeddynt yn siŵr pa ffi i'w chodi am eu gwaith. Rydym felly wedi casglu gwybodaeth am ffioedd archwilio mewnol y cynghorau yn ein sampl, gyda chrynodeb o'r canfyddiadau yn Arddangosyn 6.

Arddangosyn 6: Ffioedd archwilio mewn a godwyd fel canran o incwm y cyngor





Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

7.10 Mae Arddangosyn 6 yn dangos bod amrywio sylweddol yn y ffioedd a godir gan archwilwyr mewnol. Mae'r mwyafrif yn codi llai na 0.5% o incwm y cyngor, ond mae un chwarter yn codi rhwng 1% a 3.5% o incwm y cyngor.

7.11 Rydym hefyd wedi dadansoddi'r ffioedd archwilio cyfartalog a delir gan gynghorau o wahanol feintiau yn Arddangosyn 7.

Tudalen y pecyn 83

Arddangosyn 7: ffioedd archwilio cymedrig i gynghorau yn ein sampl mewn gwahanol ddosbarthiadau maint




Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

7.12 Nid yw rhai archwilwyr mewnol yn codi ffi am eu gwasanaethau. O fewn ein sampl, ni chodwyd ffi ar 11% o gynghorau am eu harchwiliad mewnol. Roedd y cynghorau hyn yn amrywio o ran maint, a chyfanswm eu hincwm yn amrywio o £950 i £67,033 yn 2017-18.

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Ein Dulliau Gweithredu wrth Archwilio

### Cwmpas

1 Bu inni gynnal adolygiad archwilio o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau archwilio mewnol sydd yn eu lle ar gyfer cynghorau tref a chymuned.

### Dulliau

2 Bu inni gasglu ac adolygu dogfennau o 113[2] o'r 735 cyngor tref a chymuned. Dewiswyd y saith cyngor uchaf yn nhermau lefel gwariant uwch yn awtomatig gyda'r gweddill yn cael eu dewis ar hap, gweler Arddangosyn 8, isod am y lefelau praesept amrywiol.

3 Roedd y dystiolaeth ddogfennol yn cynnwys: :


a datganiadau blynyddol ardystiedig 2017-18;

b ymatebion i'n holiadur, a anfonwyd i glercod ac archwilwyr mewnol; a

c papurau gwaith archwilio mewnol.

2 Pennwyd maint y sampl gan ddefnyddio ein fformiwla dewis sampl mewnol


Arddangosyn 8: maint y cynghorau yn yr astudiaeth yn ôl praesept




Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

4 Roedd ein sampl o 113 yn golygu cysylltu â 60 o archwilwyr mewnol am wybodaeth mewn perthynas â'u trefniadau archwilio mewnol ac archwiliad mewnol 2017-18, mae'r nifer yn llai na maint ein sampl gan fod rhai archwilwyr yn gweithio gyda mwy nag un cyngor, gweler Arddangosyn 9.

Arddangosyn 9: cyfanswm y cynghorau a archwiliwyd gan archwilwyr mewnol o fewn ein sampl




Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

5 Yn seiliedig ar y wybodaeth a dderbyniwyd, bu inni gyfweld â 19 archwilydd mewnol. Mae Arddangosyn 10 yn dangos y cwestiynau yr oeddem yn ceisio eu hateb.

Arddangosyn 10: y cwestiynau yr oeddem yn ceisio eu hateb drwy'r astudiaeth.

| **Prif gwestiwn archwilio** |
|---|
| A yw archwilio mewnol mewn cynghorau tref a chymuned yng Nghymru'n ddigonol ac effeithiol? |
| **Cwestiynau ail lefel** |
| A yw archwilio mewnol yn ddigon annibynnol ar gynghorau unigol?<br>A roddir gylch gorchwyl digonol i archwilwyr mewnol sy'n nodi cwmpas eu gwaith?<br>A gynhelir gwaith archwilio mewnol yn gywir ac a ategir casgliadau gan dystiolaeth ddigonol?<br>A yw archwilwyr mewnol yn darparu adroddiadau digonol a phriodol i gynghorau sy'n nodi eu casgliadau a'u hargymhellion?<br>A yw cynghorau'n cymryd camau gweithredu priodol mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan archwilio mewnol? |

Ffynhonnell: dogfen cychwyn prosiect Swyddfa Archwilio Cymru

6 Rydym wedi rhoi cyfle i'r cynghorau tref a chymuned y sonnir amdanynt yn yr adroddiad ac i drydydd partïon a enwir ddarparu sylwadau ar ein hadroddiad cyn ei gyhoeddi, mewn perthynas â chywirdeb ffeithiol, cyflawnder a chydbwysedd.

7 Mae ein hadroddiad a gyhoeddir yn nodi'r ffeithiau sylfaenol, casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol a'i argymhellion penodol i'r cynghorau tref a chymuned.

## Atodiad 2 – Llinell amser ar gyfer Ceisiadau am Wybodaeth yn ystod yr Astudiaeth

**06 AWST 2018**

Anfonwyd llythyrau cychwynnol i'r sampl o gynghorau tref a chymuned, yn esbonio'r astudiaeth ac yn gofyn iddynt gyflwyno gwybodaeth erbyn 13 Awst 2018.

**CANOL-DIWEDD AWST 2018**

Anfonwyd negeseuon e-bost neu gwnaed galwadau ffôn i atgoffa Cynghorau nad oedd wedi ymateb erbyn y dyddiad cau cychwynnol.

**DIWEDD AWST – DECHRAU MEDI 2018**

Anfonwyd llythyrau cychwynnol i archwilwyr mewnol, yn esbonio'r astudiaeth ac yn gofyn iddynt ddanfon gwybodaeth i leoliadau ledled Cymru yn ystod Medi.

Lle derbyniwyd ymatebion gan gynghorau yn hwyrach na hyn, anfonwyd llythyrau cychwynnol i archwilwyr mewnol unwaith y derbyniwyd manylion cyswllt, ynghyd ag amlen ragdaledig i ddanfon gwybodaeth ynddi.

**28 MEDI 2018**

Anfonwyd llythyrau i gynghorau nad oedd wedi ymateb yn ail-ofyn iddyn nhw gyflwyno gwybodaeth erbyn y dyddiad cau terfynol sef 15 Hydref 2018 ac yn esbonio pwerau cyfreithiol yr Archwilydd Cyffredinol o ran cael mynediad at wybodaeth.

**DECHRAU TACHWEDD 2018**

Gwnaed galwadau ffôn at gynghorau ac archwilwyr mewnol nad oedd wedi ymateb i'r cais am wybodaeth.

# Atodiad 3 – Arfer Da – Cylch Gorchwyl

## Llythyr Penodi Archwilydd Mewnol: Cyngor Cymuned Goetre Fawr

Hoffwn gadarnhau eich penodiad fel Archwilydd Mewnol i'r Cyngor gan nodi isod gylch gorchwyl eich penodiad. Os ydych yn cytuno, byddwn yn ddiolchgar petaech yn llofnodi ac yn dychwelyd un copi ar gyfer fy nghofnodion

## 1. Rolau a chyfrifoldebau

Y Cyngor:

1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei reolaeth ariannol yn ddigonol ac effeithiol a bod ganddo system reolaeth fewnol gadarn sy'n ei alluogi i arfer ei swyddogaethau gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

1.2 Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system reolaeth fewnol gan ddilyn arferion priodol mewn perthynas â rheolaeth fewnol a nodir yng nghyhoeddiad y Grŵp Cynghori Ymarferwyr ar Cyd: Llywodraethiant ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol: Canllaw i Ymarferwyr a'r rhestr sydd ynghlwm o wiriadau archwilio a gynhyrchwyd gan Un Llais Cymru.

Yr Archwilydd Mewnol:

1.3 Mae'r Archwilydd Mewnol yn gyfrifol am adolygu a yw rheolaeth fewnol y Cyngor yn ddigonol ac effeithiol, a bod ganddo system reolaeth fewnol gadarn. Bydd yr Archwilydd Mewnol yn cydgysylltu â Chlerc y Cyngor ac yn adrodd i'r Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn.

## 2. Cynllunio archwilio

2.1 Mae gan y Cyngor gynllun archwilio strategol yn ei le sy'n ymdrin â'r prif systemau llywodraethu a rheoli ariannol a chaiff y cynllun hwn ei adolygu'n flynyddol. Ceir arweiniad pellach, gan gynnwys disgrifiad o'r lefel archwilio sylfaenol sy'n ofynnol, yn y Canllaw i Ymarferwyr.

2.2 Bydd yr Archwilydd Mewnol yn cynnal yr archwiliad i'w alluogi/galluogi i roi sicrwydd i aelodau a swyddogion, ac i'w alluogi/galluogi i gwblhau a llofnodi Adran 4 y Datganiad Blynyddol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor a'r archwilydd allanol.

2.3 Caiff y rhaglen waith i'r flwyddyn ei phennu'n flynyddol rhwng y Clerc[3] a'r Archwilydd Mewnol cyn i'r gwaith ddechrau.

3 Rydym yn argymell y dylid newid hwn i 'rhwng y Cyngor'.

## 3. Gofynion adrodd

3.1 Bydd yr Archwilydd Mewnol yn adrodd i'r Cyngor, gan nodi canlyniadau'r gwaith a wnaed yn ystod y deuddeg mis blaenorol.

3.2 Er mwyn galluogi'r Archwilydd Mewnol i gwblhau Adran 4 y Datganiad Blynyddol yn llawn, bydd ef/h yn cynnal gwaith mewn perthynas â diwedd y flwyddyn yn Ebrill/Mai. Bydd canlyniadau'r gwaith hwnnw yn cael eu hadrodd ochr yn ochr â chyflwyniad y Datganiad Blynyddol i'r Cyngor.

## 4. Annibyniaeth a chymhwysedd

4.1 Mae'n hanfodol bod y swyddogaeth archwilio mewnol yn annibynnol ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol eraill y Cyngor.

4.2 Bydd yr Archwilydd Mewnol yn rhoi gwybod i'r Clerc ar unwaith os bydd ef/hi yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau a all gael effaith andwyol ar ei allu/gallu i gynnal yr archwiliad yn wrthrychol ac annibynnol.

4.3 Bydd yr Archwilydd Mewnol yn cynnal yr archwiliad mewnol yn gymwys gan gydymffurfio ag arfer cydnabyddedig mewn modd sy'n diwallu anghenion busnes y Cyngor. Os yw'r Archwilydd Mewnol yn dod yn ymwybodol o faterion a all effeithio ar ei gymhwysedd/chymhwysedd, bydd ef/hi yn rhoi gwybod i'r Clerc neu'r Cadeirydd ar unwaith

## 5. Mynediad at wybodaeth, aelodau a swyddogion

5.1 Bydd gan yr Archwilydd Mewnol hawl mynediad yn ystod yr archwiliad at unrhyw gyfrifon, talebau, gohebiaeth, systemau cyfrifyddu, cofnodion cyfarfodydd a chofnodion eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal yr archwiliad.

5.2 Bydd gan yr Archwilydd Mewnol hawl mynediad at unrhyw aelod neu swyddog i drafod ac i dderbyn gwybodaeth ac esboniadau mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n codi o'r archwiliad.

## 6. Cyfnod y penodiad

6.1 Penodir yr Archwilydd Mewnol am gyfnod amhenodol, ond bydd yn amodol ar gadarnhad blynyddol gan y Cyngor.

## 7. Tâl

7.1 Cytunir rhwng yr Archwilydd Mewnol a'r Cyngor y bydd y ffi yn gyfradd benodol o £100[4] gan gynnwys holl dreuliau (er y bydd costau teithio'r archwilydd o 45c/milltir hefyd yn daladwy).

7.2 Mae'r gyfradd hon yn sefydlog am gyfnod y cytundeb. Gwneir y taliad fel rheol ar gyflwyno anfoneb, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed.

7.3 Os oes angen gwaith cyflogedig pellach, bydd y Cyngor a'r Archwilydd Mewnol yn cytuno ar delerau'r gwaith cyn iddo ddigwydd ar yr un gyfradd ddyddiol â'r hyn a nodwyd uchod, a chaiff y gwaith ei anfonebu ar wahân.

4 Dylai hwn nodi a yw'r gyfradd fesul awr/diwrnod.

# Atodiad 4 – Arfer Da – Rhaglen Waith

## Arddangosyn 11: Rhaglen Waith Archwilio Mewnol: Cyngor Tref Llanfair-ym-muallt

| 1. Rheolaeth Fewnol | 2. Profion | 3. Nodwch os Ie | 4. Cyfeirnod Papur Gwaith | 5. Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Archwiliad Mewnol Blaenorol | A yw'r cofnodion yn nodi bod y Cyngor wedi ystyried Adroddiad Archwilio Mewnol y flwyddyn flaenorol a'u bod yn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd? | | | |
| Cadw cyfrifon yn briodol | A yw'r llyfr arian parod yn cael ei gadw'n briodol a'i ddiweddaru? | | | |
| | A yw'r llyfr arian parod yn rhifyddol gywir? | | | |
| | A yw'r llyfr arian parod yn cael ei fantoli'n rheolaidd? | | | |
| Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol | A yw'r Cyngor wedi mabwysiadu Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol yn ffurfiol? | | | |
| | A yw'r Cyngor wedi penodi Swyddog Ariannol â Chyfrifoldeb? | | | |
| | A yw eitemau neu wasanaethau sy'n fwy na swm de minimis wedi cael eu prynu'n gystadleuol? | | | |
| | A yw taliadau yn y llyfr arian parod wedi'u cefnogi gan anfonebau ac a ydynt wedi'u hawdurdodi a'u cofnodi? | | | |

| 1. Rheolaeth Fewnol | 2. Profion | 3. Nodwch os Ie | 4. Cyfeirnod Papur Gwaith | 5. Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | A yw TAW ar daliadau wedi'i nodi, ei gofnodi a'i adennill? | | | |
| | A yw gwariant Adran 137 yn cael ei gofnodi ar wahân ac o fewn terfynau statudol? | | | |
| Trefniadau Rheoli Risg | A yw sgan o'r cofnodion yn adnabod unrhyw weithgaredd anarferol? | | | |
| | A yw'r cofnodion yn cofnodi bod y Cyngor yn cynnal asesiad risg blynyddol? | | | |
| | A yw gwarchodaeth yswiriant yn briodol a digonol? | | | |
| | A yw rheolaethau ariannol mewnol yn cael eu cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd? | | | |
| Rheolaethau Cyllidebol | A yw'r Cyngor wedi paratoi cyllideb flynyddol i gefnogi ei braesept? | | | |
| | A yw gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor? | | | |
| | A oes unrhyw amrywiannau anesboniadwy sylweddol o'r gyllideb? | | | |

| 1. Rheolaeth Fewnol | 2. Profion | 3. Nodwch os Ie | 4. Cyfeirnod Papur Gwaith | 5. Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Rheolaethau Incwm | A yw incwm yn cael ei gofnodi'n gywir a'i fancio'n brydlon? | | | |
| | A yw'r praesept a gofnodwyd yn y llyfr arian parod yn cytuno gyda hysbysiad y Cyngor Dosbarth? | | | |
| | A yw rheolaethau diogelwch dros arian parod yn ddigonol ac effeithiol? | | | |
| Gweithdrefnau Arian Mân | A yw'r holl arian mân gaiff ei wario yn cael ei gofnodi a'i ategu gan anfonebau/ derbyniadau TAW | | | |
| | A yw gwariant arian mân yn cael ei adrodd i'r Cyngor? | | | |
| | A gaiff arian mân ei ad-dalu'n rheolaidd? | | | |
| Rheolaethau Cyflogres | A yw cyflogau a dalwyd yn cytuno gyda'r rhai a gymeradwywyd gan y Cyngor? | | | |
| | A yw taliadau eraill i'r Clerc yn rhesymol ac wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor? | | | |
| | A yw'r Cyngor fel cyflogwr wedi gweithredu trefniadau PAYE/NIC yn gywir? | | | |
| Rheolaethau Asedau | A yw'r Cyngor yn cadw Cofrestr Asedau o'r holl asedau materol y mae'n berchen arnynt? | | | |

| 1. Rheolaeth Fewnol | 2. Profion | 3. Nodwch os Ie | 4. Cyfeirnod Papur Gwaith | 5. Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | A yw’r Gofrestr yn gyfoes? | | | |
| Cysoniadau Cyfrifon Banc | A oes cysoniadau banc i bob cyfrif banc? | | | |
| | A gaiff trefniadau cysoni banc eu cynnal yn rheolaidd wrth dderbyn datganiadau? | | | |
| | A oes unrhyw gofnodion mantoli heb eu hesbonio yn unrhyw gysoniad? | | | |
| Gweithdrefnau Diwedd Blwyddyn | A yw’r cyfrifon diwedd blwyddyn wedi’u paratoi ar y sail cyfrifyddu cywir? | | | |
| | A yw cyfrifon yn cytuno gyda’r llyfr arian parod? | | | |
| | A oes llwybr archwilio o’r cofnodion ariannol sylfaenol i’r cyfrifon? | | | |
| | Lle bo hynny’n briodol, a yw dyledwyr a chredydwyr wedi’u cofnodi’n gywir? | | | |

# Atodiad 5 – Adrfer Da – Cynllun Gweithredu

## Arddangosyn 12: Adroddiad Archwilio Mewnol 2017-18: Cyngor Cymuned Llysfaen

| | Problem | Argymhelliad | Camau Dilynol |
|---|---|---|---|
| 1 | Nid yw'r cysoniad banc a ddarparwyd i'r archwiliad yn nodi'r balans banc ar 31/3/18 i'r cyfrif cyfredol, ond yn hytrach yn nodi'r balans a gysonwyd gyda balans o ddim am sieciau heb eu cyflwyno. | Dylai'r cysoniad banc nodi'r balans banc ar 31/3/18 fel £5553.39 gyda sieciau heb eu cyflwyno o £495.13. Nid yw hyn yn effeithio ar y balans a nodwyd ar y datganiad ariannol sy'n gywir. | |
| 2 | […] | […] | |
| **Camau Dilynol mewn perthynas ag argymhellion archwilio 2016/17** | | | |
| 1 | Mae gwerth asedau sefydlog wedi cynyddu £2273. Mae hyn yn rhannol oherwydd y canlynol:<br>• Ychwanegwyd peiriant torri gwair ar werth o £1600, dyma'r gost gan gynnwys TAW. Dylid ychwanegu asedau ar y gwerth heb TAW a fyddai'n £1333.<br>Ni allem ganfod gweddill y symudiad. | Dylid addasu'r gofrestr asedau i gynnwys y peiriant torri gwair ar gost o £1333.<br>Dylid addasu'r datganiad blynyddol i ddangos asedau o £38,836.<br>Dylai'r Cyngor ddarparu (yn yr esboniad o amrywiannau i'r archwilydd allanol) y rheswm am y symudiad mewn asedau a sicrhau mai ychwanegu a gwaredu eitemau sy'n gyfrifol am hynny ac nad yw'n cynnwys unrhyw ailbrisio. | Mae datganiad blynyddol 16/17 wedi cael ei ailddatgan ac yn cytuno gyda'r gofrestr asedau sy'n cynnwys y peiriant torri gwair ar y prisiad cywir. Dim ychwanegiadau yn 17/18. |
| 2 | […] | […] | […] |

# Atodiad 6 – Arfer Da – Adroddiad Archwilio

## Adroddiad Archwilio Mewnol 2017-18: Cyngor Tref Caergybi

### 1. Pwrpas yr Archwiliad

1.1 Pwrpas yr archwiliad oedd adolygu trefniadau uniondeb ariannol a llywodraethu'r Cyngor gan ddilyn arferion priodol fel y'u nodir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau lleol (SLCC) "Llywodraethiant ac atebolrwydd i gynghorau lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr (fel y'i diwygiwyd Rhagfyr 2014)"

### 2. Prif Ganfyddiadau

2.1 Gellir gweld yr amcanion rheoli a brofwyd ac y'u cafwyd yn foddhaol yn Atodiad A.

### 3. Barn Archwilio

3.1 Gellir mynegi sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiad ariannol Cyngor Tref Caergybi i'r flwyddyn ariannol 2017-18 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, ond gellir tynhau rhai agweddau er mwyn lliniaru'r risgiau a nodwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn cymryd camau priodol i liniaru'r risgiau canlynol:

- Methu sicrhau bod Gorchmynion Sefydlog a Gweithdrefnau Ariannol yn gyfredol.
- Cafodd nifer o sieciau eu cyn-lofnodi gan y llofnodwyr awdurdodedig.
- Llwybr archwilio annigonol gan nad yw bonion sieciau yn cael eu llofnodi.
- Nid yw taliadau ac oriau cyfredol cyflogeion wedi'u nodi mewn cytundeb.

### 4. Cydnabyddiaethau

4.1 Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Dirprwy Glerc am yr holl gymorth a chydweithrediad wrth gwblhau'r archwiliad hwn. .

Rheolwr Archwilio

Mehefin 2018

## Atodiad A – Amcanion Rheoli a Chanfyddiadau’r Archwiliad

Mae’r llyfrau cyfrifon priodol wedi’u cadw’n briodol drwy gydol y flwyddyn.

- Mae’r llyfr arian parod yn cael ei gadw’n briodol a’i ddiweddaru
- Mae’r llyfr arian parod yn rhifyddol gywir
- Mae’r llyfr arian parod yn cael ei fantoli’n rheolaidd

Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.

- Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu rheolau sefydlog ond nid oes cofnod eu bod yn cael eu hadolygu o bryd i’w gilydd
- Mae’r Cyngor wedi penodi Swyddog Ariannol â Chyfrifoldeb gyda dyletswyddau penodol
- Mae eitemau neu wasanaethau sy’n fwy na swm de minimis wedi cael eu prynu’n gystadleuol
- Mae taliadau yn y llyfr arian parod wedi’u cefnogi gan anfonebau, wedi’u hawdurdodi a’u cofnodi
- Mae TAW ar daliadau wedi’i nodi, ei gofnodi a’i adennill
- Mae’r Cyngor wedi cymeradwyo ei drefniadau ar gyfer gwneud taliadau ac wedi hysbysu ei aelodau o’r trefniadau hynny.
- Mae gwariant Adran 137 yn cael ei gofnodi ar wahân ac o fewn terfynau statudol

Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.

- Nid yw adolygiad o’r cofnodion yn adnabod unrhyw weithgaredd anarferol
- Mae’r cofnodion yn cofnodi bod y Cyngor yn cynnal asesiad risg blynyddol
- Mae gwarchodaeth yswiriant yn briodol a digonol
- Mae rheolaethau ariannol mewnol yn cael eu cofnodi a’u hadolygu’n rheolaidd

Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.

- Mae'r Cyngor wedi paratoi cyllideb flynyddol i gefnogi ei braesept
- Mae gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor
- Nid oes unrhyw amrywiannau anesboniadwy sylweddol o'r gyllideb

Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.

- Mae incwm yn cael ei gofnodi'n gywir a'i fancio'n brydlon
- Mae'r praesept a gofnodwyd yn y llyfr arian parod yn cytuno gyda hysbysiad awdurdod y Dreth Gyngor
- Mae rheolaethau diogelwch dros arian parod yn ddigonol ac effeithiol

Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.

- Mae gan holl gyflogeion gytundebau cyflogaeth gyda thelerau ac amodau clir. Fodd bynnag, nid yw'r cytundebau bellach yn adlewyrchu'r telerau cyflogaeth cyfredol
- Mae'r cyflogau a dalwyd yn cytuno gyda'r rhai a gymeradwywyd gan y Cyngor
- Mae taliadau eraill i gyflogeion yn rhesymol ac wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor
- Mae'r Cyngor fel cyflogwr wedi gweithredu trefniadau PAYE/NIC yn gywir

Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn ac yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.

- Mae'r Cyngor yn cadw cofrestr o'r holl asedau materol y mae'n berchen neu'n gyfrifol amdanynt
- Mae'r gofrestr asedau yn gyfoes
- Mae prisiadau yswiriant asedau yn cytuno gyda'r rhai yn y gofrestr asedau

Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.

- Caiff cysoniad banc ei baratoi i bob cyfrif banc
- Caiff trefniadau cysoni banc eu cynnal yn rheolaidd ac yn amserol
- Nid oes unrhyw gofnodion mantoli heb eu hesbonio yn unrhyw gysoniad

Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir, roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan lwybr archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.

- Caiff cyfrifon diwedd blwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu cywir
- Mae cyfrifon yn cytuno gyda'r llyfr arian parod
- Mae llwybr archwilio o'r cofnodion ariannol sylfaenol i'r cyfrifon
- Mae dyledwyr a chredydwyr wedi'u cofnodi'n gywir

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Ionawr 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi’r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Deryck Evans, Hefin Davies a Jayne Elms o dan oruchwyliaeth Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus sy’n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo’r pŵer i gyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu’n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i wefannau allanol, gellir adnabod rhain drwy destun coch wedi'i danlinellu.


Adroddiad cryno

Mae'r swm o arian a reolir gan gynghorau lleol yng Nghymru yn parhau i gynyddu. Fodd bynnag, mewn gormod o gynghorau erys safon bresennol rheoli ariannol a llywodraethu yn siomedig o hyd fel y dangosir gan y ffaith bod nifer y barnau archwilio amodol wedi dyblu. At hynny, bu raid i mi gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd, neu wneud argymhellion ffurfiol i wyth o gynghorau yn 2018. 4

1 Mae cynghorau lleol yn parhau i reoli symiau cynyddol o arian cyhoeddus ac yn sgil cyhoeddi adroddiad y panel adolygu annibynnol bydd angen iddynt ystyried eu rôl yn y dyfodol a sut y bydd hyn yn effeithio ar eu trefniadau rheoli ariannol 9

2 Nid yw nifer sylweddol o gynghorau yn deall eu cyfrifoldebau statudol am baratoi cyfrifon a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer yr archwiliad statudol, gan gynnwys gwneud trefniadau i'w hetholwyr archwilio'r cyfrifon 20

3 Mae archwilwyr yn parhau i nodi methiannau y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau rheoli ariannol a llywodraethu effeithiol a chyhoeddwyd barn archwilio amodol mewn 340 o gynghorau 27

4 Yn 2018, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi arfer ei bwerau statudol i gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd neu wneud argymhellion ffurfiol i wyth o gynghorau yng Nghymru 36

5 Bydd archwiliadau cynghorau cymuned a thref ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae archwilwyr yn nodi cyfle i wella o ran trefniadau'r cyngor ac yn ystod y cyfnod hwn, byddaf yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau archwilio presennol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben 40

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynghorau y mae eu hincwm a'u gwariant dros £200,000 45

Atodiad 2 – Archwiliadau anghyflawn ar 30 Tachwedd 2018 48

Atodiad 3 – Esboniad o'r fframwaith statudol ar gyfer materion archwilio cyffredin 52

# Adroddiad cryno

## Mae'r swm o arian a reolir gan gynghorau lleol yng Nghymru yn parhau i gynyddu. Fodd bynnag, mewn gormod o gynghorau erys safon bresennol rheoli ariannol a llywodraethu yn siomedig o hyd fel y dangosir gan y ffaith bod nifer y barnau archwilio amodol wedi dyblu. At hynny, bu raid i mi gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd neu wneud argymhellion ffurfiol i wyth o gynghorau yn 2018

1 Mae dros 730 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mewn rhai achosion, mae'r cynghorau hyn yn darparu gwasanaethau ar y cyd drwy gydbwyllgorau a sefydlwyd ar gyfer gwasanaethau penodol, fel arfer gwasanaethau claddu. Mae chwe chydbwyllgor o'r fath yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyrff hyn, gyda'i gilydd, fel cynghorau lleol.

2 Gyda'i gilydd, yn 2017-18 gwnaeth y cyrff hyn godi dros £48.5 miliwn mewn incwm, yn bennaf oddi wrth dalwyr y dreth gyngor, a gwario dros £47.4 miliwn. Am fod incwm yn parhau i fod yn uwch na gwariant, mae eu cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu i fwy na £38.7 miliwn ar 31 Mawrth 2018.

3 Hwn yw fy seithfed adroddiad blynyddol sy'n crynhoi materion a nodwyd gan archwilwyr allanol yn ystod eu harchwiliad statudol o gynghorau lleol yng Nghymru. Mae'r trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau lleol wedi'u cynllunio at y dibenion canlynol:

- fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel archwilydd statudol cynghorau lleol;
- rhoi lefel resymol o sicrwydd i drigolion lleol ynglŷn â rheoli ariannol a llywodraethu eu cyngor lleol; a
- helpu pob cyngor i wella ei drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu pan fo angen eu datblygu ymhellach.

4 Mae'r broses archwilio yn cynnwys adolygiad o'r cyfrifon blynyddol ac archwiliad o drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu'r cyngor sy'n sail i sicrhau gwerth am arian o ran defnydd cynghorau o adnoddau. Ers 2015-16, mae'r un trefniadau archwilio wedi cael eu cymhwyso at bob cyngor lleol ledled Cymru.

5 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau’r gwaith archwilio a gwblhawyd hyd at 30 Tachwedd 2018, ddeufis ar ôl y terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig 2017-18. Ar 30 Tachwedd, roedd 647 allan o 741 (87%) o’r archwiliadau wedi’u cwblhau. Nodir y rhesymau dros beidio â chwblhau yn fanylach yn Rhan 2.

6 Mae pum prif adran i’r adroddiad hwn:

- Mae Rhan 1 yn rhoi sylwadau ar y swm cynyddol o arian ac asedau cyhoeddus a reolir gan gynghorau lleol ledled Cymru a phwysigrwydd dangos bod yr adnoddau hyn yn cael eu gwarchod a’u rheoli’n effeithiol.

- Mae Rhan 2 yn nodi’r mater mwyaf cyffredin a nodwyd gan archwilwyr ar gyfer 2017-18, gan gynnwys:

- Mae Rhan 3 yn crynhoi’r canfyddiadau allweddol o archwiliad 2017-18 ac yn nodi sawl pryder archwilio sy’n codi’n gyffredin yn y sector. Mewn rhai achosion, nododd yr archwilwyr ddiffygion difrifol mewn cynghorau lleol unigol.

- Mae Rhan 4 yn crynhoi’r materion a nodwyd mewn cynghorau unigol lle roeddwn o’r farn bod angen arfer fy mhwerau i gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd a/neu wneud argymhellion ysgrifenedig y mae angen i gynghorau unigol ymateb yn ffurfiol iddynt. Mae’r adran hon o’r adroddiad yn tynnu sylw at y materion hyn fel y gall cynghorau lleol ystyried a oes unrhyw wersi y gallant eu dysgu gan eraill a defnyddio’r wybodaeth hon i wella eu trefniadau eu hunain.

- Mae Rhan 5 yn amlinellu fy rhaglen archwilio yn y dyfodol sydd wedi’i llywio gan y materion a nododd archwilwyr mewn blynyddoedd blaenorol a datblygiadau ehangach sy’n effeithio ar gynghorau lleol. Yn fy adroddiad ar ganlyniadau archwiliad 2012-13, ymrwymais i gyhoeddi ymlaen llaw y meysydd penodol y bydd archwilwyr yn canolbwyntio arnynt yn ystod yr archwiliad y flwyddyn ddilynol. Mae hyn yn galluogi cynghorau lleol i nodi meysydd lle mae angen iddynt ddatblygu eu trefniadau a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol. Mae’r adran hon o’r adroddiad yn amlinellu’r meysydd y bwriadaf ganolbwyntio arnynt dros y tair blynedd nesaf.

7 Nodir isod fy nghasgliadau cyffredinol o archwiliadau 2017-18.

## Mae cynghorau lleol yn rheoli symiau cynyddol o arian cyhoeddus ac yn dal cronfeydd wrth gefn sy'n hafal i'r arian a godwyd oddi wrth dalwyr y dreth gyngor: yn sgil cyhoeddi adroddiad y panel adolygu annibynnol bydd iddynt angen ystyried eu rôl yn y dyfodol a sut y bydd hyn yn effeithio ar eu trefniadau rheoli ariannol

8 Yn sgil cyhoeddi adroddiad y Panel Adolygiad Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru, caiff cynghorau lleol gyfle i ystyried y gwasanaethau y maent yn eu darparu i'w cymunedau ac effaith ariannol unrhyw ddatblygiadau arfaethedig.

9 Mae cryn amrywio rhwng ardaloedd sirol o ran nifer y cynghorau lleol a'r symiau o arian y maent yn eu gwario i ddarparu gwasanaethau lleol.

10 Mae incwm cynghorau lleol yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y praesept a godir ar dalwyr y dreth gyngor.

11 Mae gwariant cynghorau lleol yn parhau i gynyddu bob blwyddyn oherwydd costau staff cynyddol a gwariant uniongyrchol ar nwyddau a gwasanaethau.

12 Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol yn parhau i gynyddu gan fod incwm yn uwch na gwariant ac mae bron 200 o gynghorau yn dal cronfeydd wrth gefn sy'n fwy na'r praesept a godwyd ar dalwyr y dreth gyngor.

13 Mae nifer gynyddol o gynghorau yn mynd dros y trothwy ar gyfer mabwysiadu dyletswyddau penodol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae 53 o gynghorau bellach yn bodloni gofyniad y trothwy, sef incwm neu wariant blynyddol o fwy na £200,000 am dair blwyddyn yn olynol.

## Mae nifer sylweddol o gynghorau yn methu â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol am baratoi cyfrifon a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer yr archwiliad statudol, gan gynnwys gwneud trefniadau i'w hetholwyr archwilio'r cyfrifon

14 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'n glir y gofynion statudol ynglŷn â pharatoi ac archwilio datganiadau cyfrifyddu cynghorau lleol.

15 Nid yw archwiliadau wedi cael eu cwblhau mewn gormod o gynghorau yng Nghymru oherwydd oedi cyn cyflwyno'r ffurflen flynyddol i'w harchwilio.

16 Mae nifer sylweddol o gynghorau lleol yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon.

17 Er mwyn helpu cynghorau i gydymffurfio â'r Rheoliadau, ar gyfer archwiliad 2018-19 byddaf yn pennu dyddiad cyffredin, sef 29 Gorffennaf 2019, i bob cyngor lleol yng Nghymru o ran arfer hawliau etholwyr.

18 Bydd archwilwyr yn gofyn am dystiolaeth i ddangos bod pob cyngor lleol wedi gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd archwilio eu cyfrifon.

## Mae nifer y barnau archwilio amodol wedi dyblu yn 2017-18 i 340 o gynghorau, gyda'r archwilwyr yn nodi methiannau o hyd o ran rheoli ariannol a llywodraethu

19 Mae archwilwyr yn rhoi barn archwilio 'amodol' pan fydd cynghorau yn methu â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol neu pan ddaw archwilwyr i'r casgliad bod y wybodaeth yn y ffurflen flynyddol wedi cael ei cham-ddatgan.

20 Cafodd dros 340 o gynghorau unigol farn archwilio amodol ar gyfer 2017-18 o gymharu â 170 yn 2016-17. Methiant i ddilyn yr amserlen statudol ar gyfer y cyfrifon a'r archwiliad sy'n bennaf cyfrifol am y cynnydd hwn.

21 Nododd archwilwyr faterion y mae angen i'r cyngor roi sylw iddynt, ond nad arweiniodd at farn archwilio amodol, mewn 522 o gynghorau o gymharu â 424 yn 2016-17.

22 Unwaith eto, mae archwilwyr wedi tynnu sylw at yr angen i ddatblygu'r swyddogaeth archwilio mewnol ac ategir hyn gan ganfyddiadau fy astudiaeth genedlaethol o archwilio mewnol yn y sector.

## Yn 2018, oherwydd diffygion sylweddol a nodwyd yn ystod yr archwiliad, arferais fy mhwerau statudol i gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd neu wneud argymhellion ysgrifenedig i wyth o gynghorau yng Nghymru

23 Gall cynghorau cymuned a thref yng Nghymru ddysgu gwersi o'r adroddiadau er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd mewn saith cyngor yn ystod 2018. Rwyf hefyd yn ystyried adroddiadau tebyg ar sawl cyngor arall.

24 Gall cynghorau hefyd ddysgu gwersi o'r argymhellion ysgrifenedig a gyhoeddwyd o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yn 2018 gwneuthum argymhellion o'r fath i un cyngor.

## Bydd archwiliadau cynghorau cymuned a thref ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae archwilwyr yn nodi cyfle i wella o ran trefniadau'r cyngor ac yn ystod y cyfnod hwn, byddaf yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau archwilio presennol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben

25 Bydd fy rhaglen archwilio ar gyfer 2018-19 i 2020-21 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae lle i gynghorau lleol wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu.

26 Yn 2019, byddaf yn adolygu'r trefniadau archwilio presennol er mwyn penderfynu a ydynt yn parhau'n addas at y diben a disgwylir i unrhyw newidiadau i'r trefniadau o ganlyniad i hynny gael eu cyflwyno ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21.

Rhan 1

Mae cynghorau lleol yn rheoli symiau cynyddol o arian cyhoeddus ac yn dal cronfeydd wrth gefn sy'n hafal i'r arian a godwyd oddi wrth dalwyr y dreth gyngor: yn sgil cyhoeddi adroddiad y panel adolygu annibynnol bydd iddynt angen ystyried eu rôl yn y dyfodol a sut y bydd hyn yn effeithio ar eu trefniadau rheoli ariannol



## Yn sgil cyhoeddi adroddiad y Panel Adolygiad Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru, caiff cynghorau lleol gyfle i ystyried y gwasanaethau y maent yn eu darparu i'w cymunedau ac effaith ariannol unrhyw ddatblygiadau arfaethedig

1.1 Ymdriniodd adroddiad terfynol y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, â'r themâu canlynol:

- beth yw cynghorau cymuned a thref: gan gynnwys mynd i'r afael â chwestiynau megis a ddylai cynghorau cymuned a thref fodoli, eu cwmpas a'r mathau o gynghorau cymuned a thref;
- beth mae cynghorau cymuned a thref yn ei wneud: edrych ar agweddau ar y rôl megis darpariaeth leol, pwerau a hyblygrwydd, llais a hunaniaeth leol, ac ymgysylltu â'r gymuned;
- sut mae cynghorau cymuned a thref yn gwneud hynny: ystyried adnoddau a gallu, staffio, cyllido, cyngor arbenigol, rôl cynghorydd, a'r cydberthnasau rhwng cynghorau cymuned a thref a chyrff eraill; a
- sut mae cynghorau cymuned a thref yn cael eu dwyn i gyfrif: ystyried atebolrwydd democrataidd, amrywiaeth, archwilio, craffu annibynnol a chymorth/ymyriadau.

1.2 Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

1.3 Gwnaeth y Panel sawl argymhelliad y bydd cynghorau lleol bellach am eu hystyried o bosibl o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol. Ym mha fodd bynnag y bydd cynghorau yn ymateb, bydd angen iddynt ystyried canlyniadau ariannol penderfyniadau a wneir ganddynt.


1.4 Mae'r adran hon o'm hadroddiad yn rhoi rhywfaint o ddadansoddiad lefel uchel o sefyllfa ariannol y sector.

## Mae cryn amrywio rhwng ardaloedd sirol o ran nifer y cynghorau lleol a'r symiau o arian y maent yn eu gwario i ddarparu gwasanaethau lleol

1.5 Mae gwariant gan gynghorau lleol yn amrywio ledled Cymru. Mae Arddangosyn 1 yn nodi dosbarthiad cynghorau a'r gwariant y maent yn mynd iddo ledled ardaloedd sirol yng Nghymru.

## Arddangosyn 1 – amrywio rhwng cynghorau a gwariant yn ôl ardal sirol

Mae nifer y cynghorau cymuned a thref yn amrywio ledled Cymru o 1 yn unig ym Merthyr Tudful i 112 ym Mhowys. Mae'r gwariant cyfartalog fesul cyngor yn amrywio o £19,000 yng Ngheredigion i £275,000 yn Nhorfaen.




1 - Bridgend
- 21
- £2,328,130
- £110,863

2 - Rhondda Cynon Taf
- 12
- £2,101,887
- £175,157

3 - Merthyr Tudful
- 1
- £25,628
- £25,628

4 - Caerffili
- 18
- £843,206
- £46,845

5 - Blaenau Gwent
- 4
- £359,658
- £89,915

6 - Torfaen
- 6
- £1,655,368
- £275,895

7 - Caerdydd
- 6
- £389,794
- £64,966

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

1.6 Mae'r amrywiad hwn yn nodi cwmpas gwahanol y gwasanaethau a gynigir gan gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. O ran y cynghorau lleiaf, efallai mai dim ond gwasanaethau cyfyngedig ar ffurf neuaddau cymuned a sylwadau ar geisiadau cynllunio y byddant yn eu darparu ond gall y cynghorau mwy o faint fod yn gyfrifol am gynnal llwybrau troed, glanhau strydoedd, gweithredu cyfleusterau cyhoeddus, mynwentydd a pharciau neu wybodaeth i ymwelwyr. Wrth i gynghorau unigol ddatblygu eu rôl mewn ymateb i adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol, mae'r symiau o arian a reolir ganddynt yn debygol o gynyddu. Bydd datblygu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu cadarn yn rhan hanfodol o drefniadau gweinyddol a llywodraethu pob cyngor.

## Mae incwm cynghorau lleol yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y praesept a godir ar dalwyr y dreth gyngor

1.7 Cododd y 735[1] o gynghorau cymuned a thref a'u chwe[2] chydbwyllgor a gwmpesir yn yr adroddiad hwn dros £48.5 miliwn o incwm yn 2017-18. Mae cynghorau lleol yn codi incwm naill ai drwy bennu praesept, drwy godi am nwyddau a gwasanaethau, drwy hawlio grantiau neu waredu asedau hirdymor.

1.8 Gorchymyn terfynol i'r awdurdod unedol dalu swm penodol o arian i'r cyngor lleol yw praesept. Caiff swm y praesept ei rannu'n gyfartal rhwng talwyr treth gyngor y gymuned a chaiff ei dalu'n llawn i'r cyngor lleol.

1.9 Mae cynghorau hefyd yn codi arian drwy godi tâl am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor lleol. Fel arfer caiff tâl ei godi am y canlynol:

- defnyddio neuaddau pentref/canolfannau cymunedol y mae cynghorau lleol yn berchen arnynt neu'n eu rheoli;
- ffioedd claddu os yw'r cyngor lleol yn awdurdod claddu;
- taliadau am logi cyfleusterau chwaraeon; a
- thaliadau meysydd parcio.

1 Roedd fy adroddiadau blaenorol yn cynnwys Cyngor Cymuned Gwledig Llanelli a Chydbwyllgor Claddu Llanelli. Am fod ei wariant blynyddol wedi mynd dros £2.5 miliwn, mae'r Cyngor bellach yn paratoi ei gyfrifon ar sail wahanol i gynghorau eraill ac felly nid yw wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn. Yn 2018, trosglwyddodd gweithgareddau'r Cydbwyllgor Claddu i Gyngor Cymuned Gwledig Llanelli ac ni chyfrifir amdanynt ar wahân mwyach. Mae'r data a gofnodwyd mewn blynyddoedd blaenorol wedi cael eu diwygio i hepgor y cyrff hyn.


2 Pwyllgorau claddu yw pob un o'r cydbwyllgorau ac maent yn gwario cyfanswm o ychydig dros £239,000.

1.10 Gall cynghorau hefyd godi arian i'w fuddsoddi mewn asedau hirdymor drwy wneud cais am grantiau, hawlio benthyciadau neu waredu asedau hirdymor. Fel arfer, caiff y defnydd o'r cronfeydd hyn ei gyfyngu i ddibenion penodol.

1.11 Yn gyffredinol, mae incwm cynghorau lleol wedi cynyddu £5.1 miliwn (12%) ers 2014-15. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd cyfanswm y praesept a godwyd ar dalwyr y dreth gyngor £5.2 miliwn (16%).

## Arddangosyn 2 – Incwm cynghorau lleol rhwng 2014-15 a 2017-18

Mae cyfanswm incwm cynghorau lleol wedi cynyddu bob blwyddyn, o £43.4 miliwn yn 2014-15 i fwy na £48.5 miliwn yn 2017-18. Cynyddodd cyfanswm y praesept £5.2 miliwn i £37.1 miliwn ond gostyngodd incwm o ffynonellau eraill £100,000 i £11.4 miliwn yn ystod yr un cyfnod.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

Tudalen y pecyn 116

1.12 Yn 2016, cyhoeddais adroddiad ar godi am wasanaethau a chynhyrchu incwm gan awdurdodau lleol. Er nad oedd yr adroddiad hwn wedi'i anelu at gynghorau cymuned a thref, efallai y bydd yn ddefnyddiol wrth iddynt feddwl am gynhyrchu incwm o ffynonellau eraill heblaw'r praesept. Gellir gweld yr adroddiad ar ein gwefan.

## Mae gwariant cynghorau lleol yn parhau i gynyddu bob blwyddyn oherwydd costau staff cynyddol a gwariant uniongyrchol ar nwyddau a gwasanaethau


1.13 Gwariodd cynghorau cymuned a thref a'u cydbwyllgorau fwy na £47.4 miliwn yn 2017-18. Mae gan gynghorau lleol nifer o bwerau a swyddogaethau statudol y gallant fynd i wariant arnynt yn gyfreithlon. Roedd y rhain yn cynnwys pwerau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- ymddangosiad pentrefi, gan gynnwys, er enghraifft, adeiladau a safleoedd allweddol, dyluniadau da, ac ymylon ffyrdd;
- awyr agored ac ymarfer corff, gan gynnwys, er enghraifft, maes y pentref, diogelu tir comin, cyfleusterau hamdden, tiroedd pleser a theithiau cerdded cyhoeddus, pyllau nofio a chyfleusterau i ymwelwyr â chefn gwlad;
- cynulliadau, gan gynnwys pwerau sy'n ymwneud â thwristiaeth, adloniant a'r celfyddydau, neuaddau a chanolfannau a gefeillio;
- goleuadau cyhoeddus ac atal troseddau, gan gynnwys, er enghraifft, gwyliadwriaeth;
- bod yn berchen ar randiroedd a'u darparu;
- iechyd, gan gynnwys cyfleusterau cyhoeddus, sbwriel a graffiti a dŵr a draenio pyllau dŵr;
- cyfathrebu, gan gynnwys hawliau tramwy, gwaith ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau, llochesi a seddi a meysydd parcio cerbydau a rheseli beiciau; a
- phwerau sy'n ymwneud â'r ymadawedig, er enghraifft darparu mynwent.

1.14 Yn gyffredinol, mae incwm cynghorau lleol wedi cynyddu £6.5 miliwn (16%) ers 2014-15. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd gwariant ar gostau staff £2.2 miliwn (18% a chynyddodd taliadau eraill £4.2 miliwn (16%).

Arddangosyn 3 – gwariant cynghorau lleol rhwng 2014-15 a 2017-18

Mae cyfanswm incwm cynghorau lleol wedi cynyddu bob blwyddyn, o £40.9 miliwn yn 2014-15 i £47.4 miliwn yn 2017-18. Cynyddodd gwariant ar gostau staff £2.2 miliwn i £14.9 miliwn a chynyddodd gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau £4.3 miliwn i £32.1 miliwn yn ystod yr un cyfnod.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol yn parhau i gynyddu gan fod incwm yn uwch na gwariant ac mae bron 200 o gynghorau yn dal cronfeydd wrth gefn sy'n fwy na'r praesept a godwyd ar dalwyr y dreth gyngor

1.15 Mae cynghorau lleol yn dal cronfeydd wrth gefn a balansau am amrywiaeth o resymau. Mae'r rhai yn cynnwys ariannu gwariant nas rhagwelwyd a 'chynilo' ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, mae'n ofynnol iddynt neilltuo arian at ddibenion penodol yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, gall derbyniadau o waredu asedau hirdymor gael eu diffinio fel derbyniadau cyfalaf. Os felly, dim ond er mwyn ariannu gwariant cyfalaf y gellir eu defnyddio.

1.16 Roedd cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol ar 31 Mawrth 2018 yn fwy na £41.5 miliwn ac maent wedi cynyddu mwy na £8.6 miliwn neu 29% ers 31 Mawrth 2014.

### Arddangosyn 4 – cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol rhwng 31 Mawrth 2014 a 31 Mawrth 2018

Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol wedi cynyddu mwy na £8.6 miliwn yn ystod y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru


Tudalen y pecyn 119

1.17 Wrth bennu’r praesept, o dan y gyfraith mae’n ofynnol i gynghorau lleol ystyried gwerth arian a ddelir fel cronfeydd wrth gefn. Mae’n rhaid i gynghorau lleol ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir ganddynt a ph’un a ydynt yn bwriadu ariannu unrhyw ran o’u gwariant o gronfeydd wrth gefn, neu a oes angen iddynt gynyddu’r symiau a neilltuir mewn cronfeydd wrth gefn.

1.18 Mae cynghorau yn parhau i godi incwm sy’n fwy na’u gwariant bob blwyddyn. Mae’r symiau a ddelir gan gynghorau lleol fel cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu mwy na £8.6 miliwn (29%) ers 31 Mawrth 2014. Ar gyfer 2017-18, neilltuodd cynghorau 2% o gyfanswm yr incwm a dderbyniwyd ganddynt mewn cronfeydd wrth gefn, o gymharu â 7% ar gyfer 2016-17.

## Arddangosyn 5 – cynyddodd cynghorau lleol eu praeseptau a’u cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2017-18 er gwaethaf eu gwarged yn 2016-17

Gwnaeth llawer o gynghorau lleol gadw eu praesept neu eu cronfeydd wrth gefn ar yr un lefel neu eu cynyddu yn 2017-18 er gwaethaf eu gwarged yn 2016-17.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

1.19 Disgwyliaf i incwm a gwariant ym mhob rhan o'r sector gynyddu dros amser wrth i gynghorau lleol ddechrau rheoli mwy o wasanaethau ac asedau a drosglwyddir iddynt gan yr awdurdodau unedol. Fodd bynnag, mewn cyfnod o gyni cyllidol, mae'n bwysig nad yw cynghorau yn ychwanegu'n ddiangen at y baich a osodir ar dalwyr y dreth gyngor, drwy godi mwy o incwm drwy'r dreth gyngor nag sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau'r cyngor a gweinyddu ei faterion.

1.20 Yn y cyd-destun hwn, mae'n achos pryder bod archwilwyr yn nodi'n rheolaidd bod cynghorau yn methu ag ystyried eu cronfeydd wrth gefn wrth bennu eu cyllidebau. Mae'r ystadegau uchod yn awgrymu bod angen i rai cynghorau lleol ystyried yn ofalus a oes angen iddynt ddal lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ganddynt ar hyn o bryd ac a ddylid defnyddio rhai o'r balansau a ddelir i ariannu'r gwariant cyfredol, gan eu galluogi i bennu praesept is. Nid oes gan gynghorau lleol bwerau i godi arian i'w dal mewn cronfeydd wrth gefn bythol gynyddol. Pan fydd balansau cronfeydd wrth gefn cynghorau yn sylweddol dylent sicrhau eu bod wedi datblygu cynlluniau i ddefnyddio'r arian hwn er budd y cymunedau a wasanaethir ganddynt.


## Mae nifer gynyddol o gynghorau yn mynd dros y trothwy ar gyfer mabwysiadu dyletswyddau penodol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae 53 o gynghorau bellach yn bodloni gofyniad y trothwy, sef incwm neu wariant blynyddol dros £200,000 ar gyfer tair blwyddyn yn olynol

1.21 Mae adran 40 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nodi rôl cynghorau lleol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol. Mae'n nodi bod cynghorau sydd ag incwm neu wariant blynyddol gwerth dros £200,000 ar gyfer tair blwyddyn neu fwy'n olynol yn ddarostyngedig i ddyletswyddau penodol ond cyfyngedig o dan y Ddeddf.

1.22 Yn 2017-18, roedd incwm neu wariant 70 o gynghorau dros £200,000. Mae'r nifer hon yn cynyddu bob blwyddyn.

Arddangosyn 6 – cynghorau lleol sydd ag incwm neu wariant blynyddol dros £200,000

Mae nifer y cynghorau sydd ag incwm neu wariant blynyddol dros £200,000 wedi cynyddu i 70 yn 2017-18 ac mae 53 o'r cynghorau hyn bellach yn bodloni'r amod cymhwyso a bennwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

1.23 Mae gan 53 o gynghorau incwm neu wariant dros £200,000 ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol ddiwethaf. Bydd gofynion y Ddeddf bellach yn gymwys i'r cynghorau hyn. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr lawn o'r cynghorau hyn.

1.24 Mae gan y cynghorau hyn ddyletswydd benodol ond cyfyngedig o dan y Ddeddf i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun llesiant lleol. Bob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad ar y cynnydd y maent wedi'i wneud i gyflawni'r amcanion lleol.

1.25 Bydd angen i'r cynghorau sy'n mynd dros y trothwy fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a chynllunio ar gyfer eu cyflawni. Mae fy rhyngweithio â chynghorau hyd yma yn awgrymu bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau o dan y Ddeddf sy'n gymwys i gynghorau cymuned a thref.

Rhan 2

# Mae nifer sylweddol o gynghorau wedi methu â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol am baratoi cyfrifon a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer yr archwiliad statudol, gan gynnwys gwneud trefniadau i'w hetholwyr archwilio'r cyfrifon



## Mae Deddf Archwilio (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'n glir y gofynion statudol ynglŷn â pharatoi ac archwilio datganiadau cyfrifyddu cynghorau lleol

2.1 Mae adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol lunio eu cyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a threfnu i'r Archwilydd Cyffredinol eu harchwilio.

2.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:

2.3 mae'n rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y cyngor baratoi ac ardystio bod y cyfrifon yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio i hynny drwy lofnodi a dyddio'r datganiadau cyfrifyddu. Darperir ar gyfer llofnodi a dyddio yn y ffurflen flynyddol.

2.4 Mae'n rhaid i'r aelodau, gan gyfarfod yn eu cyfanrwydd, ystyried y datganiadau cyfrifyddu ac, ar ôl eu hystyried, gymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w cyflwyno i'r archwilydd drwy benderfyniad gan y corff; ac ar ôl eu cymeradwyo, sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu'n cael eu llofnodi a'u dyddio gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod lle y rhoddwyd y gymeradwyaeth honno;

2.5 Mae'n rhaid i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau erbyn 30 Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

2.6 Mae'n rhaid i gynghorau hefyd wneud trefniadau i etholwyr lleol arfer eu hawliau i archwilio'r cyfrifon a'r cofnodion ategol ar adeg archwilio. Mae adran 30 o'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i etholwyr lleol archwilio'r cyfrifon sydd i'w harchwilio a chysylltu â'r archwilydd i ofyn cwestiynau am y cyfrifon neu wneud gwrthwynebiadau.

2.7 Mae'r Rheoliadau yn nodi bod yn rhaid caniatáu i etholwyr archwilio'r cyfrifon am 20 diwrnod gwaith ar ôl rhoi rhybudd rhesymol cyn y dyddiad a bennir gan yr archwilydd y bydd etholwyr lleol yn gallu arfer eu hawliau i ofyn cwestiynau neu wneud gwrthwynebiadau. Mae'n rhaid i gynghorau gyhoeddi hysbysiad sy'n hysbysebu'r cyfnod archwilio hwn o leiaf 14 diwrnod gwaith cyn i'r cyfnod ddechrau.

## Nid yw archwiliadau wedi cael eu cwblhau mewn gormod o gynghorau yng Nghymru oherwydd oedi cyn cyflwyno'r ffurflen flynyddol i'w harchwilio

2.8 Mae'n siomedig nodi ar 30 Tachwedd 2018 h.y. ddeufis ar ôl y dyddiad y dylai'r cynghorau fod wedi cyhoeddi cyfrifon archwiliedig yn unol ag ef, fod archwiliad 2017-18 yn anghyflawn mewn 94 o gynghorau. Mae'r archwiliadau yn anghyflawn am amrywiol resymau fel y nodir yn Arddangosyn 7. Mewn sawl achos, mae modd osgoi'r rhesymau dros yr oedi cyn cwblhau'r archwiliad, sy'n cael eu hachosi gan fethiant y cynghorau i baratoi'r ffurflen flynyddol neu ei chyflwyno i'r archwilydd yn amserol.

### Arddangosyn 7 – rhesymau dros archwiliadau anghyflawn

Mae archwiliad 2017-18 yn anghyflawn mewn 94 o gynghorau am amrywiol resymau

| | Nifer y cynghorau |
|---|---|
| Ffurflen flynyddol 2017-18 heb ei chyflwyno i'r archwilydd | 17 |
| Cynghorau ddim yn ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth | 24 |
| Archwiliadau blynyddoedd blaenorol yn anghyflawn | 22 |
| Materion o ran archwiliad 2017-18 eto i'w datrys | 31 |

2.9 Nodir manylion y cynghorau roedd eu harchwiliad yn anghyflawn ar 30 Tachwedd 2018 yn Atodiad 2.

## Mae nifer sylweddol o gynghorau lleol yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â’r amserlen statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo eu cyfrifon

2.10 Nid yw’r Rheoliadau sy’n ymwneud ag amseriad yr archwiliad a’r trefniadau y mae’n rhaid eu gwneud wedi newid ers sawl blwyddyn. Er gwaethaf hyn, mae llawer o gynghorau wedi methu â gwneud trefniadau priodol. Mae hon yn thema sy’n cael ei nodi dro ar ôl tro gan archwilwyr ac mae’n awgrymu nad yw clercod nac aelodau cynghorau yn deall y gofynion statudol na’u cyfrifoldebau am gydymffurfio â nhw.

### Arddangosyn 8 – cydymffurfiaeth â’r amserlen statudol

Mae llawer o gynghorau yng Nghymru yn methu â chadw at yr amserlen statudol a nodwyd yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio Cymru.




Methodd **80** cyrff y dyddiad cau o 30 Mehefin



Methodd **242** cyrff gwneud trefniadau addas ar gyfer archwiliad

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

2.11 Y rheswm mwyaf cyffredin dros y methiant i wneud trefniadau priodol i etholwyr archwilio cyfrifon oedd bod y cyngor lleol wedi cymeradwyo’r cyfrifon ar ôl i’r cyfnod archwilio o 20 diwrnod ddechrau.

2.12 Mae adran 30(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn darparu ‘an interested person may inspect the accounts to be audited’. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol (cyngor) ‘[g]ymeradwyo’r datganiadau cyfrifyddu i’w cyflwyno i’r archwilydd’ ar ôl iddo eu hystyried.

2.13 Dim ond datganiadau cyfrifyddu a gymeradwywyd y gellir eu cyflwyno i'r archwilydd i'w harchwilio, felly mae'n rhaid i'r 'cyfrifon i'w harchwilio', y mae'n rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio gan etholwyr gael eu cymeradwyo gan y cyngor yn gyntaf.

2.14 Mewn sawl achos, dim ond ychydig ddiwrnodau ar ôl i'r cyfnod archwilio ddechrau y cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo. Fodd bynnag, mewn achosion eraill dim ond tuag at ddiwedd y cyfnod archwilio y cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo.

2.15 Nododd yr archwilwyr hefyd nad yw rhai cynghorau yn rhoi digon o amser ar gyfer y cyfnod hysbysu na'r cyfnod archwilio. Pan fydd archwilwyr yn nodi achosion arwyddocaol o dorri'r Rheoliadau, byddant yn cyfarwyddo'r cyngor i osod hysbysiad newydd sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau yn llawn.

## Er mwyn helpu cynghorau i gydymffurfio â'r Rheoliadau, ar gyfer archwiliad 2018-19 byddaf yn pennu dyddiad cyffredin, sef 29 Gorffennaf 2019, i bob cyngor lleol yng Nghymru o ran arfer hawliau etholwyr

2.16 Er mwyn mynd i'r afael â'r methiannau mwyaf cyffredin o archwiliad 2018-19 ymlaen, byddaf yn gosod dyddiad cyffredin i'r etholwyr arfer eu hawliau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yna, bydd archwilwyr sy'n gweithredu ar fy rhan yn rhoi hysbysiad o archwiliad profforma i'r cynghorau ei arddangos mewn man amlwg yn lleol a'i gyhoeddi ar eu gwefannau.

2.17 Mae Arddangosyn 9 yn esbonio'r hyn y mae'n rhaid i gynghorau ei wneud ar gyfer archwiliad 2018-19 a phryd mae'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud i etholwyr arfer eu hawliau i archwilio'r cyfrifon.

Arddangosyn 9 – amserlen archwilio ar gyfer 2018-19

Rwyf wedi pennu 29 Gorffennaf 2019 fel y dyddiad y gall etholwyr lleol ddechrau arfer eu hawliau o dan adran 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

| Cam Gweithredu | I’w gwblhau erbyn |
|---|---|
| Mae’r Cyngor yn gosod hysbysiad o archwiliad mewn man amlwg ac yn cyhoeddi copi ar ei wefan | 16 Mehefin 2019 |
| Mae’r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio’r datganiadau cyfrifyddu | 30 Mehefin 2019 |
| Mae’r Cyngor yn cymeradwyo’r cyfrifon i’w cyflwyno i’r archwilydd | 30 Mehefin 2019 |
| Mae’r Cyngor yn sicrhau bod cyfrifon a chofnodion ategol ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio | 1 Gorffennaf 2019 |
| Diwedd y cyfnod archwilio statudol | 26 Gorffennaf 2019 |
| Y dyddiad y gall etholwyr lleol ofyn cwestiynau i’r archwilydd am y cyfrifon neu wneud gwrthwynebiadau yn eu cylch | 29 Gorffennaf 2019 |

2.18 Gan fod rhybudd o’r dyddiadau hyn wedi cael ei roi bellach, rhagwelaf y bydd bron bob cyngor yn cydymffurfio â’r Rheoliadau ar gyfer 2018-19.

## Bydd archwilwyr yn gofyn am dystiolaeth i ddangos bod pob cyngor lleol wedi gwneud trefniadau priodol i etholwyr arfer eu hawliau i archwilio'r cyfrifon

2.19 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer gynyddol o etholwyr lleol wedi cysylltu â'u harchwilwyr neu Swyddfa Archwilio Cymru i godi pryderon nad yw cynghorau yn gwneud trefniadau priodol i etholwyr arfer eu hawliau. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, nid yw'r cyngor wedi cydymffurfio â'r gyfraith.

2.20 Felly, fel rhan o archwiliad 2017-18, gofynnodd yr archwilwyr am dystiolaeth ar ffurf ffotograff i ddangos bod cynghorau wedi cydymffurfio â'r gofynion i arddangos yr hysbysiadau mewn man amlwg.

2.21 Mewn rhai achosion, er iddynt gael eu hysbysu am y gofynion o ran tystiolaeth, nid oedd nifer fach o gynghorau yn gallu rhoi'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani. Mewn achosion eraill, yn syml, gwrthododd clerc y cyngor i roi'r dystiolaeth.

2.22 Ar gyfer 2018-19, byddaf yn cyfarwyddo archwilwyr, os bydd cynghorau yn methu â chydymffurfio â'r cais am dystiolaeth, y dylent gyfeirio'r cyngor ataf i er mwyn i mi ganfod pam nad yw'r cyngor a/neu ei glerc yn barod i gydweithredu â'r archwilydd. Byddaf hefyd yn ystyried p'un a ddylwn gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau'r cyngor.

# Rhan 3

Mae nifer y barnau archwilio amodol wedi dyblu yn 2017-18 i 340 o gynghorau, gyda'r archwilwyr yn nodi methiannau o hyd o ran rheoli ariannol a llywodraethu



## Mae archwilwyr yn rhoi barn archwilio ‘amodol’ pan fydd cynghorau yn methu â chydymffurfio â’u cyfrifoldebau statudol neu pan ddaw archwilwyr i’r casgliad bod y wybodaeth yn y ffurflen flynyddol wedi cael ei chamddatgan

3.1 Mae fy null archwilio ar gyfer cynghorau lleol wedi’i gynllunio er mwyn i mi gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

3.2 Mae cynghorau lleol yn paratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae’r ffurflen flynyddol yn cynnwys:

- y datganiadau cyfrifyddu blynyddol a wnaed hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn; a
- datganiad llywodraethu blynyddol sy’n nodi haeriadau lle mae’r cyngor yn cadarnhau’r trefniadau sydd ar waith ganddo i reoli ei gyllid.

3.3 Mae archwilwyr yn adolygu’r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi’u cynnwys yn y ffurflen flynyddol a’r haeriadau a wnaed yn y datganiad llywodraethu blynyddol er mwyn dod i gasgliad ynghylch a oes tystiolaeth ai peidio bod y datganiadau cyfrifyddu wedi cael eu paratoi’n briodol a ph’un a oes gan y cyngor drefniadau digonol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau a ph’un a yw’r wybodaeth a geir yn y ffurflen flynyddol yn rhoi darlun cywir o gyllid a threfniadau rheoli ariannol a llywodraethu’r cyngor.

3.4 Mae archwilwyr yn mesur trefniadau’r cyngor yn erbyn ei gyfrifoldebau statudol ac yn rhoi barn ‘amodol’ pan fyddant yn nodi diffyg cydymffurfiaeth. Nodir y rhain fel eithriadau yn y farn archwilio. Fodd bynnag, mae modd osgoi pob barn amodol os oes gan gynghorau drefniadau priodol ar waith i gydymffurfio â’u cyfrifoldebau statudol.

3.5 Mae archwilwyr hefyd yn rhoi barn archwilio amodol lle mae’r wybodaeth a geir yn y cyfrifon a/neu’r datganiadau cyfrifyddu blynyddol yn anghyson â’r dystiolaeth a roddwyd ar gyfer yr archwiliad.

## Cafodd dros 340 o gynghorau unigol farn archwilio amodol ar gyfer 2017-18 o gymharu â 170 yn 2016-17 ac mae'r cynnydd hwn i'w briodoli'n bennaf i ddiffyg dealltwriaeth o'r amserlen statudol ar gyfer y cyfrifon a'r archwiliad

3.6 Rhoddaf farn archwilio ddiamod pan na ddaw unrhyw faterion i'm sylw yn ystod yr archwiliad sy'n awgrymu bod y cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion statudol neu reoliadol. Gall fy archwiliad hefyd nodi materion eraill y mae angen eu dwyn i sylw'r cyngor, er nad ydynt yn dynodi methiant i gydymffurfio â gofyniad statudol na gofyniad rheoliadol.

3.7 Y mater mwyaf cyffredin a arweiniodd at farn archwilio amodol oedd diffyg cydymffurfio â'r Rheoliadau a oedd yn ymwneud â chymeradwyo'r cyfrifon a'r trefniadau i'r cyhoedd archwilio'r cyfrifon. Rwyf wedi trafod y mater hwn yn fanylach yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn.

3.8 Heblaw am farnau amodol sy'n ymwneud â'r amserlen ar gyfer y cyfrifon a'r archwiliad, mae'r math o farnau amodol yn debyg ar y cyfan i'r rhai yn 2016-17. Mewn rhai achosion, rhoddir barn archwilio amodol am fwy nag un rheswm. Ymhlith yr enghreifftiau o'r materion hyn mae:

- methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu;
- gwendidau yn y trefniadau i bennu'r gyllideb a monitro;
- diffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol i gyhoeddi dogfennau ar-lein; a
- methiant i wneud trefniadau priodol ar gyfer trethu'r gyflogres.

## Methodd 86 o gynghorau â pharatoi a chymeradwyo eu datganiadau cyfrifyddu blynyddol yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, o gymharu â 50 yn 2016-17

3.9 Fel y crynhoir yn Arddangosyn 10, mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'r amserlen i gynghorau lleol baratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.

Arddangosyn 10 – y broses gymeradwyo statudol ar gyfer cyfrifon cynghorau lleol

Mae’n rhaid i’r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio’r datganiadau cyfrifyddu cyn bod y Cyngor yn cymeradwyo’r datganiadau cyfrifyddu, a’r datganiad llywodraethu blynyddol.

**Mae’r swyddog ariannol cyfrifol yn ardystio’r datganiadau cyfrifyddu erbyn 30 Mehefin cyn i’r Cyngor eu cymeradwyo**

→

**Ar ôl i’r swyddog ariannol cyfrifol eu hardystio, mae’r Cyngor yn cymeradwyo’r ffurflen flynyddol gan gynnwys y datganiadau cyfrifyddu erbyn 30 Mehefin**

3.10 Nododd yr archwilwyr, o’r cynghorau hynny sydd wedi cyflwyno cyfrifon i’w harchwilio, nad oedd 86 o gynghorau wedi cadw at yr amserlen hon ar gyfer cyfrifon 2017-18. Mae’n debygol y bydd y ffigur hwn yn cynyddu wrth i’r cyfrifon hwyr, y cyfeiriwyd atynt uchod, gael eu cyflwyno ac wrth i’r dyddiad cymeradwyo ddod yn hysbys. Mae hyn yn cymharu â 50 o gynghorau a fethodd â chydymffurfio â’r gofynion ar gyfer 2016-17.

3.11 Nododd yr archwilwyr yr achosion canlynol:

- dim ond ar ôl i’r Cyngor gymeradwyo’r ffurflen flynyddol y cafodd y datganiadau cyfrifyddu eu hardystio gan y swyddog ariannol cyfrifol; a
- roedd naill ai’r swyddog ariannol cyfrifol neu’r Cyngor neu’r ddau wedi methu â chyflawni eu cyfrifoldebau erbyn 30 Mehefin. Mewn rhai achosion, digwyddodd hyn oherwydd cylchoedd cyfarfod cynghorau unigol a gallai’r cyngor fod wedi mynd i’r afael â hyn drwy newid ei amserlen gyfarfod arferol.

## Gwnaeth 86 o gynghorau haeriad anghywir eu bod wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol

3.12 Ar ddiwedd pob archwiliad, mae archwilwyr yn rhoi adroddiad manwl i'r cynghorau sy'n nodi canfyddiadau eu harchwiliad, gan gynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Dylai'r cyngor ystyried yr adroddiadau a'r argymhellion hyn a chymryd camau priodol.

3.13 Ar gyfer archwiliad 2017-18, adolygodd yr archwilwyr y cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn 2015-16 a 2017-18. Nododd yr archwilwyr fod llawer o gynghorau wedi methu â mynd i'r afael â'u hargymhellion ac nad oeddent yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau statudol o ran pennu'r gyllideb a'r gyflogres o hyd. Mae rhagor o fanylion am y materion hyn wedi'u cynnwys yn fy adroddiadau cynharach ar gyfrifon 2015-16 a chyfrifon 2016-17.

## Nid yw 24 o gynghorau wedi gwneud trefniadau priodol eto i gyhoeddi dogfennau ar-lein yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

3.14 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) mae'n ofynnol i bob cyngor lleol gyhoeddi ei fanylion cyswllt a manylion ei aelodau a chofnodion o'i drafodion ar y rhyngrwyd. O dan Ddeddf 2013 mae hefyd yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 yn gwneud cynghorau lleol yn fwy atebol i'w hetholwyr.

3.15 Nododd yr archwilwyr fod 24 o gynghorau:

- nad oes ganddynt wefan sy'n hygyrch i'r cyhoedd lle y gall gyhoeddi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi; neu
- nad ydynt yn cyhoeddi'r wybodaeth hon yn electronig er bod ganddynt wefan.

## Nododd archwilwyr faterion y mae angen i’r cyngor roi sylw iddynt, ond nad arweiniodd at farn archwilio amodol, mewn 522 o gynghorau o gymharu â 424 yn 2016-17

3.16 Bydd archwilwyr hefyd yn cyflwyno adroddiad ar faterion eraill sydd wedi dod i’w sylw yn ystod yr archwiliad. Dylai cynghorau ystyried y materion hyn fel y gallant wella ar eu trefniadau mewnol yng ngoleuni’r sylwadau a wnaed.

3.17 Cyflwynodd archwilwyr adroddiadau ar faterion o’r fath i 522 o gynghorau yn 2017-18 o gymharu â 424 yn 2016-17.

### Nododd yr archwilwyr faterion yn natganiadau cyfrifyddu 180 o gynghorau

3.18 Dylai pob cyngor sicrhau bod y ffurflen flynyddol yn cael ei chwblhau’n llawn a’i gwirio cyn iddi gael ei chyflwyno i’w harchwilio. Eir i gostau archwilio ychwanegol pan fydd angen i archwilwyr ddychwelyd y ffurflen flynyddol i gynghorau er mwyn iddynt ei chywiro neu ei chwblhau

3.19 Mae’r datganiadau cyfrifyddu y mae’n rhaid i gynghorau lleol yng Nghymru eu cyflwyno yn syml, o ran strwythur a gofynion cyfrifyddu. Nododd yr archwilwyr faterion yn natganiadau cyfrifyddu 180 o gynghorau. Mae hyn dipyn yn fwy na’r niferoedd a nodwyd ar gyfer 2016-17 (86) ond yn debyg i 2015-16 (176).

3.20 Mewn sawl achos, nododd yr archwilwyr fod y cyfrifon cymaradwy ar gyfer 2016-17 a nodwyd ar ffurflen flynyddol 2017-18 wedi cael eu newid o gyfrifon 2016-17 a oedd wedi’u cynnwys ar ffurflen flynyddol 2016-17. Mewn achosion eraill, gall y cyfrifon gynnwys gwallau syml:

- gwallau rhifyddol. Mewn rhai achosion, nid oedd y datganiadau cyfrifyddu yn adio i fyny. Mae hyn yn aml o ganlyniad i dalgrynnu ffigurau i’r bunt agosaf. Fodd bynnag, mae’n bwysig bod cynghorau’n sicrhau y caiff y datganiadau cyfrifyddu eu cyflwyno’n gywir

- triniaeth anghywir o drafodion nas cyflwynwyd. Ar ddiwedd y flwyddyn, yn aml bydd gwahaniaethau o ran amseriad rhwng cofnodi trafodion yn llyfr arian parod y cyngor a'r trafodwn yn cael ei glirio drwy gyfrif banc y cyngor. Fel rhan o'u gwaith o baratoi cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, bydd cynghorau'n cysoni'r llyfr arian parod â chyfriflen y banc. O dan arfer cyfrifyddu priodol, ni fydd addasu ar gyfer cysoni eitemau ar ddiwedd y flwyddyn. Yn hytrach, cânt eu gwrthdroi os oes angen yn y flwyddyn ddilynol. Fodd bynnag, mae gormod o gynghorau naill ai'n diwygio cyfrifon y flwyddyn flaenorol neu gyfrifon y flwyddyn gyfredol i ddileu effaith y trafodion nas cliriwyd. Effaith hyn yw bod y datganiadau cyfrifyddu yn cael eu cam-ddatgan.

- peidio â chynnwys cyfrifon banc na thrafodion. Mewn rhai achosion, mae cadw cofnodion gwael gan gynghorau yn golygu na chaiff balansau a ddelir mewn rhai cyfrifon banc a thrafodion sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon hynny eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn arwain at danddatgan balansau'r cyngor a cham-ddatgan ei incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn. Mae'r diffyg rheolaeth fewnol hefyd yn peryglu'r cronfeydd a ddelir gan y cyngor.

- datgelu gwerthoedd asedau yn anghywir. Ymhlith gwallau cyffredin eraill a nodwyd roedd y ffaith nad oedd y ffigur ar gyfer asedau yn y datganiadau cyfrifyddu yn cyd-fynd â'r gofrestr asedau neu fod ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn wedi'u hepgor o'r datganiadau cyfrifyddu, neu'r ffaith bod ffigurau cymharol wedi'u diwygio a oedd yn golygu nad oeddent yn cyd-fynd â chyfrifon archwiliedig y flwyddyn flaenorol, cam-ddosbarthu costau ac incwm yn ogystal â gwallau talgrynnu a rhifyddol.

- cynnwys cronfeydd elusennol yn amhriodol. Roedd nifer fach o gynghorau wedi cynnwys cyfrifon banc a thrafodion cronfeydd elusennol yn y datganiadau cyfrifyddu, sy'n mynd yn groes i'w dyletswyddau ymddiriedol fel ymddiriedolwyr. Mae hyn yn arwain at orddatgan balansau'r cyngor a chamddatgan incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn. Mae hefyd yn peri risg y caiff cronfeydd elusennol eu defnyddio at ddibenion y cyngor ac fel arall.

## Mae cynghorau yn cymhwyso adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn amhriodol fel y sail statudol ar gyfer gwariant pan fydd pŵer arall, mwy priodol ar gael

3.21 Fel corfforaethau statudol dim ond y cyfryw bwerau a roddir iddynt drwy statud sydd gan gynghorau. Mae adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi pwerau i'r cyngor wario hyd at swm rhagnodedig mewn unrhyw flwyddyn benodol er budd uniongyrchol ei ardal neu unrhyw ran ohoni neu er budd ei holl drigolion neu rai ohonynt. Pan fo darpariaeth statudol benodol yn bodoli, dylai'r ddarpariaeth honno gael ei chymhwyso yn hytrach nag adran 137.

3.22 Nododd yr archwilwyr 112 o gynghorau a oedd wedi cymhwyso pwerau adran 137 at eitemau o wariant pan oedd darpariaeth berthnasol a oedd yn bodoli ar gael.

## Ni chwblhaodd 270 o gynghorau y ffurflen flynyddol yn llawn cyn ei chyflwyno i'w harchwilio

3.23 Mae'r ffurflen flynyddol a baratoir gan gynghorau lleol wedi'i chynllunio i fod yn hawdd ei chwblhau ac mae'n cynnwys canllawiau ar gwblhau'r ffurflen flynyddol. Serch hynny, bob blwyddyn, mae'r archwilwyr yn nodi nad yw llawer o gynghorau yn cwblhau'r ffurflen flynyddol yn llawn.

3.24 Dylai pob cyngor sicrhau bod y ffurflen flynyddol yn cael ei chwblhau'n llawn a'i gwirio cyn iddi gael ei chyflwyno i'w harchwilio. Eir i gostau archwilio ychwanegol pan fydd angen i archwilwyr ddychwelyd y ffurflen flynyddol i gynghorau er mwyn iddynt ei chywiro neu ei chwblhau. Mae materion cyffredin a nodwyd yn 2017-18 yn cynnwys:

- methiant i gofnodi enw'r cyngor ar y ffurflen flynyddol;
- methiant i gofnodi ar y ffurflen y dyddiad a/neu lofnodion sy'n dangos bod y cyngor wedi cymeradwyo'r ffurflen; a
- methiant i ymateb i bob haeriad yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Unwaith eto, mae archwilwyr wedi tynnu sylw at yr angen i ddatblygu'r swyddogaeth archwilio mewnol ac ategir hyn gan ganfyddiadau fy astudiaeth genedlaethol o archwilio mewnol yn y sector

3.25 Mae gwaith archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r trefniadau rheolaeth fewnol y mae'n ofynnol i bob cyngor eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n flynyddol. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae archwilwyr allanol wedi gwneud sylwadau am bryderon sy'n ymwneud â threfniadau archwilio mewnol yn y sector, gan gynnwys:

- cylch gorchwyl anghyflawn neu ddim yn bodoli i'w archwilio'n fewnol mewn 61 o gynghorau. Mae'r cylch gorchwyl yn bwysig i gynghorau er mwyn iddynt ddeall cwmpas disgwyliedig y gwaith archwilio mewnol.
- er bod cynghorau yn gwneud haeriad yn y datganiad llywodraethu blynyddol fod trefniadau archwilio mewnol digonol ac effeithiol ar waith, gwnaed yr haeriad hwn gan 52 o gynghorau cyn bod archwilwyr mewnol wedi cyflwyno adroddiad ar eu gwaith. Dylai cynghorau ystyried digonolrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio mewnol unwaith eu bod wedi cael adroddiad yr archwilydd.
- ni chafodd 23 o gynghorau adroddiad gan eu harchwilydd mewnol yn nodi'r gwaith a wnaed a chanfyddiadau'r archwiliad.
- roedd y casgliadau a gofnodwyd gan archwilwyr mewnol yn anghyson â'r dystiolaeth a gawsant gan y cyngor.

3.26 Bydd y cynghorau hyn yn ei chael hi'n anodd dangos bod ganddynt system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol ar waith, a'u bod yn cael gwerth llawn gan y gwasanaeth hwnnw.

3.27 Yn 2018, cynheliais astudiaeth genedlaethol o archwilio mewnol mewn cynghorau cymuned a thref. Caiff yr adroddiad sy'n nodi canfyddiadau'r astudiaeth hon ei gyhoeddi ar 17 Ionawr 2019.

Rhan 4

Yn 2018, oherwydd diffygion sylweddol a nodwyd yn ystod yr archwiliad, arferais fy mhwerau statudol i gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd neu wneud argymhellion ysgrifenedig i wyth o gynghorau yng Nghymru



4.1 Fel rhan o'r archwiliad, mae dyletswydd arnaf o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) i ystyried a ddylai, er budd y cyhoedd, baratoi adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'm sylw yn ystod yr archwiliad, er mwyn iddo gael ei ystyried gan y corff, neu ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Mae gennyf bŵer statudol hefyd i roi argymhellion ysgrifenedig i gynghorau a'i gwneud yn ofynnol i'r cynghorau ystyried yr argymhellion hynny yn unol â darpariaethau penodol yn y Ddeddf. Pan fyddaf yn arfer y pwerau hyn, mae'n rhaid i gynghorau ystyried yr argymhellion mewn cyfarfod cyhoeddus a chyhoeddi eu hymateb i'r adroddiad neu'r argymhellion.

4.2 Er bod yr adroddiadau a'r argymhellion hyn wedi'u cyfeirio at gynghorau unigol, fel arfer mae gwersi y gellir eu cymhwyso at gynghorau eraill ledled Cymru. Felly, rwyf yn argymell y dylai pob cyngor ystyried y materion canlynol a ph'un a oes unrhyw rai o'r materion a godwyd o bosibl yn gymwys iddynt.

## Gall cynghorau cymuned a thref yng Nghymru ddysgu gwersi o'r adroddiadau er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd mewn saith cyngor yn ystod 2018

4.3 Fel arfer, disgwyliaf mai peth anarferol yw cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae cynghorau cymuned a thref yn gyfrifol am reoli cronfeydd cyhoeddus a phan fo methiannau sylweddol o ran rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau unigol, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig tynnu'r methiannau hyn at sylw'r gymuned y mae'r cynghorau yn ei gwasanaethu.

## Arddangosyn 11 – adroddiadau er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd yn 2018

Yn 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiadau er budd y cyhoedd mewn perthynas â naw cyngor cymuned

| Public interest reports issued in 2018 |
|---|
| Cyngor Cymuned Chwitffordd |
| Cyngor Cymuned Penalun |
| Cyngor Cymuned Tirymynach |
| Cyngor Cymuned Llanwnnen |
| Cyngor Cymuned Glantymyn |
| Cyngor Cymuned Cadfarch |
| Cyngor Cymuned Llanbrynmair |

4.4 Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn 2018 yn tynnu sylw at faterion sy'n codi dro ar ôl tro, gan gynnwys:

- methiannau hirsefydledig o ran rheoli ariannol a llywodraethu gan gynnwys methiant i ymateb i faterion a nodwyd yn flaenorol yn ystod yr archwiliad;
- methiant gan y cyngor i reoli ei glerc yn briodol;
- methiant gan y clerc i baratoi cyfrifon blynyddol a delio â'r archwilydd;
- y clerc yn cadw cofnodion cyfrifyddu anghyflawn;
- diffyg cofnodion am y gyflogres a methiant i weinyddu trefniadau trethu TWE yn briodol;
- colli incwm oherwydd methiannau i adhawlio TAW pan oedd y cyngor yn gallu ei hawlio; a
- threfniadau archwilio mewnol aneffeithiol neu dim trefniadau o'r fath.

4.5 Mae argymhellion ar gyfer gwella wedi cael eu gwneud i bob cyngor.

## Gall cynghorau hefyd ddysgu gwersi o'r argymhellion ysgrifenedig a gyhoeddwyd o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

### Cyngor Tref Machynlleth

4.6 Yn 2016, ymwrthododd y cyn-archwilydd penodedig â rhoi barn archwilio ar y cyfrifon ar gyfer y blynyddoedd ariannol rhwng 2009-10 a 2014-15 a chyhoeddodd gyfres o argymhellion ysgrifenedig i'r Cyngor. Cafodd canfyddiadau'r archwilydd eu crynhoi yn fy adroddiad ar Reoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned 2015-16. Mae adroddiad 2015-16 ar gael ar ein gwefan.

4.7 Yn ystod y cyfnod hwn, cyflogodd y Cyngor, fel ei glerc, yr un unigolyn y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiadau ar Gynghorau Cymuned Cadfarch, Glantwymyn a Llanbrynmair y cyfeirir atynt yn Arddangosyn 11. Fodd bynnag, penododd y Cyngor glerc newydd ar ddechrau 2018 ac yn y cyfnod ers i'r cyn-archwilydd penodedig gyhoeddi ei argymhellion ysgrifenedig, mae'r Cyngor wedi gwneud cryn gynnydd o ran mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd

4.8 Fodd bynnag, mae lle o hyd i wneud gwelliannau pellach ac felly rwyf wedi cyhoeddi rhagor o argymhellion ysgrifenedig mewn perthynas â chyfrifon 2015-16 a 2016-17.

4.9 Roedd cyfrifon 2015-16 yn cynnwys gwallau heb eu datrys oherwydd y diffygion yn y cofnodion a gadwyd gan y cyn-glerc. At hynny, nid oedd y cyn-glerc wedi gwneud y trefniadau priodol i baratoi ac ardystio'r cyfrifon yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru). Nododd archwiliad 2015-16 hefyd nad oedd y Cyngor yn cynnal gwefan a fyddai'n ei gwneud yn bosibl iddo gyhoeddi dogfennau y mae'n ofynnol eu cyhoeddi'n electronig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) 2013. O ganlyniad, gwnaed argymhellion ysgrifenedig i'r Cyngor ym mis Mehefin 2018 er mwyn mynd i'r afael â'r materion a oedd eto i'w datrys.

Rhan 5

Bydd archwiliadau cynghorau cymuned a thref ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae archwilwyr yn nodi cyfle i wella o ran trefniadau'r cyngor ac yn ystod y cyfnod hwn, byddaf yn adolygu fy null archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben



## Bydd fy rhaglen archwilio ar gyfer 2018-19 i 2020-21 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae lle i gynghorau lleol wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu

5.1 Ers 2015-16, bu'n ofynnol i bob cyngor gwblhau'r haeriadau a wneir mewn datganiad llywodraethu blynyddol dwy ran a nodir yn y ffurflen flynyddol a rhoi tystiolaeth i'w hategu.

5.2 Amcan y trefniadau archwilio newydd a gyflwynwyd ar gyfer 2015-16 yw ystyried ac asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu cynghorau lleol dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar themâu sydd wedi codi dro ar ôl tro fel rhan o'r cylch archwilio blynyddol a bwriedir iddynt helpu cynghorau i wella eu trefniadau, lle y bo angen, dros amser. Mae Arddangosyn 12 yn nodi fy amserlen arfaethedig bresennol ar gyfer themâu llywodraethu yn y dyfodol. Dylai cynghorau nodi y gall y rhain newid os bydd materion sylweddol yn codi o'r archwiliadau blynyddol.

### Arddangosyn 13 – themâu llywodraethu yn y dyfodol

Mae fy rhaglen archwilio arfaethedig ar gyfer themâu llywodraethu yn y dyfodol ar gyfer cynghorau lleol fel a ganlyn, ond gall newid os bydd rhagor o faterion yn codi.

| 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog<br><br>Dirprwyo i bwyllgorau | Trefniadau ar gyfer gwneud taliadau | Cyflogi staff<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

## Cydymffurfiaeth â rheolau sefydlog

5.3 Rheolau sefydlog yw rheolau ysgrifenedig cyngor lleol. Cânt eu defnyddio i gadarnhau gweithdrefnau trefniadol, gweinyddol a chaffael mewnol cyngor a materion gweithdrefnol ar gyfer cyfarfodydd. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n rhaid i bob cyngor lleol lunio rheolau sefydlog ar gyfer caffael contractau.

5.4 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae archwilwyr wedi nodi'n rheolaidd:

- nad yw rhai cynghorau wedi mabwysiadu unrhyw reolau sefydlog;
- mewn sawl achos, fod rheolau sefydlog wedi'u mabwysiadu beth amser yn ôl ac nad oeddent yn adlewyrchu'r ffordd y mae cynghorau unigol yn cynnal eu busnes mwyach; ac
- er bod cynghorau o bosibl wedi mabwysiadu rheolau sefydlog cyfredol, nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau sefydlog.

5.5 Pan na fydd cynghorau yn cydymffurfio â'u rheolau sefydlog, mae risg y gall trafodion sy'n deillio o'r fath achosion o dorri'r rheolau fod yn anghyfreithlon.

5.6 Felly, fel rhan o archwiliad 2018-19, bydd archwilwyr yn ceisio cadarnhau:

- a oes gan gynghorau reolau sefydlog cyfredol; ac
- a yw cynghorau yn cydymffurfio â'u rheolau sefydlog mewn perthynas â gwariant.

## Sefydlu pwyllgorau

5.7 O dan adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gall cynghorau ddirprwyo arfer rhai swyddogaethau i bwyllgorau o aelodau. Os gwnânt hynny, mae'n rhaid i'r cyngor ddirprwyo cyfrifoldebau penodol i'r pwyllgorau.

5.8 Mae archwilwyr allanol wedi nodi, mewn rhai achosion, nad oes gan bwyllgorau gylch gorchwyl dirprwyedig ffurfiol ac y gallant fynd i wariant heb awdurdod priodol gan y cyngor i wneud hynny. Pan fydd pwyllgorau yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithredu heb awdurdod y cyngor, efallai y byddant yn gweithredu 'ultra vires' ac yn mynd i wariant anghyfreithlon.

5.9 Felly, ar gyfer archwiliad 2018-19, bydd archwilwyr yn ystyried strwythur pwyllgorau pob cyngor a chadarnhau a yw pob pwyllgor wedi cael ei sefydlu'n briodol ac wedi cael cylch gorchwyl priodol.

## Yn 2019, caiff y trefniadau archwilio presennol eu hadolygu er mwyn penderfynu a ydynt yn parhau'n addas at y diben a disgwylir i unrhyw newidiadau i'r trefniadau o ganlyniad i hynny gael eu cyflwyno ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21

5.10 Cyflwynwyd y trefniadau archwilio presennol i archwilio cyfrifon 2015-16. Cafodd y trefniadau eu datblygu mewn ymateb i bryderon ynglŷn â diffygion systemig yn nhrefniadau'r sector ar gyfer rheoli ariannol a llywodraethu. Mae'r trefniadau archwilio presennol yn cynnwys rhaglen waith pum mlynedd i helpu pob cyngor i ddatblygu ei drefniadau ei hun er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac yn bodloni gofynion arfer gorau.

5.11 Mae archwiliad 2017-18 hanner ffordd drwy'r trefniadau presennol ac felly mae'n briodol cloriannu'r cynnydd a wnaed gan y sector ac ystyried a yw'r trefniadau archwilio presennol yn addas at y diben. Gellir ystyried bod y trefniadau yn addas at y diben os ydynt yn ddigonol i ganiatáu i mi gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a rhoi lefel briodol o sicrwydd i ddefnyddwyr y cyfrifon.

5.12 Fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau archwilio, caiff y dystiolaeth ganlynol ei hystyried:

- canlyniadau gwaith archwilio allanol ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 a 2017-18 fel y'u nodwyd yn fy adroddiadau blynyddol ar Reoli Ariannol a Llywodraethu yn y sector;
- adroddiadau er budd y cyhoedd a gyflwynwyd i gynghorau cymuned a thref ers 2015;
- adroddiadau ac argymhellion ysgrifenedig a gyhoeddir o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a gyhoeddwyd ers 2015; a
- chanlyniad fy astudiaeth genedlaethol o rôl yr archwilio mewnol yn y sector.

5.13 Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau yn 2019 a bwriadaf ymgynghori ar ganlyniad yr adolygiad ac unrhyw newidiadau i'r trefniadau archwilio ar ddiwedd 2019. Disgwylir i unrhyw newidiadau i'r trefniadau archwilio sy'n deillio o'r adolygiad gael eu rhoi ar waith ar gyfer archwiliad 2020-21.

# Atodiadau

Atodiad 1 – Cynghorau y mae eu hincwm a'u gwariant dros £200,000

Atodiad 2 – Archwiliadau anghyflawn ar 30 Tachwedd 2018

Atodiad 3 – Esboniad o'r fframwaith statudol ar gyfer materion archwilio cyffredin



# Atodiad 1 – Cynghorau y mae eu hincwm a'u gwariant dros £200,000[3]

| Cynghorau sy'n cyrraedd y trothwy o ran gwariant 2015-16 i 2017-18 |
|---|
| Cyngor Tref y Fenni |
| Cyngor Tref Aberystwyth |
| Cyngor Dinas Bangor |
| Cyngor Tref y Barri |
| Cyngor Tref Bae Colwyn |
| Cyngor Tref Biwmares |
| Cyngor Cymuned Blaenhonddan |
| Cyngor Tref Aberhonddu |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cyngor Tref Bwcle |
| Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon |
| Cyngor Cymuned Parc Caia |
| Cyngor Tref Cil-y-coed |
| Cyngor Tref Caerfyrddin |
| Cyngor Tref Cas-gwent |
| Cyngor Cymuned Coedffranc |
| Cyngor Cymuned Coedpoeth |
| Cyngor Tref Cei Connah |
| Cyngor Tref Conwy |
| Cyngor Tref Cwmaman |
| Cyngor Cymuned Cwmbrân |
| Cyngor Cymuned Gwersyllt |
| Cyngor Tref Hwlffordd |
| Cyngor Cymuned Penarlâg |
| Cyngor Tref Caergybi |
| Cyngor Tref Llandudno |
| Cyngor Cymuned Llanedi |
| Cyngor Cymuned Gwledig Llanelli[4] |
| Cyngor Tref Llanelli |
| Cyngor Cymuned Llangennech |
| Cyngor Cymuned Llannon |

3 Pan nad yw cynghorau wedi cyflwyno cyfrifon i'w harchwilio eto, rwyf wedi tybio y bydd incwm a gwariant ar yr un lefel ag mewn blynyddoedd blaenorol.

4 Wedi'u cynnwys er cyflawnder.

| Cynghorau sy’n cyrraedd y trothwy o ran gwariant 2015-16 i 2017-18 |
|---|
| Cyngor Cymuned Llantrisant |
| Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdre |
| Cyngor Tref Llanilltud Fawr |
| Cyngor Tref Machynlleth |
| Cyngor Tref Maesteg |
| Cyngor Tref Aberdaugleddau |
| Cyngor Tref yr Wyddgrug |
| Cyngor Tref Trefynwy |
| Cyngor Tref Castell-nedd |
| Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn |
| Cyngor Cymuned Pen-bre a Phorth Tywyn |
| Cyngor Tref Penarth |
| Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl |
| Cyngor Tref Pontypridd |
| Cyngor Tref Porthcawl |
| Cyngor Tref Prestatyn |
| Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog |
| Cyngor Tref y Rhyl |
| Cyngor Cymuned Tŷ-du |
| Cyngor Dinas Tyddewi |
| Cyngor Cymuned Tonyrefail a’r Cylch |
| Cyngor Tref y Trallwng |
| Cyngor Tref Ystradgynlais |

| Cynghorau sy’n cyrraedd y trothwy o ran gwariant 2016-17 i 2017-18 |
| --- |
| Cyngor Tref Abergele |
| Cyngor Tref Llanfair-Ym-Muallt |
| Cyngor Tref Dinbych |
| Cyngor Cymuned Trelales |

| Cynghorau sy’n cyrraedd y trothwy o ran gwariant yn 2017-18 yn unig |
| --- |
| Cyngor Cymuned Bracla |
| Cyngor Cymuned Cefn |
| Cyngor Tref y Fflint |
| Cyngor Tref Trefynwy |
| Cyngor Tref Cydweli |
| Cyngor Cymuned Llandybie |
| Cyngor Cymuned y Mwmbwls |
| Cyngor Tref Neyland |
| Cyngor Cymuned Offa |
| Cyngor Tref Penfro |
| Cyngor Tref Pontardawe |
| Cyngor Cymuned Pontyberem |
| Cyngor Cymuned Tal-y-bont ar Wysg |

# Atodiad 2 – Archwiliadau anghyflawn ar 30 Tachwedd 2018

| Ffurflenni blynyddol heb eu cyflwyno i'w harchwilio | |
|---|---|
| **Mae'r cynghorau canlynol wedi methu â chyflwyno eu ffurflen flynyddol ar gyfer 2017-18 i'r archwilydd** | |
| 1 | Cyngor Cymuned Blaengwrach |
| 2 | Cyngor Cymuned Cilcain |
| 3 | Cyngor Cymuned Clocaenog |
| 4 | Cyngor Cymuned Henryd |
| 5 | Cyngor Cymuned Llanpumsaint |
| 6 | Cyngor Cymuned Llanelli |
| 7 | Cyngor Cymuned Llanfairpwll |
| 8 | Cyngor Cymuned Llanfrothen |
| 9 | Cyngor Cymuned Llanilar |
| 10 | Cyngor Cymuned Nantcwnlle |
| 11 | Cyngor Cymuned Llannewydd a Merthyr |
| 12 | Cyngor Cymuned Pen-bre a Phorth Tywyn |
| 13 | Cyngor Tref Pwllheli |
| 14 | Cyngor Cymuned Rhaglan |
| 15 | Cyngor Cymuned Rhosyr |
| 16 | Cyngor Cymuned Sain Dunwyd |
| 17 | Cyngor Cymuned y Wig |

| Cynghorau nad ydynt yn cyfathrebu ag archwilwyr | |
|---|---|
| **Nid yw'r cynghorau canlynol, er eu bod wedi cyflwyno'r ffurflen flynyddol i'w harchwilio, wedi ymateb i geisiadau archwilwyr am ragor o wybodaeth, esboniad neu eglurhad** | |
| 1 | Cyngor Cymuned Betws Garmon |
| 2 | Cyngor Cymuned Betws Gwerfil Goch |
| 3 | Cyngor Cymuned Trefesgob |
| 4 | Cyngor Cymuned Bro Machno |
| 5 | Cyngor Cymuned Bryncrug |
| 6 | Cyngor Cymuned Croesyceiliog a Llanyrafon |
| 7 | Cyngor Cymuned Cyfflliog |
| 8 | Cyngor Cymuned Derwen |
| 9 | Cyngor Cymuned Henllan |
| 10 | Cyngor Cymuned Coed-llai |
| 11 | Cyngor Cymuned Llanaelhaearn |
| 12 | Cyngor Cymuned Llanbedrog |
| 13 | Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd |
| 14 | Cyngor Cymuned Llanberis |
| 15 | Cyngor Cymuned Llanfynydd |
| 16 | Cyngor Cymuned Llangwm |
| 17 | Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng- Nghinmeirch |
| 18 | Cyngor Cymuned Llanwnda |
| 19 | Cyngor Cymuned Llanysys |
| 20 | Cyngor Cymuned Tredegar Newydd |
| 21 | Cyngor Cymuned Penmaenmawr |
| 22. | Cyngor Cymuned Pennal |
| 23 | Cyngor Cymuned St Arvans |
| 24 | Cyngor Tref Brynbuga |

| Archwiliad(au) blynyddoedd blaenorol yn anghyflawn |
|---|
| **Mae gan y cynghorau canlynol archwiliadau blynyddoedd blaenorol sydd ar agor a chânt eu cwblhau unwaith y caiff materion y blynyddoedd blaenorol eu datrys** |

| | |
|---|---|
| 1 | Cydbwyllgor Claddu Abergele |
| 2 | Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd |
| 3 | Cyngor Cymuned Bethesda |
| 4 | Cyngor Cymuned Bodorgan |
| 5 | Cyngor Cymuned Cadfarch |
| 6 | Cyngor Cymuned Cynwyd |
| 7 | Cyngor Cymuned Glantwymyn |
| 8 | Cyngor Tref Glyn-nedd |
| 9 | Cyngor Cymuned Llanbrynmair |
| 10 | Cyngor Cymuned Llangristiolus |
| 11 | Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol |
| 12 | Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau |
| 13 | Cyngor Cymuned Llanwnnen |
| 14 | Cyngor Cymuned Maenclochog |
| 15 | Cyngor Tref Maesteg |
| 16 | Cyngor Cymuned Cwm Ogwr |
| 17 | Cyngor Cymuned Penalun |
| 18 | Cyngor Cymuned y Rhigos |
| 19 | Cyngor Cymuned Tirymynach |
| 20 | Cyngor Cymuned Tywyn |
| 21 | Cyngor Cymuned Chwitffordd |
| 22 | Cyngor Cymuned Ynysawdre |

## Materion archwilio i'w datrys

**Mae gan y cynghorau hyn faterion archwilio eto i'w datrys sy'n ymwneud ag archwiliad 2017-18 a chânt eu cwblhau unwaith y caiff materion eu datrys**

1 Cyngor Cymuned Aberporth
2 Cyngor Tref Rhydaman
3 Cyngor Cymuned Beulah
4 Cyngor Cymuned Bontnewydd
5 Cyngor Tref Bwcle
6 Cyngor Tref Llanfair-Ym-Muallt
7 Cyngor Cymuned Carreghofa
8 Cyngor Tref Cas-gwent
9 Cyngor Cymuned Clunderwen
10 Cyngor Tref Cei Connah
11 Cyngor Tref Conwy
12 Cyngor Tref Cricieth
13 Cyngor Cymuned y Faenor
14 Cyngor Tref Caergybi
15 Cyngor Cymuned Llancarfan
16 Cyngor Cymuned Llandyrnog
17 Cyngor Cymuned Llangefni
18 Cyngor Cymuned Llannor
19 Cyngor Cymuned Magwyr a Gwndy
20 Cyngor Cymuned Merthyr Mawr
21 Cyngor Cymuned y Mwmbwls
22 Cyngor Cymuned Penbryn
23 Cyngor Cymuned Pistyll
24 Cyngor Cymuned Port Eynon
25 Cyngor Cymuned Prestatyn
26 Cyngor Tref y Rhyl
27 Cyngor Cymuned Rhiwabon
28 Cyngor Tref Saltney
29 Cyngor Cymuned Saint-y-brid
30 Cyngor Cymuned Troedyraur
31 Cyngor Cymuned y Fan

# Atodiad 3 – Esboniad o'r fframwaith statudol ar gyfer materion archwilio cyffredin

## Cymeradwyo cyfrifon ac arfer hawliau etholwyr i archwilio dogfennau yn ystod yr archwiliad

Mae adran 30(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn darparu 'an interested person may inspect the accounts to be audited'. Mae copi o'r Ddeddf ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

Mae Rheoliad 15(2)(b) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol (cyngor) '[g]ymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w cyflwyno i'r archwilydd' ar ôl iddo eu hystyried. Mae copi o'r Rheoliadau hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

Felly, dim ond datganiadau cyfrifyddu sydd wedi cael eu cymeradwyo y gellir eu cyflwyno i'r archwilydd i'w harchwilio. Fel y cyfryw, mae'n rhaid i'r 'cyfrifon i'w harchwilio', y mae'n rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio gan etholwyr gael eu cymeradwyo gan y cyngor yn gyntaf.

## Gofynion ar gynghorau i weithredu Talu wrth Ennill

Nid oes angen i gyflogwyr gofrestru ar gyfer TWE os nad oes unrhyw un o'u cyflogeion yn cael eu talu £116 neu fwy yr wythnos, yn cael treuliau a buddiannau, yn dal swydd arall nac yn cael pensiwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt gynnal cofnodion y gyflogres o hyd.

Fel arall, mae rhwymedigaeth ar y cyflogwr i weithredu TWE, a gadarnhawyd yn adrannau 4 a 5 o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003. Mae copi o'r Ddeddf ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

Adran 684 o'r Ddeddf yw'r awdurdod ar gyfer Rheoliadau TWE sy'n ymdrin â thaliadau rheolaidd megis cyflogau arian parod, cyflogau neu bensiynau a delir gan gyflogwyr neu ddarparwyr pensiwn yn y DU. Mae Rheoliadau Treth Incwm (TWE) 2003 (Offeryn Statudol 2682/2003) yn nodi'n fanwl sut y bydd y system TWE yn gweithredu. Mae'r rheoliadau yn rhoi cyfrifoldebau ar gyflogwyr:

- mae Rheoliad 21 yn darparu 'On making a relevant payment to an employee during a tax year, an employer must deduct or repay tax in accordance…'
- mae Rheoliad 68 yn pennu faint o arian y mae'n rhaid i gyflogwr ei dalu i CThEM ar gyfer cyfnod treth.
- mae Rheoliad 73 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr gyflwyno ffurflen flynyddol i CThEM.

Mae'r Rheoliadau yn gosod rhwymedigaethau ar gyflogwr, nid y cyflogai nac unrhyw asiant na chyfryngwr i gyflogwr. Gall cyflogwyr ddefnyddio asiantau cyflogres, cyfreithwyr, cyfrifwyr, ac ati i'w helpu i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o ran TWE ond nid oes dim byd yn y ddeddfwriaeth na Rheoliadau TWE sy'n galluogi cyflogwr i ddianc rhag y cyfrifoldeb cyfreithiol i weithredu TWE ac yn erbyn y cyflogwr y bydd CThEM yn cymryd camau gorfodi oherwydd tandalu TWE. Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol sy'n caniatáu i gyflogai ddewis talu treth drwy hunanasesiad yn lle'r cyflogwr yn didynnu treth o dan TWE. Mae copi o'r Rheoliadau ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

Mae esboniad pellach ar gael hefyd ar wefan CThEM.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Chwefror 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol'

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Mae hwn yn pdf rhyngweithiol**
Defnyddiwch y botymau a ddangosir ar y tudalennau i lywio.

Rwyf wedi paratoi'r ddogfen hon er mwyn darparu crynodeb o'r gwaith a wnaed yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Tim Buckle dan gyfarwyddyd Huw Rees.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall fel unigolion, nac yng nghyswllt unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

**RHAN 1**

Mae angen egluro rolau a chyfrifoldebau mewn rhai cynghorau o hyd, ac mae hyn yn hanfodol er mwyn craffu'n llwyddiannus

**RHAN 2**

Mae llawer o gynghorau yn dal i gydnabod yr angen i wella'r trefniadau ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu, ond mewn nifer o gynghorau, bydd hyn yn gofyn am newid sylweddol yn yr ymarfer craffu

**RHAN 3**

Dylai Cynghorau fyfyrio ar ba mor drylwyr y maent yn blaenoriaethu ac yna'n cynllunio gweithgareddau craffu i wella eu heffaith

**RHAN 4**

Mae'n bosibl y bydd angen dull gweithredu gwahanol i gefnogi aelodau'r pwyllgor craffu i ymateb i heriau heddiw ac i'r dyfodol

**RHAN 5**

Gwerthuso effeithiolrwydd swyddogaethau craffu

**RHAN 6**

Dylai Llywodraeth Cymru a'r cynghorau ystyried goblygiadau'r themâu uchod ar drefniadau llywodraethu cynghorau a phartneriaethau

## Cefndir

Yn ystod 2017-18 fe wnaethom archwilio â'r 22 prif gyngor yng Nghymru pa mor 'barod at y dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Fe wnaethom ystyried sut mae cynghorau yn ymateb i'r heriau presennol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf Llesiant) o ran eu gweithgaredd craffu, yn ogystal â sut mae cynghorau yn dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Fe wnaethom hefyd archwilio sut sefyllfa y mae swyddogaethau trosolygu a chraffu cynghorau ynddi i ymateb i heriau'r dyfodol, megis y pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r symud posibl at weithio'n fwy rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

Cyflwynom adroddiadau ar wahân a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella i'r 22 prif gyngor. Yn y papur trafod hwn, cymerom y themâu allweddol a oedd yn codi o'n gwaith a'u cyflwyno fel rhestr gyfeirio y gall Cynghorau eu defnyddio i ystyried pa mor effeithlon ac effeithiol yw eu trefniadau.

## Themâu allweddol ar gyfer gwella effeithiolrwydd trefniadau trosolygu a chraffu

Drwy gyfrwng ein hadolygiad, fe wnaethom nodi chwe maes allweddol y credwn y gallai llawer o'r cynghorau fyfyrio arnynt er mwyn gwneud eu swyddogaethau craffu yn fwy effeithlon ac effeithiol. Dyma'r meysydd dan sylw:

## Mae angen egluro rolau a chyfrifoldebau mewn rhai cynghorau o hyd, ac mae hyn yn hanfodol er mwyn craffu'n llwyddiannus

Mewn rhai cynghorau erys o hyd gryn ddryswch a chamddealltwriaeth sylfaenol ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau trosolygu a chraffu yn ymarferol. Mae hyn i'w weld gliriaf mewn nifer o gynghorau lle mae uwch swyddogion fel arfer, yn hytrach nag aelodau'r Cabinet, yn bwrw cyfrif ac yn cael eu dwyn i gyfrif yng nghyfarfodydd y pwyllgor craffu. Un o rolau allweddol swyddogaethau craffu fel rhan o'r broses wleidyddol o reoli'r trefniadau yn llywodraeth leol Cymru yw dwyn y weithrediaeth i gyfrif am gyflawni swyddogaethau gweithredol yn effeithlon. Mae'n arwyddocaol felly fod sawl cyngor nad ydynt eto wedi dangos dealltwriaeth glir o hyn, er i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi Canllawiau[1] ar hyn yn 2006.

Gwelsom, er bod hynny i raddau llai, ddiffyg eglurder ynglŷn â rôl pwyllgorau craffu mewn amrywiol agweddau ar drefniadau llywodraethu cynghorau, ac ynglŷn â pham bod rhai eitemau/ gwybodaeth yn cael eu hystyried gan bwyllgorau craffu.

Canfuom hefyd, mewn nifer o gynghorau, na chaiff rhaglenni gwaith craffu eu cynllunio gan aelodau'r pwyllgor craffu, ac nad ydynt yn hawlio perchnogaeth drostynt. Mae hyn yn awgrymu diffyg dealltwriaeth ac felly berchnogaeth o'r swyddogaeth graffu ymysg cynghorwyr anweithredol.

Heb ystyried yn briodol a deall y rôl y mae pwyllgorau yn ceisio'i chyflawni a'r pwerau a'r dewisiadau sydd ar agor iddynt, mae'r rheini y mae'n gyfrifoldeb arnynt i drosolygu a chraffu dan anfantais sylfaenol. Gallent fod yn llawer llai tebygol o ddewis testunau priodol, a methodolegau priodol i'w harchwilio, a dod i gasgliadau effeithiol. Yn yr un modd, os nad yw'r aelodau cabinet sydd i gael eu dwyn i gyfrif, na'r swyddogion sy'n eu cefnogi ychwaith, yn glir ynglŷn â'u rolau, mae hyn hefyd yn debygol o lesteirio effeithiolrwydd y craffu. Mae o bosibl yn syndod ein bod wedi canfod rhai agweddau lle bo'r rolau yn aneglur mewn nifer o gynghorau, er bod 18 mlynedd wedi mynd heibio ers pasio Deddf Llywodraeth Leol 2000, ac er enghraifft 12 mlynedd ers i Ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatgan yn glir rai agweddau ar rolau sydd, yn ymarferol, yn dal i beri dryswch.

### Pa gamau y gallai cynghorau eu cymryd?

Dylai cynghorau ystyried a oes gan yr aelodau etholedig a'r swyddogion ddealltwriaeth gadarn o'r rolau a'r cyfrifoldebau. A beth mae hyn yn ei olygu o safbwynt y ffordd y caiff cefnogaeth a swyddogaethau craffu eu strwythuro; a sut caiff gweithgareddau craffu eu cynllunio a'u cynnal.

1 Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen 2006, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1 2 3 4 5 6

## Mae llawer o gynghorau yn dal i gydnabod yr angen i wella'r trefniadau ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu, ond mewn nifer o gynghorau, bydd hyn yn gofyn am newid sylweddol yn yr ymarfer craffu

"Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn cydnabod bod y graddau y mae pwyllgorau craffu yn sicrhau y caiff lleisiau pobl leol eu clywed fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau lleol yn faes y mae angen ei wella. Yn ystod yr astudiaeth, cyfeiriodd rhai cynghorau at yr angen i ddatblygu strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes craffu, yn ogystal â'r angen i wella'r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynllunio gwaith craffu. Cydnabu cynghorau hefyd fod ehangu a gwella trefniadau ymgysylltu â phartneriaid yn faes i'w ddatblygu."[2]

Daw'r dyfyniad uchod o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar yr Astudiaeth Gwella Craffu 'Craffu Da? Cwestiwn Da' a gyhoeddwyd yn 2014. Er hyn, mae cynghorau yn dal i gydnabod bod yr angen i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth drosolygu a chraffu yn faes y mae arnynt angen ei wella. Ceir digon o esiamplau o gynghorau yn ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o weithgaredd craffu wedi'i gynllunio, ond mae gwell technolegau cyfathrebu, twf y cyfryngau cymdeithasol a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd oll yn golygu y ceir cyfleoedd newydd i ymgysylltu â chymunedau yn ogystal â drwy ddulliau mwy 'traddodiadol'. Mae'r Ddeddf Llesiant hefyd yn mynnu bod cynghorau yn 'cynnwys' cymunedau er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gall pwyllgorau craffu chwarae rôl bwysig i helpu a herio aelodau gweithredol i wneud hyn.

### Pa gamau y gallai cynghorau eu cymryd?

Yng ngoleuni'r heriau presennol ac i'r dyfodol, mae gan gynghorau gyfle i ail-werthuso'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai mynd ati i ailfeddwl yn gyfan gwbl ynglŷn â'r ffordd y maent yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau craffu yn helpu i gyflawni hyn. Fel rhan o hyn gallent ystyried:

- diffinio'n glir eu huchelgeisiau i geisio ymgysylltu â'r cyhoedd wrth drosolygu a chraffu;
- sut gall gwell technoleg eu helpu i ymgysylltu'n rhwyddach ac yn fwy cost-effeithiol;
- a yw'r ffordd y mae swyddogaethau craffu yn 'gweithredu' yn ffafriol i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyhoedd a chynnwys rhanddeiliaid eraill; ac
- a ydynt yn meddu ar y gefnogaeth briodol o ran swyddogion sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad iawn yn ogystal â rhaglen o hyfforddiant, datblygu a chefnogaeth TGCh i aelodau fel bod y swyddogaethau craffu yn gallu ymgysylltu'n briodol ac yn rhagweithiol â'r cyhoedd.

2 Craffu Da? Cwestiwn Da! – Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol

## Dylai Cynghorau fyfyrio ar ba mor drylwyr y maent yn blaenoriaethu ac yna'n cynllunio gweithgareddau craffu i wella eu heffaith

Yn y rhan fwyaf o gynghorau, gwelsom mai'r dull diofyn o gynllunio gwaith oedd bod yn gallu dewis nifer o destunau, ac yna gofyn i adroddiadau gan swyddogion ar y testunau hynny gael eu cyflwyno gerbron cyfarfodydd y pwyllgor llawn. Ar gyfer grwpiau gorchwyl a gorffen, fe welir yn nodweddiadol fwy o waith cynllunio ac ystyried dulliau, ond fel arfer gwneir hyn ar gyfer nifer cymharol fechan o eitemau o'i gymharu â nifer yr adroddiadau swyddogion sy'n cael eu paratoi. Fel y gwelsom uchod, ceir mewn rhai cynghorau o hyd ddiffyg ymwybyddiaeth sylfaenol bod aelodau'r pwyllgor craffu yn gallu llunio eu rhaglenni eu hunain. Mae nifer yr eitemau ar raglenni gwaith/eitemau ar yr agenda yn amrywio, ond yn gyffredinol mae llawer o bwyllgorau o bosibl yn dal i geisio ystyried gormod ond heb wneud hynny'n ddigon manwl; mae hyn yn ei dro yn cyfyngu ar eu gallu i gasglu tystiolaeth o amrywiol ffynonellau. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt esgor ar atebion sydd â thystiolaeth dda iddynt ar gyfer y problemau a welwyd. Gallai'r datblygiadau mewn technoleg, a'r potensial i gasglu safbwyntiau, data a thystiolaeth ar ffurfiau eraill yn gyflymach ac yn fwy cost-effeithiol, ddarparu cyfleoedd i hysbysu gwaith y swyddogaethau craffu yn well. Pan ofynnom i'r cynghorau am enghreifftiau o weithgareddau craffu sydd wedi cael effaith sylweddol, ni allent yn aml ond cyfeirio at ychydig o esiamplau dros nifer o flynyddoedd. Canfuom hefyd fod y rhan fwyaf o'r esiamplau yn tueddu i gynnwys gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen neu debyg, er gwaetha'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau craffu yn cael eu cynnal drwy dderbyn adroddiadau gan swyddogion yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Heblaw'r ffaith mai ychydig o effaith a gaiff y dull hwn, mae'n cymryd llawer iawn o amser ac adnoddau i baratoi a chyflwyno'r adroddiadau niferus. Ceir cwestiwn amlwg y dylai'r cynghorau ofyn iddynt eu hunain ynglŷn â gwerth am arian y dull hwn.

### Pa gamau y gallai cynghorau eu cymryd?

Dylai cynghorau ystyried a yw'r ffordd y caiff gweithgareddau craffu eu cynllunio a'u cynnal:

- yn cael ei blaenoriaethu'n ddigon dda, gan ystyried faint o amser ac anoddau y bydd eu hangen o bosibl i graffu ar destunau'n 'briodol', ar sail methodoleg briodol ac, felly, y goblygiadau o ran faint o eitemau y gall pwyllgorau eu hystyried yn briodol;
- yn rhoi ystyriaeth briodol i'r dewisiadau a'r dulliau y gellid eu defnyddio i graffu ar bob testun, yn hytrach nag ar rai testunau yn unig;
- yn cyd-fynd â rolau a chanlyniadau arfaethedig y swyddogaeth graffu, a bod y testunau a'r methodolegau a ddewisir yn cael eu dylunio i gyflawni yn erbyn y rhain, yn hytrach na throi'n 'ddiofyn' at ystyried y rhan fwyaf o eitemau yn y pwyllgor llawn ar ffurf adroddiadau swyddogion; ac
- yn mynd ati i ystyried sut gellid defnyddio egin-dechnolegau i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer craffu, i hysbysu'r broses o ddewis testunau wrth lunio'r rhaglen waith, a chanfyddiadau ac argymhellion y gwaith craffu.

## Mae'n bosibl y bydd angen dull gweithredu gwahanol i gefnogi aelodau'r pwyllgor craffu i ymateb i heriau heddiw ac i'r dyfodol

Mae'n amserol i gynghorau adolygu'r math o hyfforddiant a chefnogaeth graffu a ddarparant i aelodau'r pwyllgor trosolygu a chraffu. Byddem yn awgrymu y ceir dau reswm am hyn. Yn gyntaf oherwydd, yn y cynghorau hynny lle mae'r rolau yn dal yn aneglur (gweler uchod) ar ôl dau ddegawd bron, mae'n bosibl y bydd angen ffordd wahanol o gefnogi aelodau i ddeall eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u pwerau o safbwynt y swyddogaeth graffu. Yn ail, dylai cynghorau sicrhau eu hunain y gallant wneud y gorau o'r cyfleoedd, a lliniaru'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol, technolegau newydd, disgwyliadau cynyddol y cyhoedd, rolau newydd ar gyfer pwyllgorau craffu (ee o safbwynt Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) a'r llu o newidiadau eraill sy'n cael effaith, ac y byddant yn dal i gael effaith ar swyddogaethau craffu. Rydym yn sylweddoli bod cynghorau dan gryn bwysau ariannol, ac ni fwriadwn i hyn ymwneud o anghenraid â chynyddu'r adnoddau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer swyddogaethau craffu, ond fe allai ymwneud â defnyddio adnoddau mewn ffordd wahanol a/neu wella'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

### Pa gamau y gallai cynghorau eu cymryd?

Dylai cynghorau ystyried:

- beth mae eu swyddogaethau craffu yn ceisio'i gyflawni, ac a fydd y trefniadau cefnogaeth swyddogion presennol a'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu helpu i gyflawni hyn;
- a oes angen gwella sgiliau swyddogion sy'n gweithio i gefnogi'r pwyllgor craffu;
- gweithio'n fwy effeithio â rhannau eraill y cyngor a/neu sefydliadau eraill i wella'r dewis o sgiliau a gwybodaeth sydd ar gael i gefnogi'r pwyllgor craffu; ac
- ail-ddylunio'r rhaglenni hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau'r pwyllgor craffu.

## Gwerthuso effeithiolrwydd swyddogaethau craffu

Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau yn ystyried fel mater o drefn effeithiolrwydd ac effaith eu swyddogaethau craffu o'i gymharu â faint o adnoddau, o ran arian ac amser, sy'n cael eu neilltuo ar eu cyfer. Edrychom ar nifer o 'Adroddiadau Blynyddol' ar graffu a gweld eu bod yn aml yn 'disgrifio' y gwaith a wnaeth y pwyllgorau, neu'r testunau y bu'r pwyllgorau yn eu hystyried, yn hytrach nag yn 'gwerthuso' effeithiolrwydd y trefniadau a'r effaith a gawsant.

## Pa gamau y gallai cynghorau eu cymryd?

Ac ystyried rhai o'n sylwadau uchod sy'n awgrymu bod rolau yn dal i fod yn aneglur, ac y ceir dull 'traddodiadol' o ddewis testunau craffu mewn llawer o gynghorau, gallai cynnal adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd y trefniadau y gweithredir arnynt yn ddiweddarach fod yn un ffordd allweddol o roi sylw i rai o'r problemau hyn sydd i'w gweld ers tro byd.

## Dylai Llywodraeth Cymru a'r cynghorau ystyried goblygiadau'r themâu uchod ar drefniadau llywodraethu cynghorau a phartneriaethau

O ganlyniad i'r themâu uchod, mae'r trefniadau craffu mewn llawer o gynghorau wedi methu â chyrraedd eu potensial ac nid ydynt eto yn dwyn yr unigolion sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif yn effeithiol nac er enghraifft yn esgor ar atebion sydd iddynt dystiolaeth dda i broblemau a welwyd. Mae gan hyn oblygiadau i gadernid trefniadau hunan-arfarnu a llywodraethu'r cynghorau eu hunain. Ac, yn enwedig yng ngoleuni'r Ddeddf Llesiant, i allu aelodau pwyllgorau craffu i ddwyn swyddogion gweithredol y cyngor a phartneriaid eraill i gyfrif, ac yn benodol craffu ar BGCau yn effeithiol.

### Pa gamau y gallai cynghorau a Llywodraeth Cymru eu cymryd?

Dylai Cynghorau a Llywodraeth Cymru fyfyrio ar:

- i ba raddau y gallant ddibynnu ar swyddogaethau craffu awdurdodau lleol ar eu ffurf bresennol; a
- beth allai hyn olygu i'r disgwyliadau sy'n cael eu gosod ar swyddogaethau craffu yn nhrefniadau rheoli a llywodraethu'r Cyngor ei hun ac mewn unrhyw arweiniad cysylltiol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660
We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

**Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13 Mawrth 2019

Annwyl Gadeirydd

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 18 Chwefror, cytunais i ysgrifennu atoch o roi rhagor o wybodaeth ichi ynglŷn â chreu a chynnal y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC).

Yn 2013, wrth greu'r GCC, roedd disgwyl y byddai angen i'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth gael ei gynnal yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Yn wir, roedd hynny'n gliryn yr Achos Busnes ar gyfer datblygu'r GCC. Oherwydd hynny, cafodd Cronfa Buddsoddi i Arbed ad-daladwy o £5.92 miliwn ei chymeradwyo am dair blynedd, o 2013/14 i 2015/16, er mwyn sefydlu'r gwasanaeth.

Er y bu cynnydd sylweddol mewn incwm dros amser wrth i fframweithiau'r GCC a oedd yn yr arfaeth gael eu datblygu, roedd yn amlwg erbyn 2016 y byddai dal angen rhagor o gymorth canolog i gynnal y gwasanaeth yn y tymor canolog. Yn ystod y tair blynedd weithredol rhwng 2016/17 a 2018/19, mae £5.1 miliwn o gyllid wrth gefn wedi'i gymeradwyo, er bod y cyfraniad wedi lleihau o'r naill flwyddyn i'r llall wrth i incwm y GCC gynyddu. Mae disgwyl i'r GCC sicrhau dros £1.3 miliwn o incwm yn 2018/19, sef cynnydd o dros 50% o gymharu â'r flwyddyn gynt.

Ni ddylid ystyried y buddsoddiadau hyn gan Lywodraeth Cymru ar eu pen eu hunain; bydd gwahanol elfennau, gan gynnwys rhai costau staff, TGCh a chyfleusterau yn parhau yn ystod cam datblygu nesaf y GCC.

Hefyd, er mwyn rhoi'r buddsoddiadau yn eu cyd-destun, dros y chwe blynedd y bu'r GCC yn weithredol, mae wedi sicrhau cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall yn y cysylltiadau â sefydliadau sy'n gwsmeriaid, a'r flwyddyn ariannol hon, mae disgwyl iddo ragori ar y gwariant o £300 miliwn a ragwelwyd ar gyfer y fframweithiau. Mae'r manteision a gofnodwyd i wasanaethau cyhoeddus Cymru drwy'r trefniadau hyn wedi cyrraedd cyfanswm o £18 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn unig, ac o'r 670 o gyflenwyr oedd yn rhan o fframweithiau'r GCC, mae bron hanner ohonynt yng Nghymru erbyn hyn.

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn / Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@llyw.cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Ar ben hynny, mae'r asedau anniriaethol a ddaeth i ran y gwasanaeth drwy ddatblygu fframweithiau, creu gweithlu medrus a chryfhau rhwydweithiau caffael ledled Cymru, wedi bod yn blatfform gwerthfawr at y dyfodol. Yn wir, bydd yr elfennau hyn yn hanfodol er mwyn helpu i sicrhau y bydd y gwasanaeth newydd yn addas at y diben ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Yn gywir



**ANDREW SLADE**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Public Accounts Committee**

**PAC(5)-09-19 Paper 7 25 March 2019**

**Governance Review of Betsi Cadwaladr University Health Board: Lessons Learnt**

**Additional Information from Betsi Cadwaladr University Health Board(BCUHB)**

During the evidence session held on 4 March, BCUHB agreed to provide the following information:

- BCUHB currently has 14 managed GP practices – 6 located in Wrexham, 2 in Conwy and the others in Blaenau Ffestiniong, Prestatyn/Rhuddlan, Holywell, Criccieth, Colwyn Bay and Porthmadog.

- In respect of approved GPs available for out of hours work – should a doctor not on the Wales approved list wish to work in BCUHB out of hours services, then we would permit this if they were already on the England list. However, this would only be feasible if there was sufficient time to meet the necessary requirements i.e the individual would need also to be placed on the Wales list via a fast-track process and acceptable references would need to be obtained. This could prove difficult at short notice. In practice, this situation does not arise, most likely due to the fact that there are sufficient opportunities in England for GPs to secure the same type of work, but with less travel and without the need to go through the process to be placed on the Wales list.

BCUHB 15 March 2019

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

**Cyfeirnod:** AC/092/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 7 Mawrth 2019

Annwyl Gydweithiwr

## Ymgynghoriad ynghylch rhaglen waith dair-blynedd i'r dyfodol

Yn ystod Rhagfyr 2018 a Ionawr 2019, bûm yn ymgynghori ar gynigion i fod yn sail ar gyfer datblygu rhaglen waith archwilio dair-blynedd. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r llu o sefydliadau ac unigolion a atebodd.

Fe eglurais ar y pryd, gan mai hon yw fy rhaglen waith gyntaf fel Archwilydd Cyffredinol, fy mod yn awyddus i sicrhau ei bod yn ymdrin â'r materion mawr sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru, a'i bod hefyd yn ein galluogi ni i gynnig sylwebaeth fanwl ar lywodraethu, rheoli a darparu gwasanaethau. Roedd y cynigion yr oeddwn yn ymgynghori yn eu cylch wedi eu hangori yn y themâu canlynol:

- Risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru, megis cyni, newidiadau demograffig, Brexit, trawsnewid digidol a'r gwasanaethau cyhoeddus;
- Llywodraethu a rheoli cyrff cyhoeddus Cymru; a
- Chyflawni rhaglenni, prosiectau a gwasanaethau allweddol.

Gwahoddwyd oddeutu 180 o sefydliadau neu unigolion i roi eu barn a derbyniasom gyfanswm o 55 o atebion. Daeth yr atebion hynny'n bennaf oddi wrth sefydliadau yr ydym yn eu harchwilio ond hefyd o amrywiaeth o ffynonellau eraill gan gynnwys cyrff cynrychioliadol, y trydydd sector, aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a thimau clercio pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, yr undebau a chyrff proffesiynol.

Bu'r atebion a dderbyniasom yn gymorth i ni flaenoriaethu nifer o'r astudiaethau arfaethedig, a dangosent gefnogaeth / diddordeb mewn amrywiaeth eang o'r testunau yr oeddem wedi eu cynnwys yn ein hymgynghoriad. Heb fod yn syndod, roedd cydbwysedd yr atebion, i ryw raddau, yn adlewyrchu perthnasedd uniongyrchol i'r sefydliadau oedd yn ymateb. Er hynny, mae'n glir fod llawer o'r rheiny a atebodd yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar sail traws-sector a chan edrych fwy nag un flwyddyn ymlaen. Ochr yn ochr â'r atebion i'r ymgynghoriad, mae fy syniadau ynghylch y ffordd y byddwn yn datblygu ein gwaith wedi bod yn seiliedig ar y llu mawr o sgyrsiau y bûm yn eu cael dros y chwe mis diwethaf â Phrif

Weithredwyr ac uwch swyddogion ar draws y cyrff a archwilir gennym a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid.

Pwysleisiais, fel rhan o'r ymgynghoriad, bwysigrwydd cadw hyblygrwydd o fewn fy rhaglen er mwyn ymateb i unrhyw faterion sy'n codi neu rai annisgwyl. Er hynny, bydd mapio cynllun tymor canol ar gyfer fy ngwaith yn rhoi golwg gliriach ymlaen i'r amrywiol randdeiliaid. Byddaf yn rhoi manylion llawnach am fy nghynlluniau dros y cyfnod o dair blynedd yn dilyn rhagor o weithgaredd ymgysylltu.

Yn y cyfamser, rwyf wedi cynnwys atodiad i'r llythyr hwn sy'n rhoi trosolwg ar waith newydd y bwriadaf ei ddatblygu yn 2019-20 fel rhan o'm rhaglen o astudiaethau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gwaith archwilio lleol thematig ar draws sectorau penodol a gwaith i ddilyn i fyny ar astudiaethau blaenorol. Er mwyn cyflawnrwydd, rwyf hefyd wedi rhoi manylion am waith oedd yn mynd ymlaen cyn yr ymgynghoriad, fydd yn rhedeg i mewn i 2019-20.

Wrth benderfynu ar y cynlluniau penodol ar gyfer darnau unigol o waith, byddwn yn ystyried sylwadau a godwyd drwy'r ymgynghoriad ac yn cysylltu â phartïon allanol perthnasol. Peidiwch ag oedi, os gwelwch yn dda, rhag cysylltu â ni os oes gennych unrhyw sylwadau pellach ynghylch y testunau yr ydym wedi eu blaenoriaethu ar gyfer 2019-20, y dymunech inni eu cymryd i ystyriaeth.

Eglurais, fel rhan o'r ymgynghoriad, fy mod yn awyddus i lunio adroddiadau byrrach a mwy miniog, defnyddio dadansoddiad data i raddau mwy helaeth, cyhoeddi mwy o sylwebaeth mewn amser real ar y materion o bwys sy'n wynebu'r gwasanaethau cyhoeddus, a defnyddio cyfryngau gwahanol i gyfleu ein negeseuon. Nod ehangach hyn oll yw manteisio ar ein persbectif, ein dealltwriaeth a'n sylfaen unigryw o wybodaeth, gan adeiladu ar yr enw da sydd gennym eisoes a bod yn fwy gweladwy yn y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio ynghyd â phobl Cymru yn fwy cyffredinol. Rydym eisoes yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd oddi wrth enghreifftiau cadarnhaol diweddar i fod o gymorth i ddatblygu ein dulliau yn y dyfodol, gan gynnwys teilwra mwy o'n gwaith i adlewyrchu safbwyntiau dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

Unwaith eto, rwyf yn dra diolchgar am yr amser a dreuliwyd yn ystyried ac yn ymateb i'n hymgynghoriad ac edrychaf ymlaen at gydweithio gyda chi wrth i ni symud ein rhaglen archwilio yn ei blaen.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad: Rhaglen waith astudiaethau cenedlaethol 2019-20

## Gwaith oedd wedi cychwyn eisoes cyn yr ymgynghoriad diweddar[1]

| | |
|---|---|
| **Gwella llesiant pobl ifanc** | Rydym yn tynnu data at ei gilydd i roi trosolwg ar dueddiadau perthnasol a byddwn hefyd yn tynnu sylw at wersi allweddol i Lywodraeth Cymru eu dysgu ar sail ein hadolygiad o faterion gan gynnwys rhieni ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc, digartrefedd, iechyd meddwl, swyddi a sgiliau. |
| **Gwasanaethau Gofal Sylfaenol** | Yn dilyn ymlaen o'n Hadroddiad Darlun o Ofal Sylfaenol, byddwn yn adeiladu ar waith archwilio lleol i ystyried a yw byrddau iechyd mewn lle da i weithredu'r weledigaeth strategol ar gyfer gofal sylfaenol. |
| **Cronfa Gofal Integredig** | Mae'r adolygiad traws-sector hwn wedi ystyried a yw'r Gronfa Gofal Integredig yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n cyflawni canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau. |
| **Gwasanaethau Orthopedig** | Rydym yn dilyn i fyny ein hadroddiad yn 2015 er mwyn edrych yn fanwl ar y graddau y mae argymhellion archwiliadau blaenorol wedi cael eu gweithredu ar lefel genedlaethol a lleol. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar wasanaethau dewisol, er y bydd effaith galw brys / heb ei gynllunio ar y gwasanaethau hyn hefyd yn cael ei ystyried. |
| **Trefniadau llywodraethu ansawdd yng nghyrff y GIG** | Fel estyniad i'n gwaith **asesu strwythuredig** yng nghyrff y GIG rydym yn archwilio trefniadau llywodraethu ansawdd yng nghyrff y GIG, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y trefniadau sy'n sail i waith pwyllgorau ansawdd a diogelwch. |



[1] Mae'r rhestr hon yn cynnwys gwaith oedd wedi cychwyn eisoes cyn yr ymgynghoriad, fydd yn rhedeg i mewn i 2019-20.

| | |
|---|---|
| **Mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol** | Yng nghyd-destun Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a'r strategaeth genedlaethol, mae'r gwaith hwn yn ystyried a yw awdurdodau yn cydweithio'n effeithiol gyda'u partneriaid i atal trais yn erbyn merched a cham-drin domestig. |
| **Gwasanaethau cynllunio** | Yng nghyd-destun Deddf Gynllunio (Cymru) 2015, mae'r gwaith hwn yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau cynllunio lleol yn darparu eu gwasanaethau cynllunio ac a yw'r gwasanaethau yn cefnogi datblygiad cynaliadwy ac yn darparu ar gyfer llesiant cymunedau lleol yn y tymor hir. |
| **Asesiadau pwynt cyswllt cyntaf** | Mae'r gwaith hwn yn ystyried a yw asesiadau pwynt cyswllt cyntaf a phrosesau awdurdodau lleol yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| **Gwella ffordd A465 (Adran 2)** | Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn yng nghyd-destun pryderon ehangach ynghylch gor-redeg o safbwynt cost ac amser. Ein bwriad yw cyhoeddi adroddiad 'canfyddiadau interim' cychwynnol. |
| **Llesiant cenedlaethau'r dyfodol** | Byddwn yn parhau gyda gwaith i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i archwilio ac adrodd ar y graddau y mae cyrff cyhoeddus perthnasol wedi gweithredu yn unol ag 'egwyddor datblygu cynaliadwy' wrth osod a chymryd camau i gwrdd ag 'amcanion llesiant'. |

Gwaith newydd y bwriadwn ei ddatblygu yn 2019-20, gan adeiladu ar yr ymgynghoriad[2]

| | |
|---|---|
| **Darlun o'r gwasanaethau cyhoeddus** | Bwriadwn fabwysiadu hyn fel thema ar gyfer darnau gwahanol o waith seiliedig ar sylwebaeth dros gyfnod o dair blynedd.<br>Gan adlewyrchu cynigion a eglurwyd yn yr ymgynghoriad ar ein rhaglen waith, yn 2019-20 gallai hyn gynnwys cynlluniau ar gyfer gwaith ar **ddadansoddiad gwariant cymharol y DU** a sylwebaeth ar **ddulliau newidiol o gyflawni gwasanaethau cyhoeddus.** Gallai hefyd gynnwys sylwebaeth bellach ar **Gyllid y GIG.** |
| **Brexit** | Yn dilyn ein hadroddiad ym mis Chwefror 2019, byddwn yn gwneud gwaith pellach i ystyried sut mae cyrff cyhoeddus yn ymateb i oblygiadau, risgiau a chyfleoedd Brexit.<br>Mae hyn yn debygol o barhau fel thema wedyn ar gyfer gwaith pellach yn 2020-21 a 2021-22. |
| **Atal twyll a llygredd** | Rydym eisoes yn datblygu gwaith i roi adroddiad trosolwg cychwynnol fel sail i ymchwiliad cynlluniedig gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Efallai y byddwn wedyn yn datblygu gwaith pellach i ystyried effeithiolrwydd trefniadau cyrff cyhoeddus yn fanylach. |
| **Gweinyddu cyllid myfyrwyr** | Bwriadwn ystyried materion yn ymwneud â gweinyddiaeth gyffredinol system cyllid myfyrwyr, gan gynnwys gweithredu'r trefniadau newydd a gyflwynwyd o fis Medi 2018 a gwaith Llywodraeth Cymru ar fodelu ad-daliadau yn y dyfodol. Efallai y bydd y gwaith hwn hefyd yn tynnu ar ganlyniadau'r gwaith cydweddu data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol. |

[2] Efallai y bydd yna hefyd allbynnau ychwanegol drwy gydol 2019-20 yn codi o waith dilynol arall ar bynciau archwilio blaenorol, o archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion oedd yn bryder i'r cyhoedd neu'r senedd, neu o waith archwilio perfformiad lleol lle bo materion neu ddysgu o berthnasedd ehangach.

| | |
|---|---|
| **Tlodi tanwydd / effeithlonrwydd ynni** | Bydd y gwaith hwn yn edrych ar gynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Bydd y gwaith yn golygu edrych ar y modd y mae rhaglenni tlodi tanwydd / effeithlonrwydd ynni cartrefi yn integreiddio gyda gwaith gwrth-dlodi ehangach. |
| **Gweithlu Llywodraeth Cymru** | Byddai'r astudiaeth hon yn edrych ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ei gweithlu yng ngoleuni'r ffordd y mae'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo yn newid. Efallai y byddwn yn ymestyn y gwaith i ystyried materion ehangach ynghylch rheoli gweithlu. |
| **TGCh Llywodraeth Cymru** | Byddai'r gwaith hwn yn edrych ar y sail i benderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu ei gwasanaeth TG craidd i mewn yn gynnar yn 2019, gan gynnwys y costau a'r buddion disgwyliedig ynghyd â'r graddau y mae'r trefniadau newydd yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau. |
| **Gwytnwch digidol** | Fel y disgrifiwyd yn ein hymgynghoriad, byddai hwn yn edrych ar y modd y mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau bod eu systemau TG yn wydn, yn gadarn ac yn ddiogel fel, pe digwyddai rhywbeth difrifol, y gellid adfer systemau yn gyflym ac y gallai'r gwasanaethau barhau i redeg. Gallai hefyd ymgorffori rhai materion mwy cyffredinol, yn adlewyrchu'r cynnig yn ein hymgynghoriad, ar **reoli asedau TGCh**. |
| **System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)** | Fe wnaethom gyffwrdd â chynlluniau ar gyfer y WCCIS yn ein hadroddiad yn 2018 ar systemau gwybodeg yn GIG Cymru. Bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar effeithiolrwydd y trefniadau gweithredu cenedlaethol a lleol a bydd yn ystyried a yw'r buddsoddiad hyd yma wedi rhoi gwerth am arian. Yn ein hymgynghoriad, nodwyd hwn fel pwnc posibl ar gyfer y cyfnod 2020-21 neu 2021-22, ond bwriadwn ddod â hwn ymlaen. |
| **Effaith cyni ar wasanaethau dewisol awdurdodau lleol** | Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar farnu pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn deall, yn cynllunio ar gyfer ac yn cwrdd ag anghenion y bobl hynny sydd angen gwasanaethau dewisol. Bydd yr adolygiad yn edrych ar faint y newidiadau sydd wedi digwydd mewn darpariaeth yn ôl disgresiwn ar draws awdurdodau lleol Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Cynaladwyedd ariannol mewn llywodraeth leol** | Byddwn yn cynnal gwaith archwilio lleol ar draws yr holl awdurdodau lleol ar y pwnc hwn. Bydd y gwaith hwn yn archwilio strategaeth ariannol tymor canol a thymor hir, rheolaeth y gyllideb, pwysau costau, cynlluniau effeithlonrwydd ac arbedion, a lefelau cyllid wrth gefn a'r defnydd ohono. Disgwyliwn adrodd am ganfyddiadau'r gwaith hwnnw mewn rhyw ffordd ar lefel genedlaethol. |
| **Masnacheiddio mewn awdurdodau lleol** | Bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar waith cynghorau i greu rhagolwg masnachol cryf, sut y maent yn datblygu sgiliau masnachol, eu polisïau, eu gweledigaeth, eu galluoedd monitro ac adrodd a'u seilwaith cyflawni ehangach. |
| **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** | Fel mireiniad ar y cynnig yn ein hymgynghoriad ar weithio rhanbarthol mewn llywodraeth leol, bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â pherfformiad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel cyfryngau i wella llesiant dinasyddion. |
| **Rheoli grantiau** | Gan adeiladu ar y cynnig yn ein hymgynghoriad, bydd y gwaith hwn yn ystyried sut y bu Llywodraeth Cymru yn **rheoli newidiadau mewn cynlluniau grant,** ond fel rhan o edrych yn ehangach ar y modd y mae trefniadau rheoli grantiau wedi datblygu ers ein hadroddiad yn 2011. |
| **Trefniadau ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol** | Byddwn yn edrych i weld a yw GIG Cymru wedi gweithio'n dorfol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym drwy waith archwilio lleol yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| **Amseroedd aros y GIG** | Bwriadwn ddilyn i fyny ar ein hadroddiad yn 2015 ac rydym yn debygol o ymgorffori ystyriaeth o'r pwnc o'n hymgynghoriad ar **weithdrefnau o werth clinigol cyfyngedig.** Mae yna hefyd gysylltiadau â'n gwaith ar wasanaethau orthopedig sy'n dal i fynd ymlaen. |
| **Llenwi absenoldebau athrawon** | Bwriadwn ddilyn i fyny ar ddatblygiadau ers ein hadroddiad yn 2013, yn cynnwys mewn ymateb i adroddiad 2017 Tasglu Gweinidogol y Model Cyflenwi. |

Tudalen y pecyn 206